YMCHWIL CYMDEITHASOL RHIF:
7/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
28/02/2019

# Adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer gwerthuso Diwygiadau Diamond i Gymorth i Fyfyrwyr

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol: 978-1-78964-812-6

Teitl: Adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer gwerthuso Diwygiadau Diamond i Gymorth i Fyfyrwyr

Awdur(on): Kerry KilBride, Jess Phillips a Nick Miller

Barnau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysyllltwch â:
Sara James
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
0300 025 6812
E-bost: sara.james@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys

Geirfa ........................................................................................................ 2
1. Cyflwyniad ........................................................................................................ 3
2. Canfyddiadau allweddol ac argymhellion ........................................................ 6
3. Methodoleg ........................................................................................................ 12
4. Canfyddiadau manwl ........................................................................................ 15
5. Casgliadau ac argymhellion .............................................................................. 53
Atodiad 1 – Cyflwyno graddol y diwygiadau i gymorth myfyrwyr .......................... 56
Atodiad 2 – Rhestr o Ddogfennaeth a Ffynonellau Data Posibl .............................. 59
Atodiad 3 – Rhestr Cyfranogwyr ............................................................................ 61
Atodiad 4 – Deunyddiau ymchwil Adolygiad gan gymheiriaid arbenigol o gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i gymorth myfyrwyr ............... 62
Atodiad 5 – Fframwaith Gwerthuso Llywodraeth Cymru ......................................... 67
Atodiad 6 – Asesiad Gwerthusadwyedd Llywodraeth Cymru ................................. 70

**Geirfa**

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| ADRC | Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru *(Administrative Data Research Centre)* |
| AHO | Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) |
| Brexit | Ymadawiad posibl neu ddamcaniaethol y Deyrnas Unedig o’r Undeb Ewropeaidd |
| CCAUC | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (PLASC) |
| DLHE | Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch *(Destinations of Leavers from Higher Education)* |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| EPS | Arolwg Safbwynt Cyflogwyr *(Employers Perspectives Survey)* |
| ESS | Arolwg Sgiliau Cyflogwyr *(Employers Skills Survey)* |
| HESA | Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch *(Higher Education Statistics Agency)* |
| LEO | Cronfa ddata Canlyniadau Hydredol Addysg *(Longitudinal Education Outcomes)* |
| NPD | Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion *(National Pupil Database)* |
| POLAR | Cyfranogiad Ardaloedd Lleol *(Participation of Local Areas)* |
| SAIL | Cronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw *(Secure Anonymised Information Linkage)* |
| SIES | Arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr *(Student Income and Expenditure Survey)* |
| SLC | Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr *(Student Loans Company)* |
| UCAS | Gwasanaeth Mynediad Prifysgolion a Cholegau *(Universities and Colleges Admissions Service)* |
| UCM | Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| WED | Cronfa Ddata Arholiadau Cymru *(Wales Examinations Centre)* |
| WISERD | Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru *(Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods)* |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynwyd Miller Research gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer gwerthuso diwygiadau Diamond i gymorth i fyfyrwyr o fis Mehefin hyd fis Tachwedd 2018. Mae’r ddogfen hon yn cyflwyno’r adolygiad a’i ganfyddiadau.

## Cefndir

*Y cyd-destun presennol a sail y diwygiadau*

1.2 Yn unol â llawer o’r diwygiadau presennol yn y sector addysg yng Nghymru, cafodd cyllid ar gyfer addysg uwch a chyllid myfyrwyr ei adolygu rhwng 2014 a 2016. Rhoddwyd y dasg i banel traws-bleidiol o dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond gynnal yr adolygiad a datblygu strategaeth i gyllido addysg uwch yn wahanol. Roedd yn rhaid i’r trefniadau cyllido newydd gydymffurfiol ag amryw o nodau allweddol, gan gynnwys galluogi prifysgolion i gyflawni eu prif swyddogaethau, a chyflawni amcanion strategol Llywodraeth Cymru wrth gyfrannu at greu swyddi a thwf a sicrhau gwell cyfiawnder cymdeithasol.

1.3 Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Adolygiad Diamond, derbyniodd Llywodraeth Cymru y mwyafrif o’r argymhellion a lluniodd gynigion ar gyfer dull graddol o weithredu’r diwygiadau. Cytunwyd y dylid gweithredu rhai argymhellion ar unwaith (2017/2018) a rhai o 2018/2019 ymlaen, tra bod argymhellion eraill yn dal i gael eu hystyried. Roedd y cyflwyno graddol yn galluogi Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar feysydd lle’r oedd y mwyaf o frys am ddiwygio yn eu barn hwy. Roedd y cynigion yn destun ymgynghoriad cyhoeddus at ddiwedd 2016, a gefnogodd eu datblygiad yn 2017 gan alluogi cychwyn y diwygiadau ym mis Medi 2018. Amlinellir y dull graddol o gyflwyno’r gyfres lawn o ddiwygiadau yn Atodiad 1.

## Monitro a gwerthuso’r dasg o weithredu’r diwygiadau

1.4 Ymysg y diwygiadau’r oedd yn eu cynnig, nododd Adolygiad Diamond:

> “Mae’r Panel Adolygu’n cydnabod pwysigrwydd gwerthuso parhaus ac felly mae’n argymell: Dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, gynnal gwaith ystadegol ac ymchwil i fonitro a gwerthuso’r gwaith o weithredu’r diwygiadau a gynigir er mwyn asesu eu heffaith, deall beth sy’n gweithio a dysgu a defnyddio gwersi am y ffordd orau o weithredu’r argymhellion hyn a rhai’r dyfodol.”[1]

[1] Adroddiad Panel Diamond, t 66.

1.5 Mae galluogi Amcan Pedwar Cenhadaeth ein Cenedl, 2017-2021 yn argymell; "Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn yn cefnogi system o hunan-wella".

1.6 Mae gweithgareddau wedi cychwyn mewn ymateb i'r argymhelliad hwn. Mae swyddogion wedi cynnal ymarferiad cwmpasu er mwyn datblygu dull o wneud gwerthusiad llawn o effaith elfennau allweddol y diwygiadau, ar ôl drafftio model rhesymeg lefel uchel, asesiad gwerthusadwyedd a chynllun gwerthuso.

**Yr adolygiad gan gymheiriaid**

1.7 Nod yr adolygiad gan gymheiriaid oedd arfarnu'n feirniadol y dull arfaethedig o werthuso'r prif ddiwygiadau i gymorth i fyfyrwyr, argymell gwelliannau a chynnig y camau nesaf.

1.8 Yn fwy penodol, mae'r adolygiad hwn gan gymheiriaid wedi cael ei gomisiynu er mwyn:

- Arfarnu'n feirniadol y model rhesymeg theori ac asesiad gwerthusadwyedd, yn benodol:
    - Archwilio ffactorau sy'n debygol o ddylanwadu ar effeithiau'r diwygiadau.
    - Rhoi sylwadau ar berthnasedd a chyflawnder y model rhesymeg a'r asesiad gwerthusadwyedd, a'r tybiaethau sydd y tu ôl iddynt;
    - Adnabod sut y gellid eu gwella.
    - Awgrymu ffyrdd o gynrychioli'r model rhesymeg mewn dull graffig a hynny mewn ffordd y gellir ei deall gan randdeiliaid.
- Ystyried sut mae'r gwerthusiad yn bwriadu archwilio'r graddau y mae neu y bydd y diwygiadau'n:
    - Adlewyrchu blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
    - Galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ymrwymiadau o fewn y Cynllun Gweithredu Economaidd a'r Cynllun Cyflogadwyedd ac ymrwymiadau o dan Deddf y Gymraeg a'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc.
- Ystyried y rhaglen werthuso arfaethedig fel cyfanrwydd, a gwneud sylwadau ar ei hansawdd a'i photensial i lunio casgliadau defnyddiol ynghylch

effeithiolrwydd ac effeithiau cadarnhaol a negyddol y diwygiadau ariannol allweddol.

- Ystyried dewisiadau defnyddiol eraill yn lle'r dull seiliedig ar astudiaethau ar raddfa fawr a gaffaelir gan Lywodraeth Cymru.
- Ystyried y ffynonellau data a thystiolaeth arall sydd ar gael a chynigion ar gyfer arolygu pellach a chyfateb a dadansoddi data, i helpu gwerthuso'r diwygiadau.
- Asesu gwerth yr adnoddau hyn wrth gefnogi'r rhaglen werthuso arfaethedig.
- Argymell, gyda rhesymau, beth allai fod y ffordd orau o ddefnyddio'r ffynonellau a nodwyd.
- Adnabod lle gallai data ac ymchwil ychwanegol fod yn fuddiol, a pham.
- Nodi amcangyfrif o gostau posibl gweithgareddau ychwanegol, gyda rhesymau.
- Cynnig awgrymiadau ynghylch cydbwysedd priodol o waith mewnol a gwaith wedi'i gomisiynu, gyda'r mathau o sefydliadau ac arbenigedd y gellid bod eu hangen ar gyfer gweithredu'r rhaglen yn llwyddiannus.
- I gloi, llunio argymhellion ar gyfer rhaglen i werthuso'r prif ddiwygiadau i gyllid i fyfyrwyr, a'r rhain yn cynnwys:
    - Amserlen arfaethedig
    - Methodolegau a awgrymir, i gynnwys samplau a gynigir
    - Costau posibl.

## 2. Canfyddiadau allweddol ac argymhellion

### Canfyddiadau allweddol

2.1 Trwy gydol yr adolygiad, mae'r model rhesymeg lefel uchel (testunol) drafft wedi cael ei symleiddio a'i gynrychioli mewn fformat diagramatig ar gyfer ei brofi a'i fireinio ymhellach gyda rhanddeiliaid. Mae'r newidiadau allweddol wedi cynnwys rhesymoli gyrwyr ac amcanion y diwygiadau, er mwyn sicrhau eu bod i gyd yn gysylltu'n uniongyrchol yn ôl i'r blaenoriaethau yr aeth Adolygiad Diamond ati i ymdrin â hwy, sef:

- ehangu mynediad – sicrhau bod ehangu mynediad yn un o amcanion craidd unrhyw system yn y dyfodol, a bod y system ei hun yn flaengar a theg
- ymdrin ag anghenion sgiliau Cymru
- cryfhau'r ddarpariaeth rhan-amser a'r ddarpariaeth i raddedigion yng Nghymru
- cynaliadwyedd ariannol hirdymor[2].

2.2 Newid allweddol arall i'r model rhesymeg oedd gwahaniaethu rhwng canlyniadau'r gwahanol gohortau o fyfyrwyr y bydd y diwygiadau'n effeithio arnynt, sef israddedigion llawn-amser, israddedigion rhan-amser a graddedigion, gan eu bod yn debygol o amrywio[3].

2.3 Yn olaf, y prif newid arall i'r model rhesymeg oedd ehangu'r effeithiau o bwyslais economaidd cul i gynnwys canolbwyntio ar ddyheadau llesiant cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol Adolygiad Diamond.

2.4 Mae rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r adolygiad hwn gan gymheiriaid wedi cefnogi'n gryf y syniad o fuddsoddi mewn gwerthusiad o effaith y diwygiadau, ac maent wedi croesawu dull gweithredu hirdymor ac wedi'i gynllunio, gan ddefnyddio data sylfaenol ac eilaidd o natur ansoddol a meintiol.

2.5 Mae'r adolygiad wedi ystyried y ffynonellau data eilaidd y gellid eu defnyddio fel mesuriadau ar gyfer gwerthusiad o effeithiau'r diwygiadau, gan gynnwys

[2] Datganiad Ysgrifenedig - Datganiad ar yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru

[3] Er enghraifft, er bod cynnydd sylweddol mewn cyfranogi (ynghyd â chadw, cwblhau ac ehangu mynediad) ymhlith israddedigion rhan-amser addysg uwch a graddedigion addysg uwch, ymhlith israddedigion llawn-amser, mae'r canlyniadau tebygol o fod yn fwy yn nhermau ehangu mynediad a chynyddu cadw a chwblau. Hynny yw: mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod y diwygiadau'n annhebygol o arwain at lefelau sylweddol uwch o gyfranogiad israddedigion ymhlith llawn-amser addysg uwch.

arolygon sampl, data arferol ysgol (a chyfrifiad), addysg bellach, addysg uwch a Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, astudiaethau hydredol a setiau data cysylltiedig (gan gynnwys data hanesyddol). Nodir y mathau o ddefnydd a argymhellir ar gyfer y setiau data hyn yn y dull arfaethedig mwy manwl, sy'n adeiladu ar y dull drafft a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru.

2.6 Er hynny, ni bydd ffynonellau data yn unig yn rhoi'r dystiolaeth angenrheidiol i werthuso effaith y diwygiadau a bydd angen ymchwil sylfaenol ychwanegol, fel y disgrifir yn y dull a grynhoir isod ac a nodir mewn mwy o fanylder yn yr adroddiad llawn o'r adolygiad hwn.

2.7 Gan mai ehangu mynediad at addysg uwch yw amcan y diwygiadau, bydd yn bwysig hefyd i'r gwerthusiad benderfynu sut mae'r cymorth ariannol sydd ar gael o dan ddiwygiadau Diamond yn dylanwadu ar benderfyniad darpar fyfyrwyr posibl i ystyried addysg uwch. Byddai hyn yn gofyn am ymchwil sylfaenol ac eilaidd gyda'r rheini sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch a'r rheini nad ydynt, er mwyn adnabod ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau i gymryd rhan neu beidio.

2.8 Rydym yn cymeradwyo'r cynnig i seilio'r gwerthusiad arfaethedig ar dri chyfnod fel a ganlyn:

- Cyfnod paratoi wedi'i neilltuo i sicrhau bod systemau ar gyfer cynhyrchu a defnyddio gwybodaeth yn cael eu datblygu'n briodol i hwyluso gwerthusiadau effaith canol-tynmor a hirdymor cadarn. Byddai'r prif weithgareddau yn y cyfnod hwn yn cynnwys:
  - Cynllunio a dylunio Arolwg Gwariant ac Incwm Myfyrwyr (SIES) 2020-2021 ac archwilio rhai gwelliannau[4] a chyfleoedd i gysylltu â ffynonellau data eraill[5].

[4] Yn benodol, samplau wedi eu chwyddo ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru fel cyfanrwydd a rhai grwpiau blaenoriaeth (myfyrwyr sy'n rhieni neu ofalwyr, myfyrwyr rhan-amser, ymadawyr gofal, myfyrwyr du ac o leiafrifoedd ethnig, myfyrwyr ag anabledd a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith), cynnwys myfyrwyr ôl-radd, cynnwys cwestiynau am galedi ariannol a risg o ran eu cadw o ganlyniad i hynny a chwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r cymorth ariannol i fyfyrwyr sydd ar gael iddynt a'r graddau y mae hyn wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i wneud cais i fynd i brifysgol a chynnwys astudiaeth ddilynol ansoddol ar galedi a risg ariannol, i'w gynnal gyda myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, gan sicrhau caniatâd ymatebwyr i gysylltu eu hymatebion SIES â ffynonellau data gweinyddol penodol a chynllunio ar gyfer datblygu dull o sgorio tueddiad gan gymharu data myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a rhai sy'n hanu o Loegr o SIES 2020/21, a chymharu sgôr tueddiad data myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o SIES 2020/21 a data myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o SIES 2014/15.

[5] Yn benodol, setiau data Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru), Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, cofnod myfyrwyr HESA a data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

- o Archwilio’r cyfle (efallai trwy weithio gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr) am arolwg dilynol Punt yn eich Poced a’i hyfywedd (o ran costau a chadernid data), gyda dilyniant ansoddol.
- o Gan ddeiladu ar grwpiau targed cynllun ehangu mynediad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), cytuno ar ddiffiniad o grwpiau cyfranogiad isel, i ddibenion monitro a gwerthuso.
- o Comisiynu’r gyntaf o dair astudiaeth ansoddol hydredol, er mwyn ymchwilio i brofiad myfyrwyr sy’n destun gwahanol gyfundrefnau cefnogi myfyrwyr. Byddai Astudiaeth 1 yn cynnwys yn cynnwys dau gohort o fyfyrwyr sy’n hanu o Gymru[6]. Yn gyntaf, cohort a gofrestrodd mewn addysg uwch yn hydref 2018 (i’w cyfweld dros dair ton ar sail flynyddol, gan gychwyn o wanwyn/haf 2019[7]), er mwyn archwilio’r cysylltiadau rhwng y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr, y dewisiadau maent yn eu gwneud a’r effeithiau mae hyn yn eu cael ar eu profiad o addysg uwch, eu perfformiad academaidd a’u llesiant[8]. Yn ail, cohort a gofrestrodd mewn addysg uwch yn hydref 2017 (i’w cyfweld dros ddwy don ar sail flynyddol, gan gychwyn o wanwyn/haf 2019[9]), fel modd o fesur gwahaniaethau mewn profiadau o gymharu â’r rheini sy’n cymryd rhan yn y cohort tair-ton, y cyfeiriwyd ato uchod.
- o Cyhoeddi canfyddiadau o gwestiynau newydd ar ddyheadau a rhwystrau addysgol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ac ystyried y potensial am arolwg dilynol a/neu ailadrodd y cwestiynau mewn blynyddoedd i ddod.
- o Comisiynu ymchwil ansoddol gyda myfyrwyr Cyfnod Allweddol 5 a rhieni myfyrwyr Cyfnod Allweddol 5 er mwyn ymchwilio i ymwybyddiaeth o gymorth i fyfyrwyr addysg uwch, y graddau y mae’r cymorth sydd ar gael yn dylanwadu ar ddyheadau i gymryd rhan mewn addysg uwch neu beidio, a ffactorau eraill sy’n dylanwadu.
- o Archwilio cyfleoedd i brynu cwestiynau ychwanegol ar arolwg Omnibws Beaufort mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o gymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ymysg y boblogaeth yn gyffredinol.

[6] Israddedigion rhan-amser a llawn-amser a graddedigion rhan-amser a llawn-amser. Am fwy o fanylion o gyfansoddiad y sampl arfaethedig, gweler y prif adroddiad.
[7] Sef, yn eu blwyddyn gyntaf, ail a thrydedd o astudiaeth israddedig (llawn-amser a rhan-amser), blwyddyn sengl o astudiaeth ôl-radd (llawn-amser) neu flwyddyn gyntaf ac ail o astudiaeth ôl-radd (rhan-amser).
[8] Nid yw hyn yn rhywbeth y gellir ei gael yn gyfan gwbl o’r setiau data addysg uwch sydd ar gael.
[9] Sef, yn eu hail a thrydedd flwyddyn o astudiaeth israddedig.

    - Cynnal dadansoddiad meintiol o Gofnod Ariannol yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a gweithio gyda CCAUC i ddatblygu dull ansoddol o ddadansoddi incwm a gwariant blynyddol sefydliadau addysg uwch, gan gynnwys cyfweliadau ansoddol gyda sefydliadau addysg uwch, er mwyn gosod cyd-destun i Gofnod Ariannol HESA.
    - Cydgysylltu â HESA i ddeall y fethodoleg a fwriedir a'r holiadur ar gyfer yr arolwg Canlyniadau Graddedigion newydd sydd wrthi'n cael ei weithredu, er mwyn archwilio'r graddau o gymharedd â Chyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch.
- Cyfnod gwerthuso canol tymor sy'n canolbwyntio ar fesur allbynnau a chanlyniadau sy'n dod i'r amlwg. Byddai'r prif weithgareddau yn y cyfnod canol-tymor yn cynnwys:
    - Dadansoddi ffynonellau data eilaidd allweddol, gan gynnwys SIES 2020/21, wedi ei gysylltu â chofnod myfyrwyr HESA, CYBLD, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfwyr ac ystadegau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, ystadegau blynyddol Cytundebau Lefel Gwasanaeth a HESA (2018/9, 2019/20, 2020/1, 2021/2, 2022/2, 2023/4), arolwg dilynol Punt yn eich Poced (os yn berthnasol) ac arolwg Canlyniadau Graddedigion.
    - Comisiynu ail astudiaeth ansoddol hydredol o fyfyrwyr yn hanu o Gymru sy'n cofrestru yn hydref 2022 yn sefydliadau Cymru a Lloegr, i'r diben o olrhain eu profiadau addysg uwch hyd at ddiwedd blwyddyn academaidd 2024-25.
    - Dadansoddi incwm a gwariant blynyddol sefydliadau addysg uwch (2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022/23, 2023/4) trwy gyfweliadau ansoddol gyda Llywodraeth Cymru, CCAUC a holl sefydliadau addysg uwch Cymru a sampl o sefydliadau addysg uwch Lloegr ac adolygiad o gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch, Llythyrau Cylch Gwaith Blynyddol, cylchlythyrau cyllido blynyddol CCAUC ac adroddiadau iechyd ariannol CCAUC.
- Cyfnod gwerthuso effaith terfynol, i fesur canlyniadau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg. Byddai'r cyfnod terfynol hwn yn cynnwys y prif weithgareddau canlynol:
    - Dadansoddi ffynonellau data eilaidd allweddol, gan gynnwys SIES dilynol wedi'i gysylltu â chofnod myfyrwyr HESA, CYBLD, Cronfa Ddata

Arholiadau Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, ystadegau Cytundebau Lefel Gwasanaeth blynyddol a HESA (2024/25, 2025/26, 2026/27, 2027/28, 2028/29), arolwg Canlyniadau Graddedigion a data Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (Hanesyddol)[10].

- Comisiynu trydydd astudiaeth ansoddol hydredol o fyfyrwyr yn hanu o Gymru sy'n cofrestru yn hydref 2026 yn sefydliadau Cymru a Lloegr, i'r diben o olrhain eu profiadau addysg uwch hyd at ddiwedd blwyddyn academaidd 2028-29.
- Dadansoddi data HESA (myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn erbyn myfyrwyr sy'n hanu o Loegr a newid dros amser ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru) a chanlyniadau Arolwg Chwarterol o'r Llafurlu (2018-2029).
- Dadansoddi incwm a gwariant blynyddol sefydliadau addysg uwch (2024/25, 2025/26, 2026/27, 2027/28, 2028/29) trwy gyfweliadau ansoddol gyda Llywodraeth Cymru, CCAUC a holl sefydliadau addysg uwch Cymru a sampl o sefydliadau addysg uwch Lloegr ac adolygiad o gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch, Llythyrau Cylch Gwaith Blynyddol, cylchlythyrau cyllido blynyddol CCAUC ac adroddiadau iechyd ariannol CCAUC.

2.9 Mae angen i'r cysylltiadau achosol rhwng cynnwys diwygiadau Diamond a'r canlyniadau posibl fod yn realistig, gan fod amrywiaeth o ffactorau allanol a all leihau neu chwyddo unrhyw effaith o'r diwygiadau. Caiff y diwygiadau eu cyflwyno yn ystod cyfnod o newid economaidd-gymdeithasol sylweddol, gan gynnwys y rhagolygon o Brexit a newidiadau i drefniadau cyllido myfyrwyr yn Lloegr, gostyngiad demograffig yn y nifer o ymadawyr ysgol a newidiadau i'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) yn gyffredinol, gan gynnwys uchelgeisiau i greu mwy o barch cydradd rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol. Bydd y ffactorau hyn ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau allanol eraill sy'n effeithio ar benderfyniad pobl i gymryd rhan mewn addysg uwch neu beidio yn profi i fod yn her ar gyfer gwerthusiad effaith ystyrlon a thrylwyr o'r diwygiadau.

[10] I archwilio nodweddion y rheini a aeth ac nad aeth i'r brifysgol cyn diwygiadau Diamond ac a aeth ac nad aeth ar ôl y diwygiadau.

**Argymhellion**

2.10 Argymhelliad 1: Gweithredu'n llawn a mireinio ymhellach y dull gwerthuso a ddatblygwyd trwy'r broses adolygiad gan gymheiriaid a nodir yn yr adroddiad hwn, gan ganiatáu ar gyfer gwneud addasiadau i ystyried newidiadau polisi perthnasol yng Nghymru a Lloegr.

2.11 Argymhelliad 2: Comisiynu astudiaeth ansoddol hydredol dri-chyfnod o dri cohort o fyfyrwyr yn hanu o Gymru fel rhan o bob cyfnod o'r gwerthusiad, sydd wedi ymrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr, yn benodol:

- Byddai cohort cyfnod paratoi[11] yr astudiaeth yn cael eu cyfweld am y tro cyntaf yng ngwanwyn/haf 2019, am yr ail dro yng ngwanwyn/haf 2020 ac am y trydydd tro yng ngwanwyn/haf 2021.
- Byddai cohort cyfnod gwerthuso canol tymor yr astudiaeth yn cael eu cyfweld am y tro cyntaf yng ngwanwyn/haf 2022, am yr ail dro yng ngwanwyn/haf 2023 ac am y trydydd tro yng ngwanwyn/haf 2024.
- Byddai cohort gwerthusiad effaith terfynol yr astudiaeth yn cael eu cyfweld am y tro cyntaf yng ngwanwyn/haf 2027, am yr ail dro yng ngwanwyn/haf 2028 ac am y trydydd tro yng ngwanwyn/haf 2029.

2.12 Argymhelliad 3: Comisiynu astudiaeth ansoddol fel rhan o'r cyfnod paratoi gyda myfyrwyr yng Nghyfnod Allweddol 5 (gan gynnwys y rheini mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach) a'u rhieni er mwyn deall dyheadau, rhwystrau ac ysgogiadau mewn perthynas â chymryd rhan mewn addysg uwch.

2.13 Argymhelliad 4: Archwilio cyfleoedd i brynu cwestiynau ychwanegol ar arolwg Omnibws Beaufort mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o gymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ymhlith y boblogaeth gyffredinol.

2.14 Argymhelliad 5: Archwilio cyfleoedd a goblygiadau diogelu data ar gyfer cysylltu data Canlyniadau Hydredol Addysg (LEO) ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar incwm teuluoedd wrth gychwyn ar addysg uwch a derbyn benthyciad i fyfyrwyr.

2.15 Argymhelliad 6: Archwilio cyfleoedd i gymharu setiau data addysg uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru â setiau data addysg uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr.

[11] Am fwy o fanylion ynghylch cyfansoddiad arfaethedig y cohort hwn, gweler Adran 4 o'r adroddiad hwn.

# 3. Methodoleg

3.1 Cychwynnodd yr adolygiad gan gymheiriaid gyda chyfarfod cychwynnol rhwng tîm Miller Research a thîm llywio ymchwil o swyddogion Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays ym mis Gorffennaf 2018.

**Adolygiad o ddogfennaeth rhaglenni, polisi presennol a gwerthusiadau o arferion gorau addysg uwch**

3.2 Yn dilyn y cyfarfod cychwynnol gwnaed adolygiad o ddogfennaeth rhaglenni a'r polisi presennol. Roedd y dogfennau a adolygwyd yn cynnwys nifer a argymhellwyd gan dîm Llywodraeth Cymru ar y prosiect, a'r rhain wedi eu hategu â deunydd ychwanegol. Cynhaliwyd yr adolygiad fel bod tîm y prosiect yn ymgyfarwyddo'n llawn ag agweddau allweddol Adolygiad Diamond a chyd-destun polisi'r diwygiadau i gymorth i fyfyrwyr.

3.3 Defnyddiwyd proses 'caseg eira' drwy gydol yr adolygiad gan gymheiriaid. Astudiwyd dogfennau ychwanegol wrth i'r adolygiad fynd yn ei flaen; awgrymwyd y rhain yn ystod y cyfweliadau cwmpasu, y gweithdy data a'r gweithdai mapio tybiaethau. Mae rhestr lawn o'r ddogfennaeth a adolygwyd i'w weld yn Atodiad 2Atodiad 2.

**Cyfweliadau cwmpasu**

3.4 Cynhaliwyd cyfres o gyfweliadau cwmpasu yn dilyn yr adolygiad dogfennau er mwyn adeiladu ymhellach ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillwyd o'r ymchwil desg. Cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu gyda phum rhanddeiliad, gan gynnwys arbenigwyr academaidd mewn gwerthuso addysg uwch a gweithredu diwygiadau tebyg. Gellir gweld rhestr lawn o'r rhanddeiliaid a gynhwyswyd yn yr adolygiad gan gymheiriaid yn Tabl 1.

**Tabl 1 – Rhestr Rhanddeiliaid**

| Cyfranogwyr cyfweliadau cwmpasu | Gweithdy data | Gweithdai mapio tybiaethau |
|---|---|---|
| • Swyddogion Llywodraeth Cymru (X2)<br>• Cynrychiolydd o Brifysgol Sheffield Hallam University<br>• Cynrychiolydd o Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru<br>• Cyn swyddog Addysg Uwch yn Llywodraeth yr Alban | • Swyddogion Llywodraeth Cymru (x5)<br>• Prifysgol Caerdydd – cynrychiolydd Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru<br>• Prifysgol Caerdydd cynrychiolwyr Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru/Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol (x2)<br>• Prifysgol Abertawe – cynrychiolydd Cyswllt Gwybodaeth Diogel Ddienw/Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol<br>• Cynrychiolydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | **Gweithdy 1:**<br>• Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)<br>• Y Brifysgol Agored<br>**Gweithdy 2:**<br>• Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr<br>**Gweithdy 3:**<br>• Prifysgolion Cymru |

**Archwilio ffynonellau data**

3.5 Drwy gydol o cyfnod cwmpasu fe wnaeth rhanddeilliaid argymhellion ynghylch ffynonellau data i'w cynnwys a sut i'w defnyddio yn y gwerthusiad o'r diwygiadau i gymorth myfyrwyr. Er mwyn cefnogi ymhellach yr adolygiad o'r ffynonellau data, cynhwyswyd gweithdy data yn y broses o gyd-drafod â rhanddeiliaid. Gellir gweld y rhestr lawn o'r ffynonellau data a adolygwyd yn Atodiad 2Atodiad 2.

**Gweithdy data**

3.6 Cynhaliwyd gweithdy data yn swyddfa Llywodraeth Cymru, Parc Cathays ar 19 Hydref 2018. Roedd a rhai ddaeth yno'n cynnwys amrywiaeth o academyddion, arbenigwyr diwydiant ac arbenigwyr data o fewn Llywodraeth Cymru. Gellir gweld rhestr lawn o randdeiliaid a gymerodd ran yn yr adolygiad gan gymheiriaid yn Tabl 1. Rhoddodd y gweithdy wybodaeth ddefnyddiol ar amrywiaeth o ffynonellau data sydd ar gael a'u defnyddioldeb a'u cyfyngiadau posibl.

**Gweithdai mapio rhagdybiaethau i randdeiliaid**

3.7 Cynhaliwyd tri gweithdy mapio rhagdybiaethau dros gyfnod o bythefnos ym mis Hydref 2018. Digwyddodd y gweithdai yn Tramshed Tech, swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays a swyddfa Prifysgolion Cymru ym Mae Caerdydd. Gellir gweld y rhanddeiliaid a oedd yn bresennol yn y gweithdai hyn hefyd yn Tabl 1. Fe wnaeth y gweithdai mapio tybiaethau alluogi rhanddeiliaid i adolygu'r model rhesymeg diagramatig a thrafod y cysylltiadau posibl rhwng pob un o'r cyfnodau.

**Adroddiad yr Adolygiad gan Gymheiriaid**

3.8 Cafodd yr wybodaeth a gasglwyd o'r tri digwyddiad ansoddol gwahanol hyn ei gosod at ei gilydd gan dîm Miller Research a'i thrafod gyda grŵp llywio'r ymchwil cyn drafftio'r adroddiad terfynol.

3.9 Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu canfyddiadau manwl y broses ac yn cyflwyno argymhellion am ffordd ymlaen ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i gymorth myfyrwyr.

*Egwyddorion sylfaenol*

3.10 Atgyfnerthir yr adroddiad hwn gan nifer o egwyddorion craidd, sef:

- Yr angen i ganolbwyntio ar y berthynas rhwng argymhellion Adolygiad Diamond a chanlyniadau ac effeithiau arfaethedig y diwygiadau.
- Yr angen i gydbwyso barnau amrywiaeth o randdeiliaid gyda gwahanol arbenigedd a blaenoriaethau sefydliadol a lefelau amrywiol o ddealltwriaeth o theori ac ymarfer gwerthuso.
- Yr angen i gydnabod cyfyngiadau'r adolygiad gan gymheiriaid a pha mor bell mae'n ymarferol amlinellu dull mewn manylder, yn wyneb ansicrwydd ynghylch y tirwedd gwleidyddol ac economaidd a ffactorau allanol allweddol, y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru, darparwyr a myfyrwyr addysg uwch, a all effeithio ar effaith y diwygiadau[12] ac a all herio perthnasedd hirdymor cynlluniau gwerthuso.

[12] Er enghraifft, newidiadau i bolisi cymorth i fyfyrwyr yn Lloegr, diwygiadau ehangach i'r sector AHO yng Nghymru a Brexit

# 4. Canfyddiadau manwl

## Enghreifftiau o werthusiadau eraill o ddiwygiadau tebyg

4.1 Roedd yr adolygiad gan gymheiriaid yn cynnwys adolygiad desg o werthusiadau o ddeunydd pwnc sy'n debyg yn fras, neu'n ymwneud â methodoleg gymaradwy. Roedd cyfweliadau cwmpasu gyda rhanddeiliaid hefyd yn rhoi sylw i unrhyw ran y gallent fod wedi ei chwarae mewn gweithgareddau blaenorol yn asesu effaith neu effaith posibl diwygiadau i gyllid myfyrwyr neu unrhyw ddiwygiadau polisi perthnasol eraill. Roedd y mwyafrif o'r gwerthusiadau'n ymwneud â Chymru'n unig, er bod nifer bach yn cwmpasu'r DU neu â chwmpas rhyngwladol. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y dull, maint a strwythur samplau, ffynonellau data, dull o asesu effaith a gwersi a ddysgwyd o bob astudiaeth. Nodwyd gwerthusiadau trwy'r cyfweliadau â rhanddeiliaid ac wrth chwilio'r rhyngrwyd, ac roeddent yn cynnwys:

- Gwerthusiad ffurfiannol a gwerthusiad effaith y Rhaglen Allgyrraedd Gydweithredol Genedlaethol (2018)
- Gwerthusiad o'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (2013)
- Gwerthusiad o gymorth ariannol i fyfyrwyr mewn Addysg Uwch yng Nghymru (2015)
- Gwerthusiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (2014)
- Gwerthusiad o Grant Dysgu'r Cynulliad (2015)
- Ariannu teg a hyblyg: Model Cymreig ar gufer hyrwyddo ansawdd a mynediad mewn addysg uwch (Adolygiad Rees) (2005)
- Graduate Indebtedness: Its perceived effects on behaviour and life choices - Literature Review (2018)
- Anfantais economaidd-gymdeithasol a phrofad mewn addysg uwch (2003)

*Gwersi a ddysgwyd o werthusiadau blaenorol*

4.2 Roedd rhai, ond nid pob un, o'r adroddiadau o astudiaethau blaenorol yn cydnabod diffygion neu gyfyngiadau'r methodolegau a fabwysiadwyd ynddynt, yn enwedig o safbwynt mesur effaith. Lle bo'n berthnasol, roedd rhanddeiliaid yn tynnu sylw at anawsterau neu wendidau mewn astudiaethau y buont yn ymwneud â hwy o'r blaen. Mae'r materion hyn wedi cael eu hystyried yng nghyd-destun y dull arfaethedig ar gyfer gwerthuso prif ddiwygiadau Diamond, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- Mae effeithiau polisïau neu raglenni y bwriedir iddynt ddylanwadu ar gyfranogiad mewn addysg uwch yn debygol o gymryd llawer blwyddyn cyn y bydd tystiolaeth ohonynt. Felly, mae angen i werthusiad trylwyr fod yn hirdymor ac yn hydredol[13] ei natur, gan ystyried effeithiau ar ddyheadau a dewisiadau ymysg disgyblion ysgol uwchradd, ac effaith profiad myfyrwyr y gorffennol o ad-dalu dyledion hirdymor ar agweddau darpar fyfyrwyr y dyfodol.
- Yr her o werthuso polisïau sy'n cynnwys llu o newidiadau cymhleth a rhyng-gysylltiedig a phennu priodoliad i'r gwahanol elfennau[14].
- Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniad darpar fyfyriwr addysg uwch posibl i gymryd rhan mewn addysg uwch neu beidio yn rhai lluosog ac nid ydynt bob amser yn syml nac yn cael eu mynegi'n onest: *"mae astudiaethau blaenorol wedi gwneud y camgymeriad o gymryd rhesymau pobl dros beidio â gwneud cais – er enghraifft arian – yn llythrennol ac arwynebol, gan fod hyn yn aml yn 'esgus' hawdd a mwy derbyniol i guddio syniadau eraill ynghylch ofn methiant neu ofn rhywbeth sy'n ddieithr iddynt."* [15]
- Mae nodweddion myfyrwyr a thefniadau cymorth ariannol yn amrywio'n helaeth ac mae'r amrywiaeth o gyfuniadau o'r rhain yn golygu bod angen samplau mawr iawn er mwyn bod yn hyderus wrth adnabod patrymau yn effaith cymorth ariannol ar eu dewisiadau a'u canlyniadau.
- Gall dadansoddiad ansoddol gael ei danseilio os nad yw pawb mewn sampl yn rhoi caniatâd i'w data (er enghraifft HESA a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi) gael ei ddefnyddio i ddibenion ymchwil neu werthuso.
- Mae diffyg data manwl a dibynadwy ar gyflogaeth graddedigion yng Nghymru yn ei gwneud yn anodd cyffredinoli am gysylltiadau rhwng cymorth i fyfyrwyr a chyflogaeth ac enillion graddedigion.
- Mae dibyniaeth ar setiau data eilaidd yn golygu nad oes gan werthuswyr ddim rheolaeth dros gynnwys y data sydd ar gael iddynt.
- Gall gor-bwyslais ar effeithiau economaidd, heb ddigon o ganolbwyntio ar effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol gyfyngu ar ehangder y canlyniadau a'r effeithiau y sylwir arnynt.
- Gall absenoldeb elfennau ansoddol i werthusiad arwain at ddiffyg dealltwriaeth o sut mae perthynas rhwng cymorth i fyfyrwyr, dewisiadau

[13] Roedd un rhanddeiliad academaidd yn awgrymu olrhain darpar fyfyrwyr addysg uwch posibl mor gynnar â Chyfnod Allweddol 3 fel rhan o'r gwerthusiad o Ddiwygiadau Diamond. Roedd astudiaeth arall yn awgrymu astudio canlyniadau dyled myfyrwyr dross awl blwyddyn yn dilyn graddio, gan y gall effeithiau gronni dros amser.
[14] Mae'r pwynt hwn yn cefnogi'r penderfyniad i ganolbwyntio'r gwerthusiad yn gyfan gwbl ar y prif ddiwygiadau i gymorth myfyrwyr (hynny yw: y newidiadau i gymorth cynhaliaeth a ffioedd dysgu cyrsiau llawn-amser a rhan-amser israddedig ac ôl-raddedig, a'r lefel a argymhellir ar gyfer ffioedd dysgu) ac nid diwygiadau Diamond yn eu cyfanrwydd.
[15] Rhanddeilad a gyfwelwyd.

myfyrwyr a chanlyniadau gweladwy yn datblygu a o broses unigolyn o wneud penderfyniadau ynghylch cymryd rhan mewn addysg uwch.

- Y broblem o symudiad trawsffiniol myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a myfyrwyr sy'n hanu o Loegr, ac sy'n destun gwahanol gyfundrefnau cyllid i fyfyrwyr, yng nghyd-destun yr Adolygiad o Addysg a Chyllido Ôl-18 yn Lloegr[16]. Mae hyn yn dylanwadu ar ddewisiadau a wneir gan fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr, gan effeithio'n anuniongyrchol ar y cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a'r dewisiadau a wneir ganddynt.
- Yr amrywiad mewn costau (tai, trafnidiaeth etc) a grantiau a chymorthdaliadau ar lefel sefydliadau rhwng prifysgolion a'r effaith y bydd hyn yn ei gael ar sefyllfa ariannol myfyrwyr ac, yn ei dro, ar lesiant, sydd y tu allan i ddiwygiadau Diamond.
- Yr her o recriwtio'r rheini nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg uwch ac adnabod achosiaeth dros beidio â chymryd rhan.

**Perthnasedd a chyflawnder y model rhesymeg**

*Trosolwg*

4.3 Fel rhan o'r broses hon o adolygu gan gymheiriaid, cafodd y model rhesymeg lefel uchel (testunol) drafft ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i gyllid i fyfyrwyr[17] ei adolygu a'i gynrychioli mewn fformat diagramatig i'w brofi a'i fireinio ymhellach gyda rhanddeiliaid.

4.4 Gan fod y gyrwyr polisi a'r amcanion ar gyfer y diwygiadau wedi cael eu diffinio cyn yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, nid oedd yn rhan o gylch gorchwyl yr adolygiad hwn gan gymheiriaid i ail-ymdrin â rhesymeg a sail resymegol y diwygiadau. Canolbwyntiwyd yn hytrach ar weithgareddau – cwmpas y diwygiadau allweddol i gyllid myfyrwyr yn ei hanfod – a'r berthynas rhwng y gweithgareddau hyn a'r allbynnau, canlyniadau ac effeithiau a ddeiliodd o'r diwygiadau i gyllid i fyfyrwyr. Er hynny, er mwyn i randdeiliaid allu olrhain y rhesymeg drwodd o'r gyrwyr polisi i'r effeithiau, darparwyd y model rhesymeg yn ei gyfanrwydd iddynt.

4.5 Isod gwelir fersiwn gychwynnol y model rhesymeg, a oedd yn seiliedig ar gynnwys y model rhesymeg testunol lefel uchel ac fe'i rhannwyd gyda rhanddeiliaid cyn y cyfweliadau a'r gweithdai a gynhaliwyd yn ystod y broses adolygu gan gymheiriaid.

[16] Disgwylir y bydd yr adolygiad yn adrodd yn gynnar yn 2019.
[17] Cynhyrchwyd yn fewnol yn Llywodraeth Cymru.

| **Anghenion** Beth yw'r angen am y Diwygiadau i Gymorth i Fyfyrwyr? Mae angen … | | **Amcanion** Beth yw amcanion y Diwygiadau i Gymorth i Fyfyrwyr / Beth maent yn ceisio'i gyflawni? | | **Mewnbynnau / Adnoddau** Beth mae'r Diwygiadau i Gymorth i Fyfyrwyr yn ei roi i mewn er mwyn cyflawni'r amcanion? | | **Gweithgareddau** Beth mae'r Diwygiadau i Gymorth i Fyfyrwyr yn ei wneud gyda'r mewnbynnau er mwyn cyflawni'r amcanion? | | **Allbynnau** Beth sy'n cael ei gynhyrchu'n uniongyrchol o Weithgareddau'r Diwygiadau i Gymorth i Fyfyrwyr? | | **Canlyniadau** Beth yw'r canlyniadau a'r allbynnau tymor byr a thymor canolig? | | **Effeithiau** Beth yw'r canlyniadau hirdymor o'r allbynnau hyn? | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N.1 | Cynyddu gallu myfyrwyr i gyfarfod â'u costau (cynhaliaeth) | OB.1 | Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i addysg uwch sy'n deillio o gyfyngiadau ariannol | IN.1 | Grŵp Llywio Prosiect, tîm prosiect, rheolaeth prosiect a systemau llywodraethu | A.1 | Cynyddu cyfanswm cymorth cynhaliaeth i lefel Cyflog Byw Cenedlaethol, gyda grant graddedig seiliedig ar brawf moddion, wedi ei ategu â benthyciad | OP.1 | Gwell cymorth cynhaliaeth | OC.1 | Gwella sefyllfa ariannol myfyrwyr - lleihad mewn dyled o orddrafftau, ôl-ddyledion, credyd, benthyciadau banc a benthyciadau ansicr gyda lefel uwch o ddyled seiliedig ar fenthyciadau dibynnol ar incwm. | IM.1 | Gwelliant yn lefelau addysg a chymwysterau'r llafurlu, a ddylai arwain at fuddion iechyd, llesiant a thwf economaidd. |
| N.2 | Ychwanegu at gymorth y wladwriaeth i'r rheini na all neu na wna eu rhieni ddarparu cymorth ariannol | OB.2 | Lleihau canlyniadau dibyniaeth myfyrwyr ar gorddrafft, credyd, ôl-ddyledion, benthyciadau banc a benthyciadau ansicr (rhwystrau ariannol rhag cyrraedd nodau bywyd, straen ac effeithiau iechyd meddwl) | IN.2 | Grŵp Rhanddeiliaid Gweithredu Diamond | A.2 | Darparu grant cynhaliaeth cyffredinol o £1,000 y flwyddyn i israddedigion llawn-amser | OP.2 | Gallai myfyrwyr brofi cynnydd yng nghost cymryd rhan, byw a llety (prisiau'n codi o ganlyniad i fyfyrwyr yn cael mwy o arian i'w wario). | OC.2 | Cynnydd yn nyled benthyciadau myfyrwyr unigolion - straen ac effaith ar gyrraedd nodau bywyd | IM.2 | Cyfradd uwch o sgiliau a chymwysterau lefel uwch ymhlith llafurlu Cymru |
| N.3 | Helpu teuluoedd y mae eu cyflogaeth uwchlaw'r trothwy presennol ond sy'n dal i'w chael yn anodd cyfrannu at gostau astudio rhai sy'n ddibynnol arnynt. | OB.3 | Cynyddu lefelau cymwysterau a gyrhaeddir gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru | IN.3 | Cyfathrebu a marchnata / cynllun codi ymwybyddiaeth | A.3 | Darparu grant cynhaliaeth cyffredinol o £1,000 y flwyddyn pro-rata i israddedigion rhan-amser | OP.3 | Cynnydd yn yr amrywiaeth o ddewisiadau o fodelau astudio rhan-amser | OC.3 | Cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr sy'n derbyn addysg uwch. | IM.3 | System gyllido fwy fforddiadwy, sy'n galluogi sefydliadau Cymru i fod yn fwy hyfyw'n ariannol. |
| N.4 | Cynyddu'r swm o gymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser | OB.4 | Cyfrannu at leihau bylchau sgiliau rhanbarthol a chenedlaethol | | | A.4 | Gosod uchafswm incwm rhieni ar gyfer cymhwysedd grant cynhaliaeth i'r 8fed degradd | OP.4 | Cynnydd yn y cyllid sydd ar gael i sefydliadau addysg uwch Cymru | OC.4 | Cynnydd yn y gyfran o fyfyrwyr sy'n aros ar gyrsiau israddedig llawn-amser a'u cwblhau, a chynrychiolaeth o grwpiau cyfranogi isel yn y gweithgareddau hyn. | | |
| N.5 | Galluogi myfyrwyr ôl-raddedig i gael cymorth cynhaliaeth a ffioedd | OB.5 | Cynyddu'r gyfran o weithlu Cymru sydd wedi cymhwyso i Lefel 4 | | | A.5 | Cynnig hyd at £17,000 o gymorth (cymysgedd o fenthyciad a grant prawf moddion) i fyfyrwyr meistr a addysgir, ar gyfer ffioedd a chynhaliaeth | OP.5 | Cynnydd mewn ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr a rhieni o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer astudio addysg uwch | OC.5 | Cynnydd mewn ymrestru ar gyrsiau israddedig rhan-amser, aros arnynt a'u cwblhau, a chynyddu cynrychiolaeth o grwpiau cyfranogi isel yn y gweithgareddau hyn . | | |
| N.6 | Lleihau effaith y grant ffioedd Dysgu ar CCAUC a galluogi CCAUC i ddyrannu cyllid i flaenoriaethau addysg uwch eraill | OB.6 | Gwneud y cymorth ariannol i fyfyrwyr a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn fwy fforddiadwy a chynaliadwy | | | A.6 | Ymgyrch gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig, cymhwysedd etc | | | OC.6 | Cynnydd mewn ymrestru ar gyrsiau ôl-radd, aros arnynt a'u cwblhau, a chynyddu cynrychiolaeth o grwpiau cyfranogi isel yn y gweithgareddau hyn. | | |
| N.7 | Cynyddu'r swm o gymorth ffioedd sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser | OB.7 | Lleihau gwariant cyhoeddus ar ffioedd myfyrwyr ac felly fforddio talu am gostau blaenoriaethau addysg uwch eraill Llywodraeth Cymru | | | A.7 | Olrhain a rheoli'r galw am fenthyciadau ac addasu'r cynnig fel bo'n addas | | | OC.7 | Lleihau effaith cyllid ar ymrestru, aros a chwblhau addysg uwch | | |
| | | OB.8 | Cynyddu cyfraddau cadw a chwblhau mewn addysg uwch | | | A.8 | Cael gwared ar grantiau ffioedd dysgu a darparu cymorth i fyfyrwyr llawn-amser yn ffurf benthyciadau i dal am gostau dysgu rhag-blaen | | | OC.8 | Lleihad yn effaith pwysau ariannol ar lesiant myfyrwyr | | |
| | | | | | | A.9 | Cryfhau atebolrwydd sefydliadau addysg uwch am ehangu mynediad | | | OC.9 | Cynnydd yn y dyraniad o gyllid i flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach | | |
| | | | | | | A.10 | Ystyried y diwygiadau yng nghyd-destun y sector AHO | | | OC.10 | Sefydliadau addysg uwch mewn sefyllfa ariannol gryfach | | |
| | | | | | | A.11 | Ystyried gweithredu system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn lle byddai benthyciadau ar gyfer ffioedd myfyrwyr rhan-amser ar gael ar sail pro-rata | | | | | | |

*Mapio rhagdybiaethau*

4.6 Rhagdybiaethau yw credoau ynghylch rhanddeiliaid a pholisi neu raglen, yn ogystal â'r newidiadau neu welliannau y gellir eu gwireddu gan bolisi neu raglen. Mae bod yn eglur ynghylch rhagdybiaethau yn un o'r ystyriaethau cyntaf a phwysicaf wrth gynllunio, gweithredu a gwerthuso rhaglen neu bolisi[18]. Gall rhagdybiaethau fod yn fewnol (yn achos diwygio cyllid myfyrwyr, gallai hyn fod yn rhagdybiaethau ynghylch gweithredoedd darpar fyfyrwyr addysg uwch, Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg uwch a gweithredu ymgyrch gyhoeddusrwydd, er enghraifft) neu'n allanol (rhagdybiaethau ynghylch polisi addysg uwch yn Lloegr neu oblygiadau Brexit, er enghraifft). Mae egluro ac amlygu'r rhagdybiaethau y tu ôl i ddiwygiadau Diamond, o safbwynt yr elfennau penodol sy'n ymwneud â'r diwywgiadau a'r rhagdybiaethau sydd wedi ymwreiddio yn y theori sy'n gyrru'r diwygiadau, wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu model rhesymeg dilys a hyfyw.

4.7 Fel rhan o'r adolygiad hwn gan gymheiriaid felly, rydym wedi cael adborth ar gamau unigol y model rhesymeg drafft, ond hefyd y rhagdybiaethau sy'n cysylltu pob cam unigol.

4.8 Mae sylwadau ar wahanol elfennau'r drafft cychwynnol wedi eu crynhoi isod.

*Gyrwyr polisi*

4.9 Mae wedi bod o fewn briff yr adolygiad hwn gan gymheiriaid i ystyried sut y gallai'r cynlluniau gwerthuso archwilio'r graddau y mae'r diwygiadau'n adlewyrchu'r blaenoraethau a'r ymrwymiadau o fewn y polisïau allweddol hyn gan Lywodraeth Cymru:

- Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd
- Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd
- Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

4.10 Gan fod agenda Ffyniant i Bawb a strategaeth y Gymraeg wedi eu cyhoeddi ar ôl cwblhau Adolygiad Diamond, ni ellir eu hystyried fel gyrwyr ar gyfer yr

[18] Shakman, K. a Rodriguez, S.M., Education Development Center, Inc. *Logic models for program design, implementation, and evaluation: Workshop toolkit*, 2015

adolygiad[19], er y bydd o werth i'r gwerthusiad ystyried y graddau mae'r diwygiadau'n cyfrannu at y meysydd polisi hyn. Yn ogystal, mae'r pwyslais ar economeg a chyflogadwyedd hefydyn peryglu cyfyngu ar bwyslais y gwerthusiad o'r diwygiadau, a ddylai hefyd ystyried effeithiau yn nhermau cyfiawnder cymdeithasol a llesiant[20].

4.11 Felly, prif yrwyr polisi y diwygiadau yw Adolygiad Diamond ei hun, ynghyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Byddai angen i'r cyfraniad i'r ddau agenda polisi hwn gael ei ystyried yn y gwerthusiad.

*Anghenion ac Amcanion*

4.12 Mae angen i holl amcanion y diwygiadau gysylltu'n uniongyrchol yn ôl â'r blaenoriaethau y ceisiodd Adolygiad Diamond fynd i'r afael â hwy a'r hyn roedd y Panel Adolygu yn ceisio'i gyflawni. I grynhoi, y blaenoriaethau ar gyfer yr Adolygiad, fel y'u pennwyd gan Lywodraeth Cymru oedd[21]:

- ehangu mynediad – sicrhau bod ehangu mynediad yn un o amcanion craidd unrhyw system yn y dyfodol, a bod y system ei hun yn flaengar a theg
- ymdrin ag anghenion sgiliau Cymru
- cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser ac ôl-radd yng Nghymru
- cynaliadwyedd ariannol hirdymor.

4.13 Mae perygl mewn gwneud yr amcanion yn rhy agored ac felly mae'r model lleol terfynedig yn canolbwyntio ar y pedwar maes blaenoriaeth allweddol hyn, sef:

- Ehangu mynediad a sicrhau bod ehangu mynediad yn un o amcanion craidd unrhyw system yn y dyfodol, a bod y system ei hun yn flaengar a theg. Mae hyn yn cymryd lle'r amcan "Lleihau anghydraddoldeb mewn mynediad i addysg uwch sydd o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol", fel a nodwyd yn y model rhesymeg cychwynnol.
- Ymdrin ag anghenion sgiliau Cymru. Mae hyn yn ymgorffori ac yn disodli'r amcanion canlynol: "Cynyddu cyfraddau cadw a chwblhau mewn addysg uwch", "Cynyddu lefelau cymwysterau a gyrhaeddir gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru", "Cyfrannu at leihau bylchau rhanbarthol a chenedlaethol mewn sgiliau" a "Chynyddu'r gyfran o weithlu Cymru

---

[19] Sylwadau rhanddeiliad mewn gweithdy mapio asedau
[20] Sylwadau gan randdeiliaid a rhai a gymerodd ran yn y cyfweliadau cwmpasu yn y gweithdy mapio asedau
[21] [Datganiad Ysgrifenedig - Datganiad ar yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru]

sydd wedi cymhwyso i Lefel 4”, fel y pennwyd yn y model rhesymeg cychwynnol.

- Cryfhau’r ddarpariaeth ran-amser ac ôl-radd yng Nghymru.
- Sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor trefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr. Mae hyn yn ymgorffori a disodli’r amcanion canlynol: “Gwneud y cymorth cyllid i fyfyrwyr a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn fwy fforddiadwy a chynaliadwy” a “Lleihau gwariant cyhoeddus ar ffioedd myfyrwyr ac felly fforddio i gyfarfod costau blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch.”

4.14 Mae’r mwyafrif o’r amcanion a gynhwysir yn y fersiwn gychwynnol o’r model rhesymeg wedi eu hymgorffori i un o’r pedwar amcan hyn. Mae un yn mynd y tu hwnt i gwmpas y meysydd blaenoriaeth hyn ac felly wedi cael ei dynnu ymaith. Sef: “Lleihau canlyniadau dibyniaeth myfyrwyr ar orddrafft, credyd, ôl-ddyledion, benthyciadau banc a benthyciadau ansicr (rhwystrau ariannol i gyrraedd nodau bywyd, straen ac effeithiau ar iechyd meddwl)”.

*Mewnbynnau a gweithgareddau*

4.15 Cafodd y mewnbynnau eu derbyn yn gyffredinol gan randdeiliaid gyda ‘chyllid’ yn unig yn cael ei gynnwys fel mewnbwn ychwanegol[22].

4.16 Er mwyn eglurder, ac yn unol â chynigion Adolygiad Diamond, mae gweithgareddau wedi cael eu gwahanu’n rhai israddedig llawn-amser, israddedig rhan-amser ac ôl-radd. Roedd Gweithgaredd 9 (cryfhau atebolrwydd sefydliadau addysg uwch dros ehangu mynediad) yn cael ei weld fel rhywbeth allweddol i lwyddiant y diwygiadau. Gallai gweithgareddau sefydliadau addysg uwch annog ceisiadau a chefnogi myfyrwyr presesennol: *“mae hyn yn ymwneud â hywyddo grantiau caledi yn well a chyfraddau cymorth mwy cyson. Ar hyn o bryd mae rhai prifysgolion yn cynnig symiau mawr o gymorth ac eraill ychydig iawn.”*[23]

4.17 Mae Gweithgaredd 7 (olrhain a rheoli’r galw am fenthyciadau ac addasu’r cynnig fel bo’n addas) y tu hwnt i gwmpas prif ddiwygiadau Diamond[24], er bod Gweithgaredd 10 (Ystyried diwygiadau yng nghyd-destun y sector AHO) yn ffactor allanol i’w ystyried fel rhan o’r gwerthusiad o ddiwygiadau Diamond, yn

[22] Sylwadau rhanddeiliad mewn gweithdy mapio rhagdybiaethau.
[23] Rhanddeiliad a gyfwelwyd.
[24] Rhanddeiliad a gyfwelwyd a barn Miller Research.

hytrach nag elfen o'r diwygiadau eu hunain[25]. Mae Gweithgaredd 11 (Ystyried gweithredu'n llawn system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn lle byddai benthyciadau ar gyfer ffioedd myfyrwyr rhan-amser ar gael ar sail pro-rata) yn amhenodol a'r tu hwnt i gylch gorchwyl prif ddiwygiadau Diamond[26].

*Allbynnau*

4.18 Mynegwyd amheuon helaeth ynghylch Allbwn 2 (Gallai myfyrwyr brofi cynnydd yn y gost o gymryd rhan, costau byw a llety – prisiau'n codi o ganlyniad i fyfyrwyr â mwy o arian i'w wario) fel rhywbeth annebygol: *"nid oes unrhyw gyswllt achosol rhwng darparu mwy o arian i fyfyrwyr a chostau rhentu'n codi."*[27] Yn ogystal, pe bai'r gwerthusiad yn canfod cynnydd mewn costau rheni y gellid ei briodoli i'w diwygiadau, canlyniad a fyddai (o ganlyniad i well sefyllfa ariannol myfyrwyr) yn hytrach nag allbwn uniongyrchol o'r diwygiadau[28]. Disgrifiodd un rhanddeiliad yr allbwn arfaethedig hwn fel *"tipyn o ysgyfarnog."*[29]

4.19 Awgrymodd un arall y gallai'r cynnydd mewn incwm gwario myfyrwyr roi mwy o bŵer prynu iddynt fynnu llety o well ansawdd[30], er mai canlyniad, unwaith eto, fyddai hyn; yn ogystal, nid yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'r prif argymhellion o Adolygiad Diamond a byddai felly'n ganlyniad anfwriadol[31]. Er hynny, cydnabyddir fel posibilrwydd y gallai cynnydd yng nghost cymryd rhan a nwyddau a gwasanaethau eraill a gynigir gan sefydliadau addysg uwch i fyfyrwyr sydd â mwy o bwerau gwario arian, ddeillio yn ddiarwybod o'r diwygiadau, ac y dylid monitro hyn felly fel rhan o'r gwerthusiad, gyda sefydliadau addysg uwch yn datgelu eu taliadau fel 'basged o nwyddau'.

4.20 Un o flaenoriaethau Adolygiad Diamond oedd cryfhau darpariaeth ran-amser addysg uwch yng Nghymru, ac yn yr argymhellion cynigiodd y Panel Adolygu: *"I fod yn gymwys am daliad ychwanegol pynciau cost uchel, rhaid i sefydliadau addysg uwch allu dangos i CCAUC eu bod yn cyflwyno addysg ran-amser mewn modd sy'n annog myfyrwyr i allu ennill wrth iddynt ddysgu (sef bod y cyllid yn seiliedig ar fod y sefydliad sy'n ei dderbyn yn cael ei reoleiddio i*

---

[25] Barn Miller Research.
[26] Sylw gan randdeiliad mewn gweithdy mapio rhagdybiaethau a barn Miller Research.
[27] Rhanddeiliaid a gyfwelwyd
[28] Barn Miller Research.
[29] Sylw gan randdeiliad mewn gweithdy mapio rhagdybidaethau
[30] Rhanddeiliad a gyfwelwyd
[31] Barn Miller Research.

*sicrhau ansawdd a threfn."*[32] Nid yw hyn yn ymwneud yn ddiamwys â chynyddu'r amrywiaeth o ddewisiadau rhan amser fodd bynnag, ac felly nid yw Allbwn 3 (Cynnydd yn yr amrywiaeth o ddewisiadau o ran modelau astudio rhan-amser) yn ddilys: *"mae mwy o fyfyrwyr yn golygu mwy o ddarpariaeth, ond nid o angenrheidrwydd amrywiaeth ehangach."*[33]

4.21 Awgrymwyd y gallai darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr rhan-amser arwain at fwy o alw am ddewisiadau rhan-amser, a allai yn ei droi effeithio ar y cyflenwad: *"gallai fod mwy o amrywiaeth [o ddewisiadau rhan-amser] gan y bydd [prifysgolion] yn ei weld fel ffordd o wneud mwy o arian."* Mae hyn y tu allan i gwmpas diwygiadau Diamond fodd bynnag, ac felly byddai'n ganlyniad anfwriadol.

4.22 Mae Allbwn 4 (Cynnydd yn y cyllid sydd ar gael i sefydliadau addysg uwch Cymru) yn dyblygu Canlyniad 9 (Cynnydd yn y dyraniad o gyllid i flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch) ac felly mae wedi cael ei ddileu[34].

4.23 Mae Allbwn 5 (Cynnydd mewn ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr a rhieni o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer astudio addysg uwch) yn neilltuol o berthnasol i fyfyrwyr o deuluoedd nad ydynt wedi cymryd rhan mewn addysg uwch o'r blaen[35,36] a bydd yn uniongyrchol ddibynnol ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr ymgyrch gyhoeddusrwydd am gyllid i fyfyrwyr[37]: *"mae'r system hon yn bendant ar gyfer pawb a bydd pawb yn elwa ohoni … mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod pawb yn gwybod am y cymorth sydd ar gael."*[38]

*Canlyniadau*

4.24 Mae Canlyniad 1 (Myfyrwyr mewn gwell sefyllfa ariannol – lleihad mewn dyled o orddrafftau, ôl-ddyledion, benthyciadau banc a benthyciadau ansicr gyda lefel uwch o ddyled seiliedig ar fenthyciadau dibynnol ar incwm) yn un o'r canlyniadau allweddol o'r diwygiadau, er y gallai'r geiriad fod yn gliriach, er

[32] *Adroddiad Terfynol yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru*, t. 46
[33] Sylw gan rhanddeiliad mewn gweithdy mapio rhagdybiaethau.
[34] Barn Miller Research.
[35] Mae darpar fyfyrwyr posibl sydd â rhieni nad ydynt wedi cymryd rhan mewn addysg uwch yn fwy tebygol o fod yn gymwys am lefelau uwch o gymorth ariannol.
[36] Rhanddeiliad a gyfwelwyd.
[37] Barn Miller Research.
[38] Rhanddeiliad a gyfwelwyd.

mwyn rhwystro dehongliad bod disgwyl i fyfyrwyr ddod allan gyda lefel is o ddyled: *“nid lleihad, dim ond newid mewn proffil”*[39].

4.25 Mae’r dystiolaeth o ymchwil blaenorol[40], a gymeradwywyd gan randdeiliaid ar bob cam o’r adolygiad hwn gan gymheiriaid yn awgrymu bod Canlyniad 2 (Cynnydd yn nyled benthyciadau myfyrwyr unigolion – straen cysylltiedig ac effaith ar gyrraedd nodau bywyd) yn annhebygol. Er hynny, mae’n bosibl a dylid ei ystyried fel rhan o’r gwerthusiad.

*“Mae pobl yn annhebygol o fod yn bryderus, yn enwedig gan fod myfyrwyr yn fodlon cael ‘treth graddedigion’ ac yn derbyn na ddylai eu gradd gael ei thalu gan y trethdalwr.”*

*“Mae’n ‘neverland’ … nid yw’r mwyafrif o fyfyrwyr yn sylweddoli goblygiadau dyled myfyrwyr.”*

(Sylwadau rhanddeiliad o weithdai mapio rhagdybiaethau)

4.26 Cydnabuwyd bod ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yn ddibynnol ar incwm ac ar sail polisi ledled y DU, roedd y Panel Adolygu yn cydnabod y gallai fod effaith cadarnhaol neu niweidiol ar raddedigion pe bai’r trothwy neu’r gyfradd ad-dalu yn newid. O fis Ebrill 2018, cynyddodd y trothwyau ad-dalu ar gyfer benthciadau ar ôl 2012 o £21,000 i £25,000 ac o £41,000 i £45,000, yn dilyn newidiadau i’r rheoliadau cyfansawdd a wnaed gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

4.27 Mae gan Ganlyniad 3 (cynnydd yn y nifer o fyfyrwyr sy’n derbyn addysg uwch) y potensial o fod yn rhy simplistig, yn enwedig o ran israddedigion llawn-amser, lle mae’r penderfyniad i gymryd rhan mewn addysg uwch yn gymhleth ac yn un yr effeithir arno gan nifer o ddylanwadau, gan gynnwys cyllid ond nid hynny’n unig[41]: *“Mae’n ymddangos fod rhagdybiaeth fod cynnydd mewn arian*

---

[39] Sylw gan randdeiliad mewn gweithdy mapio rhagdybidaethau.

[40] Ariannu Teg a Hyblyg: model Cymreig ar gyfer hyrwyddo ansawdd a mynediad mewn addysg uwch, Adroddiad Terfynol Astudiaeth Annibynnol i Ddatganoli’r System Cymorth i Fyfyrwyr a’r Drefn Ffioedd Dysgu yng Nghymru (Adolygiad Rees), 2005 a Harrison, N. and Agnew, S. (2016) Individual and social influences on Students’ attitudes to debt: A cross-national path analysis using data from England and New Zealand. Higher Education Quarterly, 70 (4). tt. 332-353. ISSN 0951-5224

[41] Tystiolaeth o adolygiad llenyddiaeth a chyfweliadau â rhanddeiliaid.

*yn golygu cynnydd mewn ceisiadau a chadw myfyrwyr. Dw i ddim yn sicr os oes digon o dystiolaeth dros y rhagdybiaeth honno."*[42]

4.28 Mae posibilrwydd y gallai'r diwygiadau – yn enwedig y cynnydd mewn cymorth cynhaliaeth – arawain at newid yn y gyfran o fyfyrwyr sy'n dewis byw gartref gyda'u rhieni, er mwyn lleihau costau cynhaliaeth[43].

4.29 Mae ffactorau a allai ddylanwadu ar pa mor bell y gallai niferoedd gynyddu yn cynnwys:

- Y risg cymdeithasol o beidio hoffi prifysgol neu'n teimlo allan o le mewn prifysgol.
- Yr amser hir sydd ynghlwm ag anelu at addysg uwch: *"bydd yn cymryd amser hir i'r diwygiadau ddylanwadu ar ddewis rhywun i fynd i'r brifysgol neu beidio, ac felly maent yn annhebygol o gael effaith ar unwaith. Mae hyn oherwydd fod pobl yn gyffredinol yn anelu at lwyfrau academaidd, galwedigaeth neu gyflogaeth yng nghyfnod TGAU."*[44]
- Ofni dyled, rhywbeth y mae'n hysbys ei fod yn gyfatebol uwch ymhlith grwpiau a dan-gynrychiolir a darpar fyfyrwyr o grwpiau economaidd-gymdeithasol is[45].
- Graddau isel o ymwybyddiaeth ymhlith pobl mewn grwpiau a dan-gynrychiolir o'r cymorth sydd ar gael iddynt.

4.30 Yn wyneb y newid mwy sylweddol mewn cymorth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser ac ôl-radd, yn y mathau hyn o gyrsiau y mae cynnydd yn debygol o fod[46]. Er hyn, trwy ymgyrch gyhoeddusrwydd effeithiol ynghyd â mecanweithiau allanol fel gwaith allgyrraedd yn y gymuned ac ysgolion gan sefydliadau addysg uwch, dylai cynnydd mewn grwpiau a dan-gynrychiolir fod yn gyraeddadwy ar draws pob modd astudiaeth (llawn-amser a rhan-amser) ar lefelau israddedig ac ôl-radd – er y byddai hyn yn y tymor canolig i dymor hirach yn achos myfyrwyr israddedig llawn-amser[47].

4.31 Canlyniad 4 (Cynnydd yn y gyfran o fyfyrwyr sy'n aros ar gyrsiau israddedig llawn-amser a'u cwblhau, a chynrychiolaeth grwpiau cyfranogiad is yn y gweithgareddau hyn). Mae'r canlyniad hwn yn ymwneud â dau fater gwahanol

---

[42] Rhanddeiliad a gyfwelwyd.
[43] Rhanddeiliad a gyfwelwyd.
[44] Rhanddeiliad a gyfwelwyd.
[45] Harrison, N. and Agnew, S. (2016) Individual and social influences on Students' attitudes to debt: A cross-national path analysis using data from England and New Zealand. Higher Education Quarterly, 70 (4). tt. 332-353. ISSN 0951-5224
[46] Sawl rhanddeiliad a gyfwelwyd, sylwadau rhanddeiliaid mewn gweithdai mapio rhagdybiaethau a barn Miller Research.
[47] Rhanddeiliad a gyfwelwyd a barn Miller Research.

ac mae angen ymdrin â hwy ar wahân. Fel y crybwyllir yn y paragraff uchod, gallai cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd effeithiol ymysg pethau eraill arwain at ddod â chynrychiolaeth fwy cymesur o fyfyrwyr o grwpiau a dan-gynrychiolir i mewn i addysg uwch.

4.32 Y ddwy brif ragdybiaeth y tu ôl i gynnydd mewn cadw a chwblhau o ganlyniad i brif ddiwygiadau Diamond yw bod lefel uwch o gymorth cynhaliaeth i bawb ar sail y cysyniad o gyffredinolaeth gynyddol yn golygu bod:

- Myfyrwyr yn llai tebygol o roi'r gorau iddi oherwydd caledi ariannol, gan gynnwys dyled o fenthyciadau ansicr ac ôl-ddyledion.
- Myfyrwyr yn llai tebygol o gymryd gwaith rhan-amser er mwyn cyfarfod â'u costau cynhaliaeth ac felly'n llai tebygol o esgeulso'u hastudiaethau academaidd a rhoi'r gorau iddi oherwydd syrthio'n ôl / methiant academaidd.

4.33 Mae rhanddeiliaid wedi nodi ffactorau ac allai gyfrannu at wrthweithio'r canlyniadau (cadarnhaol) hyn. Mae canfyddiadau o ymchwil diweddar yn awgrymu bod myfyrwyr incwm is nad ydynt yn cymryd benthyciad i fyfyrwyr yn fwy tebygol o roi'r gorau i addysg uwch[48]. Hefyd, gallai'r symudiad o ffioedd a gymorthdelir at fenthyciadau ar gyfer ffioedd weld myfyrwyr sy'n gyndyn o gymryd y benthyciad i fyfyrwyr yn ei chael yn anodd cyfarfod â chostau eu ffioedd[49]. Er bod hyn yn annhebygol o effeithio ar niferoedd sylweddol o fyfyrwyr incwm is yng Nghymru, gan y byddai'r mwyafrif â hawl i gymorth grant neu a fyddai'n cymryd benthyciad allan, mae'n rhywbeth y gellid ei fonitro fel rhan o'r gwerthusiad.

4.34 Yn ogystal, awgrymwyd y gall "ehangu mynediad leihau cyfraddau cadw / cwlbhau wrth i fyfyrwyr mwy anodd eu cyrraedd gael eu tynnu i'r system."[50]

4.35 Mae Canlyniad 5 (Cynnydd mewn ymrestru ar gyrsiau israddedig rhan-amser, aros arnynt a'u cwblhau, a chynyddu cynrychiolaeth grwpiau cyfranogi is yn y gweithgareddau hyn) yn briodol, ar sail y rhagdybiaeth fod darparu lefel uwch o gymorth i'r rheini sy'n dymuno dilyn cyrsiau israddedig rhan-amser yn ei gwneud yn fwy hyfyw yn ariannol i fwy o bobl[51]. Fel gyda Chanlyniad 4, fodd bynnag, mae cynnydd mewn cofrestru a chadw a chwblhau ar gwrs rhan-

[48] Blackburn, L (2016) Borrowing behaviour by young low-income students from Scotland: an exploratory study.
[49] Rhanddeiliad a gyfwelwyd
[50] Rhanddeiliad a gyfwelwyd
[51] Sawl rhanddeiliad a gyfwelwyd, sylwadau rhanddeiliaid mewn gweithdai mapio rhagdybiaethau a barn Miller Research.

amser a mwy o gynrychioliaeth grwpiau cyfranogi is yn ganlyniadau ar wahân ac mae angen eu cyflwyno felly.

4.36 Mae Canlyniad 6 (Cynnydd mewn ymrestru ar gyrsiau ôl-radd, aros arnynt a'u cwblhau a chynyddu cynrychiolaeth grwpiau cyfranogi is yn y gweithgareddau hyn) hefyd yn ddilys, er bod y rhain unwaith eto yn ddau ganlyniad gwahanol y dylid eu trin ar wahân. Gall yr effaith ar gychwyn ar astudiaethau ôl-radd ddibynnu ar lefel y benthyciad sydd gan y myfyriwr eisoes (yn sgil benthyciadau yn ystod astudiaethau israddedig). Mae'n bosibl y gall y rheini sydd â lefelau uwch o ddyled benthyciadau i fyfyrwyr israddedig fod yn llai tueddol o fynd i ddyled pellach trwy gymryd rhan mewn astudiaethau ôl-raddedig. Bydd dyled benthyciadau fel arfer yn uwch ymhlith y rheini sy'n cychwyn ar radd gyntaf o fis Medi 2018 nag ymhlith y rheini a ymrestrodd cyn gweithredu diwygiadau Diamond.

4.37 Mae cynnydd mewn cychwyn ar astudiaeth ôl-radd yn debygol hefyd ymhlith myfyrwyr hŷn, gan ei bod yn ariannol hyfyw iddynt bellach gymryd rhan: *"mae'n debygol o fod gynnydd anferthol mewn dilyn graddau meistr, er enghraifft ymysg y rheini sydd mewn swyddi annifyr a allai fforddio mynd am radd meistr ar ôl graddio, ond a all bellach, yn ogystal â'r rheini sy'n mynd yn syth o fod yn israddedig."*[52]

4.38 Er bod Canlyniad 7 (Lleihau effaith cyllid ar ymrestru, cadw, cwblhau mewn addysg uwch) yn ddilyn, mae'n dyblygu'n ddiangen Ganlyniadau 3, 4, 5 a 6.

4.39 Mae Canlyniad 8 (Lleihau effaith pwysau ariannol ar lesiant myfyrwyr) yn rhesymegol, er yn amlweddog yn ei ymddangosiad. Ar lefel sylfaenol iawn, dylai cyfleoedd i gael at fwy o gymorth cynhaliaeth leihau unrhyw effeithiau niweidiol caledi ariannol. Yn ogystal, gall cael mwy o gymorth yn ffurf benthyciadau neu grantiau ddylanwadu ar sut mae myfyrwyr yn treulio'u hamser yn y brifysgol, gyda'r posibilrwydd o leihau'r angen i weithio'n rhan-amser a rhoi mwy o amser ar gyfer astudiaethau, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a chwaraeon prifysgol a/neu brofiad gwaith ystyrlon, sy'n debygol o effeithio'n gadarnhaol ar lesiant myfyrwyr[53]. Yn olaf, ac yn anuniongyrchol, gallai effeithio ar fater safonau gwael llety myfyrwyr,

---

[52] Sylw gan randdeiliad mewn gweithdy mapio rhagdybiaethau.
[53] Sawl rhanddeiliad a gyfwelwyd a barn Miller Research.

drwy fod mwy o incwm gwario yn rhoi mwy o bŵer prynu i fyfyrwyr fynnu llety o ansawdd gwell[54].

4.40 Bydd priodoli unrhyw newidiadau i lesiant yn anodd fodd bynnag. Er y gall cyllid fod yn ddylanwad sylweddol ar broblemau iechyd meddwl a straen i fyfyrwyr addysg uwch, mae ffactorau a phwysau eraill, gan gynnwys (gydag effeithiau a all fod yn niweidiol) diffyg cymorth iechyd meddwl ar gael yn gyffredinol neu fylchau mewn gwasanaethau llesiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol, a (gydag effeithiau cadarnhaol) mwy o gyfrifoldeb ar sefydliadau addysg uwch a byrddau iechyd i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl, trwy gyfarwyddebau polisi ar wahân i Adolygiad Diamond[55].

4.41 Mae Canlyniad 9 (Cynnydd yn y dyraniad o gyllid i flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch) yn rhesymegol ar sail y cyfrifiadau ariannol a wnaeth gan Banel Adolygu Diamond, fodd bynnag byddai'n bwysig i'r gwerthusiad archwilio sut y dyrennir y cylid hwn, ac yn benodol faint sy'n cael ei gyfeirio at gymorth i les a llesiant myfyrwyr; teimlai llawer o randdeiliaid y dylai Canlyniad 9 fod yn gysylltiedig â Chanlyniad 8[56].

4.42 Mae Canlyniad 10 (Sefydliadau addysg uwch mewn sefyllfa ariannol gryfach) yn debygol o ddeillio o ddyrannu mwy o gyllid i flaenoriaethau eraill ar gyfer addysg uwch a chynnydd mewn cymryd rhan mewn addysg uwch (yn enwedig rhan-amser israddedig ac ôl-radd) ac felly i ddibenion y model rhesymeg, mae'n effaith.

*Effeithiau*

4.43 Y farn oedd bod pwyslais economaidd gormodol ar y tri effaith a nodwyd yn y model rhesymeg cychwynnol ac nad oedd oedd digon o ganolbwyntio ar ddyheadau llesiant cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol Adolygiad Diamond.

4.44 Dylai Effaith 1 (Gwelliant mewn lefelau addysg a chymwysterau'r llafurlu, a ddylai arwain at fuddion iechyd, llesiant a thwf economaidd) gael ei rannu i fuddion personol i unigolion (yn ariannol a chymdeithasol) a buddion cymdeithasol (yn economaidd a chymdeithasol)[57]. Yn fwy hirdymor, gellid

[54] Rhanddeiliad a gyfwelwyd.
[55] Sylw rhanddeiliad mewn gweithdy mapio rhagdybiaethau a rhanddeiliad a gyfwelwyd.
[56] Sylw rhanddeiliad mewn gweithdy mapio rhagdybiaethau a rhanddeiliad a gyfwelwyd.
[57] Sylwadau gan sawl rhanddeiliad mewn gweithdai mapio rhagdybiaethau, sawl rhanddeiliad a gyfwelwyd a barn Miller Research.

arsylwi hefyd y cynnydd cyffredinol yn effaith economiadd sefydliadau addysg uwch ledled Cymru[58].

4.45 Mae Effaith 2 (Cyfradd uwch o sgiliau a chymwysterau lefel uwch ymhlith llafurlu Cymru) yn ddilys[59].

4.46 Mae Effaith 3 (System gyllido fwy fforddiadwy, sy'n galluogi sefydliadau Cymru i barhau'n hyfyw'n ariannol) yn ddau effaith ar wahân, hyd yn oed os ydynt yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae cael gwared ar y gost i'r llywodraeth o gymorthdalu am ffioedd myfyrwyr yn agor y drws i system gyllido fwy fforddiadwy (effaith ynddo'i hun). Fel y nodwyd uchod, mae amryw o ffactorau sy'n arwain at sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn dod yn fwy hyfyw yn ariannol (gan gynnwys trefn gyllido fwy cynaliadwy), a dylid cydnabod hyn fel effaith ar wahân[60].

4.47 Dangosir isod y model rhesymeg terfynol ar gyfer y gwerthusiad.

[58] Sylw rhanddeiliad mewn gweithdy mapio rhagdybiaethau.
[59] Sylwadau gan sawl rhanddeiliad mewn gweithdai mapio rhagdybiaethau, sawl rhanddeiliad a gyfwelwyd a barn Miller Research.
[60] Sawl rhanddeiliad a gyfwelwyd a barn Miller Research.

| Gyrwyr Polisi | | Anghenion | | Amcanion | | Mewnbynnau / Adnoddau | | Gweithgareddau | | Allbynnau | | Canlyniadau | | Effeithiau | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P.1 | Yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru | N.1 | Cynyddu gallu myfyrwyr i gyfarfod â'u costau (cynhaliaeth) | OB.1 | Ehangu mynediad a sicrhau bod hynny'n un o amcanion craidd unrhyw system yn y dyfodo, a bod y syste ei hun yn flaengar a theg | IN.1 | Grŵp Llywio Prosiect, tîm prosiect, rheolwr prosiect, rheolaeth prosiect, systemau rheoi prosiectau a llywodraethu a chyllid | A.1a | Cynyddu cyfanswm cymorth cynhaliaeth i lefel Cyflog Byw Cenedlaethol, gyda grant graddedig seiliedig ar brawf moddion, wedi ei ategu â benthyciad | OP.1a | Gwell cynnig o ran cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr llawn-amser | OC.1a | Gwella sefyllfa ariannol myfyrwyr llawn-amser - lleihad mewn dyled o orddrafftau, ôl-ddyledion, credyd, benthyciadau banc a benthyciadau ansicr gyda lefel uwch o ddyled seiliedig ar fenthyciadau dibynnol ar incwm. | IM.1a | Gwelliant mewn lefelau addysg a chymwysterau ac felly ym mhotensial enillion unigolion |
| | | N.2 | Ychwanegu at gymorth y wladwriaeth i'r rheini na all neu na wna eu rhieni ddarparu cymorth ariannol | OB.2 | Ymdrin ag anghenion sgiliau Cymru | IN.2 | Grŵp Rhanddeiliaid Gweithredu Diamond | A.1b | Gosod uchafswm incwm rhieni ar gyfer cymhwysedd grant cynhaliaeth i'r 8fed degradd | OP.1b | Gwell cynnig o ran cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser | OC.1b | Gwella sefyllfa ariannol myfyrwyr rhan-amser - lleihad mewn dyled o orddrafftau, ôl-ddyledion, credyd, benthyciadau banc a benthyciadau ansicr gyda lefel uwch o ddyled seiliedig ar fenthyciadau dibynnol ar incwm. | IM.1b | Gwelliant mewn iechyd a llesiant unigolion |
| | | N.3 | Helpu teuluoedd y mae eu cyflogaeth uwchlaw'r trothwy presennol ond sy'n dal i'w chael yn anodd cyfrannu at gostau astudio rhai sy'n ddibynnol arnynt. | OB.3 | Cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser a'r ddarpariaeth i raddedigion yng Nghymru | IN.3 | Cyfathrebu a marchnata / cynllun codi ymwybyddiaeth | A.1c | Cynnig hyd at £17,000 o gymorth (cymysgedd o fenthyciad a grant prawf moddion) i fyfyrwyr meistr a addysgir, ar gyfer ffioedd a chynhaliaeth | OP.1c | Gwell cynnig o ran cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr ôl-radd | OC.1c | Gwella sefyllfa ariannol myfyrwyr ôl-radd - lleihad mewn dyled o orddrafftau, ôl-ddyledion, credyd, benthyciadau banc a benthyciadau ansicr gyda lefel uwch o ddyled seiliedig ar fenthyciadau dibynnol ar incwm. | IM.2 | Cyfradd uwch o sgiliau a chymwysterau lefel uwch yng ngweithlu Cymru |
| | | N.4 | Cynyddu'r swm o gymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser | OB.4 | Sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor trefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru | | | A.2a | Darparu grant cynhaliaeth cyffredinol o £1,000 y flwyddyn i israddedigion llawn-amser | | | OC.2a | Cynnydd yn y gyfran o fyfyrwyr sy'n aros ar gyrsiau israddedig llawn-amser ac sy'n eu cwblhau | | |
| | | N.5 | Galluogi myfyrwyr ôl-radd i gael cymorth cynhaliaeth a ffioedd | | | | | A.2b | Darparu grant cynhaliaeth cyffredinol o £1,000 y flwyddyn pro-rata i israddedigion rhan-amser | | | OC.2b | Cynnydd mewn ymrestru ar gyrsiau israddedig rhan-amser, aros arnynt a'u cwblhau | | |
| | | N.6 | Galluogi CCAUC i ddyrannu cyllid i flaenoriaethau eraill addysg uwch | | | | | A.3 | Cael gwared ar grantiau ffioedd dysgu a darparu cymorth i fyfyrwyr llawn-amser yn ffurf benthyciadau i dalu am gostau dysgu rhag-blaen | | | OC.2c | Cynnydd mewn ymrestru ar gyrsiau ôl-radd, aros arnynt a'u cwblhau | | |
| | | N.7 | Cynyddu'r swm o gymorth ffioedd sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser | | | | | A.4 | Ymgyrch gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig, cymhwysedd etc | OP.2 | Cynnydd mewn ymwybyddiaeth ymysg myfyrwyr a rhieni o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer astudio addysg uwch | OC.3 | Cynnydd yn y gynrychiolaeth o grwpiau cyfranogi is (gan gynnwys myfyrwyr sy'n wrywaidd, du neu leiafrifoedd ethnig a/neu o ddosbarth economaidd-gymdeithasol is, a myfyrwyr aeddfed) ar gyrsiau israddedig llawn-amser a rhan-amser ac addysg bellach ôl-radd | | |
| | | | | | | | | A.5 | Cydweithio gyda rhanddeilaiid i gynnal gwaith ystadegol ac ymchwil i ddeall beth sy'n gweithio a defnyddio'r hyn a ddysgir | | | OC.4 | Cynnydd yn nyled benthyciadau myfyrwyr unigolion | IM.3 | System fwy fforddiadwy o gyllido i Lywodraeth Cymru / CCAUC |
| | | | | | | | | | | | | OC.5 | Lleihad yn effaith pwysau ariannol ar lesiant myfyrwyr | | |
| | | | | | | | | | | | | OC.6 | Cynnydd yn y dyraniad o gyllid i flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch | IM.4 | Sefydliadau addysg uwch mewn sefyllfa ariannol gryfach |

| Canlyniadau Anfwriadol | |
|---|---|
| UOC.1 | Cynnydd ym mhris nwyddau a gwasanaethau mae ar fyfyrwyr eu hangen |
| UOC.2 | Gall niferoedd llawn-amser leihau wrth i ddarpar fyfyrwyr ddewis yn hytrach mynd am gyrsiau addysg uwch rhan-amser |
| UOC.3 | Straen ac effaith negyddol ar uchelgeisiau nodau bywyd sy'n gysylltiedig ar gynnydd mewn dyled benthyciadau myfyrwywr unigol |

**Ansawdd a defnyddioldeb y dull gwerthuso arfaethedig**

*Cyflwyniad*

4.48 Cafodd y dull gwerthuso arfaethedig gymeradwyaeth helaeth yn ystod y broses hon o adolygu gan gymheiriaid: *"dyma un o'r prosiectau/gwerthusiadau mwyaf datblygedig rwyf wedi gweithio arno*."[61]

4.49 Mae'r prif feysydd y dull arfaethedig sydd i'w gwella neu eu datblygu ymhellach fel a ganlyn:

- Yr angen i osgoi canolbwyntio ar ddim ond effeithiau economaidd y diwygiadau, heb roi sylw dyledus i elfennau cyfiawnder cymdeithasol diwygiadau Diamond, er enghraift: buddion cydraddoldeb, iechyd a llesiant.
- Y risg o osod dull gweithredu rhy benodol a haearnaidd a'r angen am hyblygrwydd, oherwydd diffyg gwarant o barhad setiau data arolygon[62].
- Yr angen i edrych ar gyfrannau o niferoedd sy'n ymrestru ar gyrsiau addysg uwch a'u cwblhau mewn perthynas â'r cyffredinol, yn hytrach na niferoedd gwirioneddol, er mwyn rheoli ar gyfer gwahaniaethau mewn maint cohortau, flwyddyn ar flwyddyn[63].
- Yr angen am olrhain yn ôl-weithredol berfformiad academaidd myfyrwyr addysg uwch cyfredol a lefelau cyfoedd/amddifadedd ers mor gynnar â Chyfnod Allweddol 3.
- Yr angen i gynnwys y rheini nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg uwch er mwyn deall y rhesymau dros beidio â chymryd rhan a chymharu eu canlyniadau (economaidd, cymdeithasol ac o safbwynt iechyd a llesiant) â chanlyniadau graddedigion.
- Yr angen i ddal ffactorau sydd y tu allan i brif Ddiwygiadau Diamond a all effeithio ar benderfyniadau myfyrwyr i gymryd rhan mewn addysg uwch neu beidio, er enghraifft gwaith allgyrraedd a wneir gan sefydliadau addysg uwch mewn ysgolion (ffactor tynnu) a diwygiadau ehangach i'r sector AHO a all wneud llwybrau galwedigaethol yn fwy apelgar (ffactor gwthio).
- Yr angen am newidynnau nodweddion myfyrwyr, er enghraifft ethnigrwydd, anabledd neu brofiad o ofalu, er mwyn penderfynu'r graddau y mae patrymau mewn ymrestru, cadw a chwblhau ymysg y grwpiau hyn yn adlewyrchu patrymau yn y boblogaeth ehangach.

---

[61] Rhanddeiliad a gyfwelwyd.

[62] Yn y gweithdy data, nodwyd, er enghraifft, bod yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr a'r Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr, a gynhaliwyd gan hen Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau wedi dod i ben. Mae'r Arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr yn ddrud iawn, a phe bai Adran Addysg Lloegr yn rhoi'r gorau i'w gyllido, byddai angen set data arall yn ei le.

[63] Yn benodol, niferoedd is o fyfyrwyr yng Nghyfnod Allweddol 5.

*Ffynonellau data eilaidd allweddol*

4.50 Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r prif ffynonellau o ddata eilaidd y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwerthusiad effaith o brif Ddiwygiadau Diamond.

*Setiau data Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion*

4.51 Mae Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (CYBLD) yn gyfrifiad gorfodol sy'n cynnwys data disgyblion a data lefel ysgol ar gyfer pob ysgol a gynhelir. Nod y casglu data yw sicrhau targedu cyllid yn fwy cywir a helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu a monitro polisi.

*Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru*

4.52 Mae Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn gofnod o ddysgwyr ôl-16 yng Nghymru a ddefnyddir ar gyfer cyllido a chynllunio ôl-16, monitro perfformiad a datblygu strategol. Mae'n darparu'r ffynhonnell swyddogol o ystadegau ar ddysgwyr ôl-16 (ac eithrio addysg uwch) yng Nghymru. Mae'r set ddata yn cynnwys amrywiaeth helaeth o newidynnau a data demograffig da a all alluogi'r gwerthusiad i adnabod grwpiau targed penodol yn gymharol hawdd. Bydd yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth ar ddysgwyr cyn cymryd rhan mewn addysg uwch yn ogystal â'r rheini sy'n dilyn llwybrau eraill i addysg uwch[64].

*Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)*

4.53 Mae data HESA yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol ynglŷn â myfyrwyr:

- nodweddion personol
- man astudio
- cymwysterau mynediad a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol
- cyrsiau a modiwlau a ddilynwyd
- dilyniant trwy addysg uwch a'r cymwysterau a enillwyd.

4.54 Mae HESA yn casglu data graddedigion yn flynyddol, a ddefnyddir gan Lywodraethau'r DU a chyrff cyllido addysg uwch wrth reoleiddio a chyllido darparwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data HESA ar gyfer monitro a datblygu polisi, gan gynnwys monitro a rhagamcanu niferoedd myfyrwyr,

[64] Rhanddeilad a gyfwelwyd.

rhagamcanu cymorth i fyfyrwyr, datblygu polisi[65], gwerthuso ac Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, olrhain canlyniadau graddedigion, monitro Cymraeg a chysylltu â data addysgol arall a ddelir gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir data HESA i fonitro lle mae myfyrwyr yn astudio, gan gynnwys llifau trawsffiniol myfyrwyr addysg uwch yn y DU. Caiff niferoedd o fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn y DU, a'r holl fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru, eu monitro'n flynyddol, yn ôl newidynnau sy'n cynnwys:

- blwyddyn astudio
- lleoliad astudio
- domisil (ee Cymru, Lloegr, yr UE, yn ogystal â rhaniadau daearyddol is fel bo'r angen)
- defnydd o'r Gymraeg mewn addysg uwch, yn enwedig y niferoedd o fyfyrwyr sy'n derbyn rhywfaint o addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg
- lefel astudio (israddedig neu ôl-radd)
- modd astudio (llawn-amser neu ran-amser)
- pwnc astudio
- nodweddion cydraddoldeb (ee oedran, anabledd, rhyw, ethnigrwydd)
- niferoedd gwirioneddol a gwybodaeth ddemograffig.

*Astudiaeth Cohort y Mileniwm*

4.55 Prosiect ymchwil yw Astudiaeth Cohort y Mileniwm sy'n dilyn bywydau tua 19,000 o blant a aned yn y DU yn 2000-01. Mae'r prosiect yn olrhain plant y Mileniwm drwy gydol eu plentyndod drwodd i'w blynyddoedd fel oedolion. Cynhaliwyd chwe arolwg hyd yma ar oedrannau canlynol y cohort: naw mis, a thair, pump, saith a phedair ar ddeg mlwydd oed.

4.56 Mae'r pynciau y rhoddir sylw iddynt yn cynnwys: rhianta, gofal plant, dewis o ysgol, ymddygiad a datblygiad gwybyddol plant, iechyd plant a rhieni, addysg a hyfforddiant rhieni, incwm a thlodi, tai, cymdogaeth a symudedd preswyl, a chyfalaf cymdeithasol ac ethnigrwydd. Dim ond tua 2% o'r sampl hwn sy'n hanu o Gymru ac yn cymryd rhan mewn addysg uwch (tua 400 o unigolion) ac felly dylid cymryd gofal wrth ddibynnu'n ormodol ar y set ddata hon[66].

[65] Defnyddiwyd data HESA i ragamcanu fforddiadwyedd argymhellion yn Adolygiad Diamond.
[66] Rhanddeiliad a gyfwelwyd ac adborth rhanddeiliaid yn y gweithdy data.

*Data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC)*

4.57 Mae data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cynnwys gwybodaeth am grantiau a benthyciadau a dderbyniwyd, incwm cartref, gadael yn gynnar, statws cwblhau, swm/cyfran o ad-dalu dyledion a statws cyflogaeth. Mae'r Cwmni hefyd â gwybodaeth am y rheini sy'n byw gartref neu mewn llety myfyrwyr, y gellid ei chysylltu â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a data am incwm teuluoedd, hefyd ar gael gan y Cwmni[67].

*Arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr*

4.58 Mae'r Arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr (SIES) yn darparu tystiolaeth o sefyllfa ariannol myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Roedd yn fecanwaith ar gyfer asesu effaith newidiadau i gyllid a chymorth myfyrwyr a gyflwynwyd i'r rheini a oedd yn cychwyn mewn addysg uwch ym mlwyddyn academaidd 2012/13 (yn erbyn llinell sylfaen a ddaliwyd yn 2011/12). Gall fod angen chwyddo maint cohort Cymru ar y SIES er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon dibynadwy[68]. Mae cyfle hefyd i gysylltu data SIES â data HESA, er mwyn darganfod cysylltiadau rhwng canfyddiadau o amgylchiadau ariannol a gweithgareddau cyflogaeth rhan-amser a chadw a chwblhau[69].

*Canlyniadau Hydredol Addysg (LEO)*

4.59 Mae set ddata'r Canlyniadau Hydredol Addysg yn cysylltu data o amrywiaeth o ffynonellau o wybodaeth ynghylch myfyrwyr gradd baglor llawn-amser a rhan-amser[70], er mwyn olrhain graddedigion wrth bontio o addysg uwch i'r gweithle. Mae'r Canlyniadau Addysg Hydredol yn dangos faint mae graddedigion gwahanol gyrsiau (wedi ei grwpio yn ôl JACS[71]) mewn gwahanol brifysgolion yn ei ennill ar adeg cyhoeddi, naill ai un, tair, pum, neu ddeng mlynedd ar ôl graddio[72]. Gellir dadansoddi'r data hefyd yn ôl nodweddion graddedigion gan gynnwys rhyw, ethnigrwydd, rhanbarth daearyddol (ar ddyddiad ymgeisio), oedran (wrth gychwyn astudio), cyflawniad blaenorol yn yr ysgol, cyrsiau a ddilynwyd, a chymwysterau a enillwyd, cyflogaeth ac incwm a budd-daliadau a hawliwyd.

---

[67] Rhanddeiliad a gyfwelwyd.
[68] Adborth gan randdeiliaid ac adborth rhanddeiliaid yn y gweithdy data.
[69] Adborth rhanddeiliaid yn y gweithdy data
[70] Gan gynnwys ymadawyr astudiaethau na wnaeth raddio gyda gradd
[71] Cyd-Ddosbarthiad Academaidd Pynciau (Joint Academic Classification of Subjects)
[72] Y data cynharaf a ryddhawyd hyd yma fu data graddedigion 2003-04, yr unig gohort y mae data deng mlynedd o hyd ar eu cyfer.

4.60 Mae set ddata'r Canlyniadau Hydredol Addysg yn cyfuno data o ffynonellau gweinyddol presennol gan gynnwys:

- Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion
- HESA
- Data Cofnodion Dysgwyr Unigol / Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a'r
- Adran Gwaith a Phensiynau.

4.61 Mae rhai problemau fodd bynnag gyda'r hyn mae'r Canlyniadau Hydredol Addysg yn ei gynnwys ac nad yw'n ei gynnwys, a all danseilio eu dilysrwydd o ran gwerthuso effaith prif Ddiwygiadau Diamond, sef:

- Nid yw'r Canlyniadau Hydredol Addysg yn cynnwys incwm cartref wrth gychwyn mewn addysg uwch na derbyn benthyciadau myfyrwyr.
- Nid yw'r set ddata ond yn cynnwys y rheini sydd wedi cymryd llwybr prifysgol, ac felly ni ellir cymharu canlyniadau â rheini sydd wedi cymryd llwybr arall (er enghraifft, prentisiaeth neu weithgaredd entrepreneuraidd).
- Nid yw set ddata'r Canlyniadau Hydredol Addysg yn gynhwysfawr, ac i rai sefydliadau a phynciau mae bylchau sylweddol yn y data, yn enwedig o ran cyflogau[73].
- Cyfyngiadau ar ddibynadwyedd y data enillion, yn wyneb y newidiadau i'r hinsawdd economaidd a gwleidyddol dros gyfnod mor hir a'r ffaith nad yw'r data yn cael ei addasu ar gyfer chwyddiant, sy'n cymhlethu ymhellach gymariaethau flwyddyn ar flwyddyn.
- Data Talu wrth Ennill sy'n dangos dyddiad cychwyn a gorffen cyfnod gwaith cyflogedig gweithiwr, a all fod yn wallus yn aml.

*Ffynonellau posibl eraill o ddata eilaidd*

Mae ffynonellau data ychwanegol y gellid eu defnyddio wrth werthuso'r diwygiadau yn cynnwys:

- Data arolygon poblogaeth blynyddol
- Arolwg Llafurlu
- Arolwg Cenedlaethol Cyrchfannau Ymadawyr
- Arolwg Punt yn eich Poced Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
- Arolwg Cyrraedd yn Ehangach

[73] Gall hyn fod oherwydd graddedigion yn gadael y DU, yn dod yn hunan-gyflogedig neu'n gadael y llafurlu'n wirfoddol.

- Arolwg Omnibws Beaufort
- Astudiaeth Addysg Cohortau Lluosog WISERD
- Cyswllt Diogelu Gwybodaeth Ddienw (SAIL)
- Arolwg Graddedigion CCAUC
- Data y Gwasanaeth Mynediad Prifygolion a Cholegau (UCAS)
- Data Gyrfa Cymru
- Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol (ADRC).

**Cynigion terfynol ar gyfer gwerthuso effaith**

4.62 Mae'r adran uchod yn amlinellu'r prif ffynonellau data presennol y gellid eu defnyddio fel mesuriadau ar gyfer gwerthusiad effaith o'r diwygiadau.

4.63 Ni fydd data eilaidd ar ei ben ei hun fodd bynnag yn darparu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer gwerthuso effaith y diwygiadau, a bydd angen ymchwil sylfaenol ychwanegol, er mwyn deall y cysylltiadau achosol rhwng y diwygiadau i gyllid myfyrwyr a gweithredoedd pob un o'r rhanddeiliaid y mae'r diwygiadau'n effeithio arnynt, gan gynnwys myfyrwyr gwirioneddol a darpar fyfyrwyr addysg uwch.

4.64 Dylai'r rhaglen werthuso ddeng-mlynedd gynnwys tri chyfnod:

- Cyfnod paratoi (2019-2021)
- Cyfnod gwerthuso canol-tymor (2022-2023)
- Cyfnod gwerthuso effaith terfynol (2027-2029)

4.65 Mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â phob cyfnod o'r gwerthusiad wedi ei grynhoi isod.

*Cyfnod paratoi*

4.66 Dylai'r cyfnod paratoi ganolbwyntio ar sicrhau bod systemau ar gyfer cynhyrchu a defnyddio gwybodaeth yn cael eu datblygu a'u cefnogi, fel bod y gwerthusiadau canol-tymor ac effaith terfynol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Dylai hefyd gynnwys ymchwil sylfaenol ansoddol (llinell sylfaen), yn ffurf arolwg ansoddol, hydredol, dair ton o fyfyrwyr addysg uwch sy'n hanu o Gymru. Dylai'r rhan fwyaf o'r gwaith gael ei gyflawni o fewn Llywodraeth Cymru, er y byddai angen comisiynu ymchwil sylfaenol hefyd.

*Cyfnod gwerthuso canol-tymor*

4.67 Dylai'r gwerthusiad canol-tymor ganolbwyntio ar fesur allbynnau a chanlyniadau sy'n dod i'r amlwg, o ran:

- Gwell sefyllfa ariannol i fyfyrwyr addysg uwch (israddedig ac ôl-radd llawn-amser a rhan-amser)
- Graddau uwch o ymrestru[74], cadw[75] a chwblhau[76] mewn addysg uwch.
- Mwy o gynrychioliaeth o grwpiau cyfranogi isel mewn addysg uwch.
- Cynnydd yn nyled benthyciadau myfyrwyr unigolion.
- Lleihad yn effaith pwysau ariannol ar lesiant myfyrwyr.
- Cynnydd yn y dyraniad o gyllid at flaenoriaethau eraill addysg uwch.

4.68 Dylai'r gwerthusiad canol-tymor ymwneud â dadansoddi ffynonellau data eilaidd allweddol, gan gynnwys SIES 2020/21, wedi ei gysylltu â chofnod myfyrwyr HESA, CYBLD, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac ystadegau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a HESA blynyddol (2018/19, 2019/20, 2020/21, 2021/22, 2022/23, 2023/24), arolwg dilynol Punt yn eich Poced (os yn berthnasol) ac arolwg Canlynadau Graddedigion.

4.69 Yn ogystal, ac er mwyn olrhain profiadau myfyrwyr addysg uwch (gan gynnwys rhai myfyrwyr ôl-radd a fyddai wedi bod yn israddedigion ar ôl i'r diwygiadau ddod i rym), dylai'r cyfnod hwn gynnwys hefyd ail gohort ar gyfer astudiaeth ansoddol hydredol o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a ymrestrodd yn hydref 2022 mewn sefydliadau yng Nghymru a Lloegr, i'r diben o olrhain eu profiadau addysg uwch hyd at ddiwedd blwyddyn academaidd 2024-25.

*Cyfnod gwerthuso effaith terfynol*

4.70 Dylai'r gwerthusiad effaith terfynol ddefnyddio'r holl dystiolaeth a gasglwyd trwy'r cyfnodau paratoi a gwerthuso canol-tymor, ynghyd ag ymchwil sylfaenol ychwanegol. Dylai geisio mesur canlyniadau ac effaith sy'n dechrau ymddangos, gan gynnwys:

- Gwelliant mewn lefelau addysg a chymwysterau ac felly mewn enillion posibl unigolion.

[74] Israddedig ac ôl-radd rhan-amser yn unig.
[75] Israddedig ac ôl-radd llawn-amser a rhan-amser.
[76] Israddedig ac ôl-radd llawn-amser a rhan-amser.

- Gwelliant yn iechyd a llesiant unigolion.
- Cyfradd uwch o sgiliau a chymwysterau lefel uwch yng ngweithlu Cymru.
- System gyllido fwy fforddiadwy i Lywodraeth Cymru/CCAUC.
- Sefyllfa ariannol gryfach sefydliadau addysg uwch.

4.71 Mae gofynion dadansoddiadol ac ymchwil y cyfnod gwerthuso effaith terfynol yn cynnwys dadansoddiad o'r un ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad canol-tymor, ynghyd â thrydydd cohort, a'r terfynol, o fyfyrwyr ar gyfer astudiaeth hydredol o fyfyrwyr addysg uwch sy'n hanu o Gymru. Yn ogystal, i ddiben cymhariaeth ryngwladol a hanesyddol, dylai'r cyfnod terfynol gynnwys dadansoddiad o ddata HESA (myfyrwyr sy'n hanu o Gymru wedi eu cymharu â myfyrwyr sy'n hanu o Loegr a newidiadau dros amser ymhlith myfyrwyr sy'n hanu o Gymru, cyn ac ar ôl diwygiadau Diamond). Yn olaf, dylai'r cyfnod hwn gynnwys dadansoddiad o ganlyniadau'r Arolwg Llafurlu chwarterol (2018-2029) er mwyn darganfod unrhyw newidiadau yng nghyfradd sgiliau a chymwysterau lefel-uch gweithlu Cymru.

4.72 Mae'r tabl isod yn mapio pob elfen o'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r cyfnod paratoi, ynghyd â graddfeydd amser a chyfrifoldebau arfaethedig a natur unrhyw gostau[77].

[77] Noder: Oherwydd y graddfeydd amser estynedig ar gyfer y gwerthusiad hwn a'r ansicrwydd ynghylch effaith Brexit a ffactorau eraill na ellir eu rhagweld, ynghyd â chostau na ddatgelwyd o brosesau casglu data presennol, ni roddwyd gwerth rhifyddol i'r costau.

| Cyfnod Paratoi (2019-2021) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ffordd o fesur allbynnau/canlyniadau/ effeithiau gofynnol | Gweithgaredd | Graddfeydd Amser | Cyfrifoldeb | Cost |
| Myfyrwyr llawn-amser/rhan-amser israddedig ac ôl-radd mewn sefyllfa ariannol well[78].<br><br>Lleihad yn effaith cyllid fel rhwystr i ymrestru, cadw a chwblhau mewn addysg uwch[79]. | Paratoi a chynllunio SIES 2020-2021 ac archwilio'r gwelliannau posibl canlynol:<br>• Chwyddo samplau ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru fel cyfanrwydd.<br>• Chwyddo samplau ar gyfer grwpiau blaenoriaeth gan gynnwys:<br>  ○ myfyrwyr sy'n rhieni/gofalwyr<br>  ○ myfyrwyr rhan-amser<br>  ○ pobl sy'n gadael gofal<br>  ○ myfyrwyr duon ac o leiafrifoedd ethnig<br>  ○ myfyrwyr ag anabledd<br>  ○ myfyrwyr Cymraeg eu hiaith.<br>• Cynnwys myfyrwyr ôl-radd.<br>• Cynnwys cwestiynau am galedi ariannol a risg o ran eu cadw o ganlyniad i hynny.<br>• Cynnwys cwestiynau sy'n ymwneud yn benodol â'r cymorth cyllid i fyfyrwyr sydd ar gael iddynt, a'r graddau y dylanwadodd hyn ar eu penderfyniad i wneud cais i | Gwanwyn 2019-Gwanwyn 2020 | Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag Adran Addysg Lloegr | Costau a gynlluniwyd eisoes i SIES, gyda chostau ychwanegol am chwyddo samplau ac astudiaeth ansoddol. |

[78] Paratoi ar gyfer mesur y canlyniad hwn.
[79] Paratoi ar gyfer mesur y canlyniad hwn.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | brifysgol.<br>• Cynnwys astudiaeth ansoddol ddilynol ar galedi ariannol a risg, i'w gynnal gyda myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn astudio ym mhob sefydliad addysg uwch yng Nghymru a myfyrwyr sy'n hanu o Gymru mewn un brifysgol yn Llundain ac un arall o brifysgolion y DU (sef heb fod yng Nghymru nac yn Llundain)[80].<br>• Sicrhau caniatâd ymatebwyr i gysylltu eu hymatebion SIES â ffynnonellau data gweinyddol penodol[81] i sicrhau ymchwil defnyddiol yn y dyfodol[82].<br>• Cynllunio ar gyfer datblygu dull o gymharu sgoriau tueddiadau data myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a myfyrwyr sy'n hanu o Loegr o SIES 2020/21, a chymharu sgoriau tueddiadau data myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o SIES 2020/21 a data myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o SEIS 2014/15[83], i'r diben o asesu'r gwrth-ffeithiol. | | | |
| Cynnydd yn y gyfran o fyfyrwyr sy'n parhau ar gyrsiau israddedig | Wrth baratoi ar gyfer SIES 2020/21, gweithio gydag ystadegwyr Llywodraeth Cymru, HESA a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr er mwyn gallu cysylltu ymatebion SIES â'r ffynonellau data canlynol: | Gwanwyn 2019-Gwanwyn 2020 | Llywodraeth Cymru a HESA | Dim cost sylweddol ychwanegol am gysylltu data. |

80 Argymhellwn fod yr astudiaeth hon yn cael ei gynnal gyntaf yn 2019-2020 er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys sampl o'r myfyrwyr hynny sy'n astudiaeth gyda chymorth myfyrwyr cyn Diwygiadau Diamond (fel llinell sylfaen) a'r rheini mae Diwygiadau Diamond yn effeithio arnynt.
81 Yn benodol, HESA, CYBLD, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, cofnod myfyrwyr HESA, data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a chofnodion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
82 Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag Adran Addysg Lloegr i archwilio cyfleoedd i sicrhau caniatâd ymatebwyr sy'n hanu o Loegr i gysylltu ymatebion SIES â ffynonellau data gweinyddol yn Lloegr, er mwyn galluogi lefel gyfoethocach o gymharu sgoriau tueddiadau.
83 Oherwydd y newidadau/ychwanegiadau arfaethedig i'r cwestiynau ar gyfer SIES 2020/21, ni fydd yn bosibl cymharu pob cwestiwn o'r ddau arolwg (2014/5 a 2020/21).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| llawn-amser a'u cwblhau[84].<br><br>Cynnydd o ran ymrestru, cadw a chwblhau cyrsiau israddedig ac ôl-radd rhan-amser[85]. | • Setiau data 'Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion' (CYBLD a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru)[87]<br>• Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru[88]<br>• Cofnod myfyriwr HESA[89]<br>• Data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r SLC[90]. | | | |
| Cynnydd mewn dyled benthyciadau myfyrwyr unigolion[86]. | Gweithio gyda UCM i archwilio'r cyfleoedd (o safbwynt costau a chadernid data) am arolwg dilynol Punt yn eich Poced, gyda gwaith ansoddol dilynol, ac archwilio hyfywedd hynny. | Gwanwyn 2019-Gwanwyn 2020 | Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr | Costau amodol am arolwg Punt yn eich Poced dilynol. |
| Mwy o gynrychiolaeth o grwpiau cyfranogiad is mewn addysg uwch. | Gan adeiladu ar grwpiau targed ehangu cyfranogiad CCAUC, cytuno ar ddiffiniad o 'grwpiau cyfranogiad isel', er enghraifft:<br>• grwpiau daearyddol (sef cwintel POLAR[91])<br>• grwpiau oedran<br>• grwpiau ethnig<br>• nodweddion ysgolion | Gwanwyn 2019-Gwanwyn 2020 | Llywodraeth Cymru | Ni ragwelir cost ychwanegol. |

[84] Paratoi ar gyfer mesur y canlyniad hwn.
[85] Paratoi ar gyfer mesur y canlyniad hwn.
[86] Paratoi ar gyfer mesur y canlyniad hwn.
[87] I roi tystiolaeth o nodweddion a chyraeddiadau addysgol.
[88] I roi tystiolaeth o nodweddion a chyraeddiadau addysgol.
[89] I ddangos lefelau o ymrestru, cadw a chwblhau addysg uwch.
[90] I roi tystiolaeth o wybodaeth ynghylch incwm teulu, grantiau a benthyciadau a dderbyniwyd, gadael yn gynnar, swm/cyfran o ad-dalu dyledion a statws cyflogaeth.
[91] Cyfranogiad Ardal Leol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • nodweddion aelwydydd (incwm a phrofiad rhieni o addysg uwch). | | | |
| Lleihad yn effaith cyllid fel rhwystr i ymrestru, cadw a chwblhau mewn addysg uwch.<br><br>Lleihad yn effaith pwysau ariannol ar lesiant myfyrwyr. | Comisiynu astudiaeth ansoddol hydredol o fyfywyr sy'n hanu o Gymru, ar gyfer dau gohort: y cohort cyntaf i fod yn sampl o fyfyrwyr a ymrestrodd yn hydref 2018 mewn sefydliadau yng Nghymru a Lloegr (i gael eu cyfweld dros dair ton yn flynyddol, gan gychwyn o Wanwyn/Haf 2019), a'r ail a ymrestrodd yn hydref 2017 (i gael eu cyfweld dros ddwy don yn flynyddol, gan gychwyn o Wanwyn/Haf 2019*)*, i'r diben o olrhain eu profiadau addysg uwch hyd at ddiwedd blwyddyn academaidd 2020-21[92], ac fel modd o fesur gwahaniaethau mewn profiadau i'r rheini a gymerodd ran yng nghohort 2018, y cyfeiriwyd ato. Byddai cwestiynau'r arolwg yn archwilio:<br><br>• Canfyddiadau a phrofiadau myfyrwyr o'u pecyn cymorth<br><br>• Sefyllfa ariannol ac effaith ar iechyd meddwl a llesiant canfyddedig.<br><br>• Y graddau mae incwm gwario ar gael ar gyfer costau byw[93], addysg[94] a hamdden[95].<br><br>• Effaith sefyllfa ariannol ar ddewisiadau o ran ffordd o fyw[96]. | Gwanwyn 2019 – Gwanwyn 2021 | Llywodraeth Cymru a chyflenwr allanol. | Cost comisiynu astudiaeth allanol[98]. |

[92] Byddai'r cohort yn cael ei gyfweld yn flynyddol am y tair blynedd.
[93] Er enghraifft, tai, bwyd a diod, cyfleustodau a thrafnidiaeth.
[94] Er enghraifft, llyfrau gosod a chyfnodolion, teithiau maes.
[95] Er enghraifft, cymryd rhan mewn clybiau a chymdeithasau prifysgol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Sefyllfa ariannol a dylanwad ar agweddau tuag at ddal ati.<br>• Sefyllfa ariannol ac effaith, lefelau o ddyled, dibyniaeth ar ffurfiau ansicr o gyllid.<br>• Sefyllfa ariannol a dylanwad ar ddyheadau am astudiaeth ôl-radd.<br>• Sefyllfa ariannol a dylanwad ar ddisgwyliadau ar gyfer gyrfa yn y dyfodol / dyheadau o ran ffordd o fyw.<br>Er mwyn cynnwys yr holl grwpiau mae prif Ddiwygiadau Diamond yn effeithio arnynt, dylai sampl yr astudiaeth gynnwys:<br>• Myfyrwyr rhan-amser a llawn-amser ar gyrsiau israddedig ac ôl-radd[97].<br>• Ymadawyr ysgol (mewn perthynas â myfyrwyr israddedig), graddedigion (mewn perthynas â myfyrwyr ôl-radd) a myfyrwyr aeddfed (mewn perthynas â myfyrwyr israddedig ac ôl-radd).<br>• Siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg.<br>• Myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru a'r tu allan i Gymru, mewn | | | Cost comisiynu |

[96] Er enghraifft, penderfyniadau i gyflawni gwaith di-dâl neu gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli.
[98] Gan y byddai'r astudiaeth hon yn cael ei chomisiynu yn y dyfodol cymharol agos, awgrymwn y gallai gostio tua £100K, ar sail sampl o 50 o fyfyrwyr ar y cychwyn (gan ganiatáu ar gyfer rhywfaint o athreuliad dros y tair blynedd).
[97] Byddai myfyrwyr ym mhob cohort yn cael eu cyfweld dair gwaith (unwaith ym mhob blwyddyn academaidd). Byddai myfyrwyr ôl-radd yn cynnwys myfyrwyr rhan-amser a llawn-amser. Byddai angen i bob ton cynnwys cyfranogwyr astudiaethau ôl-radd ychwanegol, i gymryd lle'r rheini'n graddio ar ôl y don gyntaf (sef y rheini ar gyrsiau ôl-radd llawn-amser) neu'r ail don (sef y rheini ar gyrsiau ôl-radd rhan-amser).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | amrywiaeth o wahanol sefydliadau, gan gynnwys addysg uwch mewn addysg bellach a 30 Ymddiriedolaeth Sutton. | Gwanwyn 2019 – Haf 2020 | Llywodraeth Cymru a chyflenwr allanol | astudiaeth allanol[99]. |
| Cynnydd mewn ymwybyddiaeth ymhlith myfyrwyr a rheini o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer addysg uwch. | Cyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau o gwestiynau newydd ar ddyheadau a rhwystrau addysgol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ac ystyried y potensial am arolwg dilynol a/neu ailadrodd y cwestiynau mewn blynyddoedd i ddod[100].<br><br>Comisiynu ymchwil gyda myfyrwyr Cyfnod Allweddol 5 a rhieni myfyrwyr Cyfnod Allweddol 5 i archwilio:<br>• Graddau o ymwybyddiaeth o gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch.<br>• Ym mha ffyrdd ac i ba raddau mae'r cymorth sydd ar gael wedi dylanwadu ar eu dyheadau i gymryd rhan mewn addysg uwch neu beidio.<br>• Pa ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y dyhead/penderfyniad hwn[101]. | Hydref 2019<br><br>Hydref 2020<br><br>Hydref 2020 | Llywodraeth Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru a chyflenwr allanol.<br><br>Llywodraeth | I'w wneud yn fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, felly ni ragwelir costau ychwanegol.<br><br>Cost comisiynu astudiaeth allanol[102].<br><br>Cost cwestiynau ychwanegol ar arolwg |

[99] Gan y byddai'r astudiaeth hon yn cael ei chomisiynu yn y dyfodol cymharol agos, awgrymwn y gallai gostio tua £35K, ar sail sampl o 25 o fyfyrwyr ar y cychwyn (gan ganiatáu ar gyfer rhywfaint o athreuliad dros y tair blynedd).

[100] Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu y bydd hyn, er yn darparu data ansoddol defnyddiol ar y lefelau o ymwybyddiaeth, yn ddull lefel uchel iawn ac na fydd yn rhoi dealltwriaeth o sut mae'r ymwybyddiaeth hon yn effeithio ar ddyhead i gymryd rhan mewn addysg uwch a chymryd rhan yn wirioneddol mewn addysg uwch.

[101] I'r diben o asesu'r gwrth-ffeithiol.

[102] Gan y byddai'r ymchwil hwn yn cael ei gomisiynu yn y dyfodol cymharol agos, awgrymwn y gallai gostio tua £25-35K.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Archwilio cyfleoedd i brynu cwestiynau ychwanegol ar arolwg Omnibws Beaufort mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o gymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol. | | Cymru a Beaufort Research | omnibws. |
| Cynnnydd yn y dyraniad o gyllid i flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch[103].<br><br>Sefydliadau addysg uwch mewn sefyllfa ariannol gryfach[104].<br><br>System gyllido fwy fforddiadau i Lywodraeth Cymru/CCAUC[105]. | Dadansoddiad meintiol o Gofnod Cyllid HESA a cyllid Llywodraeth Cymru i CCAUC i ddeall incwm a gwariant blynyddol sefydliadau addysg uwch.<br><br>Llywodraeth Cymru i weithio gyda CCAUC i ddatblygu dull ansoddol o osod y data meintiol mewn cyd-destun[106]. | Gwanwyn 2019-Gwanwyn 2020<br><br>Gwanwyn 2019-Gwanwyn 2020 | Llywodraeth Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â CCAUC | Cyflawnir yn fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, felly ni ragwelir costau ychwanegol.<br><br>Cyflawnir yn fewnol o fewn Llywodraeth Cymru, felly ni ragwelir costau ychwanegol. |

103 Paratoi ar gyfer mesur y canlyniad hwn.
104 Paratoi ar gyfer mesur yr effaith hwn.
105 Paratoi ar gyfer mesur yr effaith hwn.
106 Mae hwn yn debygol o gynnwys cyfweliadau ansoddol gyda Llywodraeth Cymru, CCAUC a sefydliadau addysg uwch.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwelliant mewn lefelau addysg a chymwysterau ac felly enillion posibl unigolion.<br><br>Gwelliant mewn iechyd a llesiant unigolion. | Cydgysylltu â HESA i ddeall methodoleg a holiadur arfaethedig yr arolwg Canlyniadau Graddedigion newydd sydd wrthi'n cael ei weithredu ar hyn o bryd, er mwyn archwilio'r graddau mae'n gymaradwy â Chyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch. | Gwanwyn 2019 | Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â HESA | Ni ragwelir cost ychwanegol. |
| Cyfnod gwerthuso canol-tymor (2022-24) | | | | |
| Ffordd o fesur allbynnau/canlyniadau/ effeithiau gofynnol | Gweithgaredd | Graddfeydd amser | Cyfrifoldeb | Cost |
| Myfyrwyr israddedig ac ôl-radd mewn gwell sefyllfa ariannol | Dadansoddiad o'r setiau data canlynol:<br><br>• SIES 2020/21, wedi'i gysylltu â chofnod myfyriwr HESA, CYBLD, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r SLC a Mynegai | Gwanwyn 2022 – Haf 2024 | Llywodraeth Cymru | Ni ragwelir cost ychwanegol am ddadansoddiad mewnol o arolygon a phrosesau casglu data y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru.<br>• Ystadegau Cytundebau Lefel Gwasanaeth blynyddol a HESA (2018/9, 2019/20, 2020/1, 2021/2, 2022/2, 2023/4)[107]. | | | cyllidebwyd ar eu cyfer eisoes. |
| Lleihad yn effaith cyllid fel rhwystr i ymrestru, cadw a chwblhau mewn addysg uwch<br>Cynnydd yn nyled benthyciadau i fyfyrwyr unigolion.<br><br>Lleihad yn effaith pwysau ariannol ar lesiant myfyrwyr | Dadansoddiad o'r setiau data canlynol:<br>• SIES 2020/21, wedi'i gysylltu â chofnod myfyriwr HESA, CYBLD, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru[108], Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r SLC.<br>• Arolwg Punt yn eich Poced dilynol (lle bo'n berthnasol).<br>• Arolwg Canlyniadau Graddedigion.<br><br>Comisiynu ail astudiaeth ansoddol hydredol o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a ymrestrodd yn hydref 2022 mewn sefydliadau yng Nghymru a Lloegr (i gael eu cyfweld dros dair ton yn flynyddol, gan gychwyn o | Haf 2022, Haf 2023 a Haf 2024<br><br>Gwanwyn 2022 i haf 2024 | Llywodraeth Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru a chyflenwr allanol. | Ni ragwelir cost ychwanegol am ddadansoddiad mewnol o arolygon a phrosesau casglu data y cyllidebwyd ar eu cyfer eisoes Cost arolwg Punt yn eich Poced (os yn berthnasol)<br><br>Cost comisiynu astudiaeth allanol[114]. |

[107] Ar gyfer dadansoddi'r darlun cyffredinol a chymharu â'r chwe blwyddyn academaidd cyn gweithredu prif Ddiwydiadau Diamond.
[108] Yn benodol, gyda chysylltiadau â nodweddion personol a nodweddion astudio blwyddyn 11 a blwyddyn 13, gan gynnwys cymhwysedd am ginio ysgol am ddim, Anghenion Dysgu Ychwanegol a chyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 a 5.
[114] Fel gyda'r cohort cyntaf, byddem yn argymell sampl o 50 ar y cychwyn. Gallai costau amrywio rhwng £110K a £130K.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Wanwyn/Haf 2023), i'r diben o olrhain eu profiadau addysg uwch hyd at ddiwedd blwyddyn academaidd 2024-25, gan ganolbwyntio ar y canlynol:<br><br>• Galw am wasanaethau lles myfyrwyr (a'r graddau y cyfeirir at sefyllfa ariannol fel ffactor sy'n dylanwadu ar alw am wasanaethau).<br>• Sefyllfa ariannol ac effaith ar iechyd meddwl a llesiant.<br>• Y graddau mae incwm gwario ar gael i dalu costau byw[109], addysg[110] a hamdden[111].<br>• Effaith sefyllfa ariannol ar ddewisiadau ynghylch ffordd o fyw[112].<br>• Sefyllfa ariannol a dylwanad ar agweddau tuag at ddal ati fel myfyriwr.<br>• Sefyllfa ariannol ac effaith hynny, lefelau o ddyled, dibyniaeth ar ffurfiau ansicr o gyllid.<br>• Sefyllfa ariannol a dylanwad hynny ar ddyheadau am astudio ôl-radd.<br>• Sefyllfa ariannol a dylanwad hynny ar ddisgwyliadau ynghylch gyrfa/ dyheadau ffordd o fyw yn y dyfodol.<br><br>Er mwyn cynnwys yr holl grwpiau y mae Diwygiadau Diamond yn | | | |

[109] Er enghraifft, tai, bwyd a diod, cyfleustodau a thrafnidiaeth.
[110] Er enghraifft, llyfrau gosod a chyfnodolion, teithiau maes.
[111] Er enghraifft, cymryd rhan mewn clybiau a chymdeithasau prifysgol.
[112] Er enghraift, penderfyniadau i gyflawni gwaith taledig neu gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | effeithio arnynt, dylai sampl yr astudiaeth gynnwys:<br>• Myfyrwyr rhan-amser a llawn-amser ar gyrsiau israddedig a myfyrwyr ôl-radd.<br>• Ymadawyr ysgol (mewn perthynas â myfyrwyr israddedig), graddedigion (mewn perthynas â myfyrywr ôl-radd[113]) a myfyrwyr aeddfed (mewn perthynas â myfyrwyr israddedig ac ôl-radd).<br>• Siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg.<br>• Myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru a'r tu allan i Gymru, mewn amrywiaeth o wahanol sefydliadau, gan gynnwys addysg uwch mewn addysg bellach a 30 Ymddiriedolaeth Sutton. | | | |
| Cynnydd yn y dyraniad o gyllid i flaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch | Dadansoddiad o incwm a gwariant blynyddol sefydliadau addysg uwch (2018/9, 2019/20, 2020/1, 2021/2, 2022/2, 2023/4)[115], trwy'r canlynol:<br>• Cyfweliadau ansoddol gyda Llywodraeth Cymru, CCAUC a holl sefydliadau addysg uwch Cymru a sampl o sefydliadau addysg uwch Lloegr.<br>• Adolygu:<br>  o Cyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch<br>  o Llythyrau Cylch Gwaith Blynyddol yn nodi dyraniad Llywodraeth Cymru i CCAUC yn ôl blwyddyn ariannol.<br>  o Cylchlythyrau cyllido blynyddol CCAUC yn nodi dyfarniadau yn | Gwanwyn 2022 – Haf 2024 | Llywodraeth Cymru, yn amodol gyda chyflenwr allanol i gynnal ymchwil ansoddol. | Cost comisiynu ymchwil ansoddol (yn amodol) |

[113] Ar gyfer yr ail don, byddai hyn yn cynnwys graddedigion a gychwynnodd mewn addysg uwch ar ôl i ddiwygiadau Diamond ddod i rym.
[115] Er mwyn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ôl blwyddyn academaidd.<br>o Adroddiadau iechyd ariannol CCAUC. | | | |
| Cyfnod gwerthuso effaith terfynol (2026-29) | | | | |
| Ffordd o fesur allbynnau/canlyniadau/ effeithiau gofynnol | Gweithgaredd | Graddfeydd amser | Cyfrifoldeb | Cost |
| Gwelliant mewn lefelau addysg a chymwysterau ac felly enillion posibl unigolion<br><br>Gwelliant mewn iechyd a llesiant unigolion | Dadansoddiad o'r setiau data canlynol:<br>• SIES[116] dilynol, yn gysylltiedig â chofnod myfyriwr HESA, CYBLD, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, data derbynwyr grantiau a benthyciadau'r SLA a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.<br>• Ystadegau Cytundebau Lefel Gwasanaeth blynyddol a HESA (2024/25, 2025/26, 2026/27, 2027/8, 2028/9)[117]<br>• Arolwg Canlyniadau Graddedigion<br>• Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (hanesyddol), i archwilio nodweddion y rheini a aeth ac nad aeth i brifysgol cyn Diamond a'r rheini a aeth ac nad aeth ar ôl diwygiadau Diamond. | 2026-29<br><br>2026-29 | Llywodraeth Cymru<br><br>Llywodraeth Cymru a chyflenwr | SIES (Nis cynllunir ar hyn o bryd)<br><br>Cost comisiynu astudiaeth allanol. |

[116] Er enghraifft, yn 2025, bum mlynedd ar ôl yr arolwg blaenorol.
[117] Er mwyn dadansoddi'r cyffredinol ac er mwyn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Comisiynu trydedd astudiaeth ansoddol hydredol o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a ymrestrodd yn hydref 2026 mewn sefydliadau yng Nghymru a Lloegr, i'r diben o olrhain eu profiadau addysg uwch hyd at ddiwedd blwyddyn academaidd 2028-29. | | allanol. | |
| Cyfradd uwch o sgiliau a chymwysterau lefel-uwch yng ngweithlu Cymru | Dadansoddi:<br>• Data HESA (myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o gymharu â myfyrwyr sy'n hanu o Loegr a newid dros amser mewn myfyrwyr sy'n hanu o Gymru)<br>• Canlyniadau Arolwg Chwarterol y Llafurlu (2018-2029) | Gwanwyn 2026-29 | Llywodraeth Cymru. | Ni ragwelir dim cost ychwanegol. |
| System gyllido fwy fforddiadwy i Lywodraeth Cymru / CCAUC<br><br>Sefydliadau addysg uwch mewn sefyllfa ariannol gryfach | Dadansoddiad o incwm a gwariant blynyddol sefydliadau addysg uwch (2024/25, 2025/26, 2026/27, 2027/28, 2028/29)[118], trwy'r canlynol:<br>• Cyfweliadau ansoddol gyda Llywodraeth Cymru, CCAUC a holl sefydliadau addysg uwch Cymru a sampl o sefydliadau addysg uwch Lloegr.<br>• Adolygu:<br>  ○ Cyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch.<br>  ○ Llythyrau Cylch Gwaith Blynyddol yn nodi dyraniad Llywodraeth Cymru i CCAUC yn ôl blwyddyn ariannol.<br>  ○ Cylchlythyrau cyllido blynyddol CCAUC yn pennu dyfarniadau | Gwanwyn 2026-29 | Llywodraeth Cymru, yn amodol gyda chyflenwr allanol i gynnal ymchwil ansoddol | Dim cost ychwanegol ar gyfer dadansoddiad mewnol.<br><br>Cost comisiynu ymchwil ansoddol (yn amodol) |

118 Er mwyn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn ôl blwyddyn academaidd.<br>○ Adroddiadau iechyd ariannol CCAUC. | | | |

## 5. Casgliadau ac argymhellion

5.1 Mae'r broses adolygu gan gymheiriaid hon wedi mynd ati i arfarnu'n fanwl a datblygu'r model rhesymeg amlinellol lefel uchel, yr asesiad gwerthusadwyedd a'r cynllun gwerthuso a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru.

5.2 Mae wedi dod â barnau amrywiaeth o randdeiliaid at ei gilydd, rhanddeiliaid sydd â gwahanol arbenigedd a gwybodaeth o'r sector addysg uwch a lefelau amrywiol o ddealltwriaeth o theori ac ymarfer gwerthuso. Mae'r adolygiad wedi ystyried hefyd yr amrywiol ffynonellau data y gellid eu defnyddio fel mesuriadau ar gyfer gwerthusiad effaith o brif ddiwygiadau Diamond, gan gynnwys arolygon sampl, data arferol ysgolion (a chyfrifiad), addysg bellach, addysg uwch a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi, astudiaethau hydredol a setiau data cysylltiedig.

5.3 Mae'n hanfodol mabwysiadu dull gweithredu hirdymor ac wedi'i gynllunio ar gyfer y gwerthusiad hwn, gan ddefnyddio data hanesyddol a hydredol, fel y disgrifir yn y dull uchod.

5.4 Er hynny, ni fydd y ffynonellau data hyn ar eu pen eu hunain yn darparu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer gwerthuso effaith y diwygiadau a bydd angen ymchwil sylfaenol ychwanegol. Mae astudiaethau blaenorol wedi dangos bod y ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau pobl i gymryd rhan mewn addysg uwch neu beidio yn rhai cymhleth a bydd yn hanfodol archwilio'r cysylltiadau rhwng y cymorth ariannol sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr posibl, y dewisiadau maent yn eu gwneud ac effeithiau tymor canolig a hir mae hyn yn eu cael ar eu llesiant. Yr unig ffordd o gyflawni hyn yw trwy ymchwil penodedig.

5.5 Oherwydd amcan y diwygiadau o ehangu mynediad at addysg uwch, bydd yn bwysig hefyd i'r gwerthusiad benderfynu sut mae'r cymorth ariannol sydd ar gael o dan ddiwygiadau Diamond yn dylanwadu ar benderfyniad darpar fyfyriwr posibl i ystyried addysg uwch. Byddai hyn yn gofyn am ddadansoddiad ôl-weithredol o ddata anuniongyrchol o'r rheini sy'n cymryd rhan a'r rheini nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg uwch, cyn ac ar ôl i ddiwygiadau Diamond ddod i rym.

5.6 Ni ddylid gor-ddweud y cysylltiadau achosol a awgrymir rhwng cynnwys diwygiadau Diamond a chanlyniadau a fesurir, gan fod amrywiaeth o ffactorau

allanol a all leihau neu chwyddo unrhyw effaith o'r diwygiadau. Caiff y diwygiadau eu cyflwyno yn ystod cyfnod lle rhagwelir newid economaidd-gymdeithasol sylweddol yn deillio o Brexit posibl, newidiadau i drefniadau cyllido myfyrwyr yn Lloegr, gostyngiad demograffig yn y nifer o ymadawyr ysgol a newidiadau i'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) yn gyffredinol, gan gynnwys uchelgeisiau i greu mwy o barch cydradd rhwng llwybrau academaidd a galwedigaethol. Bydd y ffactorau hyn ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau allanol eraill sy'n effeithio ar benderfyniad pobl i gymryd rhan mewn addysg uwch neu beidio yn profi i fod yn her ar gyfer gwerthusiad effaith ystyrlon a thrylwyr o'r diwygiadau.

5.7 Argymhelliad 1: Gweithredu'n llawn a mireinio ymhellach y dull gwerthuso a ddatblygwyd trwy'r broses adolygu gan gymheiriaid a nodir yn yr adroddiad hwn, gan ganiatáu ar gyfer gwneud addasiadau i ystyried newidiadau polisi perthnasol yng Nghymru a Lloegr.

5.8 Argymhelliad 2: Comisiynu astudiaeth ansoddol hydredol dri-chyfnod o dri cohort o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru fel rhan o bob cyfnod o'r gwerthusiad, wedi eu cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr, yn benodol:

- Byddai cohort cyfnod paratoi[119] yr astudiaeth yn cael eu cyfweld am y tro cyntaf yng ngwanwyn/haf 2019, am yr ail dro yng ngwanwyn/haf 2020 ac am y trydydd tro yng ngwanwyn/haf 2021.
- Byddai cohort cyfnod gwerthuso canol tymor yr astudiaeth yn cael eu cyfweld am y tro cyntaf yng ngwanwyn/haf 2022, am yr ail dro yng ngwanwyn/haf 2023 ac am y trydydd tro yng ngwanwyn/haf 2024.
- Byddai cohort gwerthuso effaith terfynol yr astudiaeth yn cael eu cyfweld am y tro cyntaf yng ngwanwyn/haf 2027, am yr ail dro yng ngwanwyn/haf 2028 ac am y trydydd tro yng ngwanwyn/haf 2029.

5.9 Argymhelliad 3: Comisiynu astudiaeth ansoddol fel rhan o'r cyfnod paratoi gyda myfyrwyr yng Nghyfnod Allweddol 5 (gan gynnwys y rheini mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach) a'u rhieni er mwyn deall dyheadau, rhwystrau ac ysgogiadau mewn perthynas â chymryd rhan mewn addysg uwch.

[119] Am fwy o fanylion ynghylch cyfansoddiad arfaethedig y cohort hwn, gweler Adran 4 o'r adroddiad hwn.

5.10 Argymhelliad 4: Archwilio cyfleoedd i brynu cwestiynau ychwanegol ar arolwg Omnibws Beaufort mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o gymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch ymhlith y boblogaeth gyffredinol.

5.11 Argymhelliad 5: Archwilio cyfleoedd a goblygiadau diogelu data ar gyfer cysylltu data Canlyniadau Hydredol Addysg (LEO) ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar incwm teuluoedd wrth gychwyn ar addysg uwch a derbyn benthyciad i fyfyrwyr.

5.12 Argymhelliad 6: Archwilio cyfleoedd i gymharu setiau data addysg uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru â setiau data addysg uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Loegr.

## Atodiad 1 – Cyflwyno graddol y diwygiadau i gymorth myfyrwyr

Mae'r dull graddol o gyflwyno'r diwygiadau fel a ganlyn;

*Argymhellion a dderbyniwyd, gyda'r bwriad o'u gweithredu 2017/2018:*

- Llywodraeth Cymru i ofyn i CCAUC gasglu gwybodaeth cost "basged o nwyddau" gan Brifysgolion (gyda bwriad o gyhoeddi)
- Ymrwymiad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg,
- Edrych i mewn i gyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y dyfodol (gweithredu i sefydlu grŵp tasg i adolygu gweithareddau a pherthynas y Coleg).

*Argymhellion i'w gweithredu o 2018/19 ymlaen:*

- Dylai cymorth i israddedigion ganolbwyntio ar wella cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser,
- Llywodraeth Cymru i ofyn CCAUC archwilio sut y gellir cryfhau cynlluniau ffioedd a mynediad yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru – helaethu mynediad a sicrhau mynediad teg i addysg uwch,
- Llywodraeth Cymru i baratoi deddfwriaeth sy'n gwneud myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac sy'n cychwyn eu cwrs yn 2018/19 yn gymwys am fenthyciadau a gymorthdelir i gyrraedd cost llawn ffioedd lle bynnag maent yn astudio yn y DU,
- Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i drefnu system daliadau misol (goblygiadau i'w trafod), ymgynghori ar gynigion am newidiadau i ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth i israddedigion llawn-amser (newidadau yn 2018/19), a sicrhau bod y rheini sy'n gadael lleoliad gofal yn derbyn y lefel uchafswm o grant cynhaliaeth o 2018/19.
- Paratoi deddfwriaeth ar gynigion cymorth cynhaliaeth a ffioedd dysgu, gofyn am syniadau ar sut i hyrwyddo astudio ar ddwyseddau is, ymgynghori ar gynigion ar gyfer ffioedd dysgu israddedigion rhan-amser, archwilio pa bynciau/meysydd blaenoriaeth y gellir eu hychwanegu at y rhestr bresennol o eithriadau ar gyfer cymwysterau lefel mynediad.
- Ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer cymorth i israddedigion, gan gyflwyno newidiadau yn 2018/19.
- Archwilio cyfleoedd i reoleiddio niferoedd myfyrwyr a darparu cyrsiau costau uwch i sicrhau cynaliadwyedd hyn, gofyn i CCAUC ystyried sut i reoli'r ddarpariaeth o daliadau i adlewyrchu'r gost o addysgu pynciau drutach.
- Rhoi ystyriaeth bellach i system gymorth i fyfyrwyr sy'n dewis astudio'r tu allan i'r DU (gan ystyried effaith Brexit), gwerthuso dynodiad cyrsiau addysg uwch a sut y

caiff sefydliadau eu rheoleiddio o safbwynt ansawdd a rheolaeth ariannol, rhedeg cynllun peilot i archwilio ymarferoldeb ymestyn y pecyn cymorth myfyrwyr y tu hwnt i'r DU a'r UE.
- Derbyn yr angen ar i sefydliadau addysg uwch adrodd ar eu defnydd o gyllid ymchwil o ansawdd da (QR).

*Argymhellion a dderbyniwyd ar gyfer eu gweithredu yn y dyfodol:*

- Argymhelliad ar gymhellion i raddedigion – cymell myfyrwyr i aros yng Nghymru ar ôl iddynt raddio,
- Argymhellion ar gymorth wedi'i dargedu (i fyfyrwyr sydd â chyfrifoldebau ychwanegol etc) – paratoi deddfwriaeth i fyfyrwyr sydd wedi bod yn ofalwyr gael yr uchafswm o grant cynaliaeth, gweithgor i ystyried lwfans i fyfyrwyr anabl (DSA), ystyried cymorth pellach i fyfyrwyr sy'n ofalwyr a sut y gallant gyfuno eu hastudiaeth â chyfrifoldebau gofalu.
- Argymhellion ar gyllid ymchwil i raddedigion – archwilio 'Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil Ôl-raddedig Cymru' a'r argymhellion ar sut y dylid ei sefydlu.
- Argymhelliad ar gysylltiadau rhyng-lywodraethol a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr – gofyn am gyfarfodydd rheolaidd gyda gweinidogion i drafod datblygiadau polisi a gweithredu diwygiadau i gyllid myfyrwyr, datblygu trefniadau comisiynu amgen er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu diwygiadau polisi mewn modd prydlon, cwmpasu dewisiadau eraill heblaw'r Cwmni Benthygiadau i Fyfyrwyr ar gyfer gweinyddu Cyllid Myfyrwyr Cymru.
- Argymhellion ar addysg alwedigaethol a thechnegol uwch – angen cynyddu rhaglenni prentisiaethau lefel uwch, gofyn i CCAUC ddatblygu buddsoddiad mewn prentisiaethau lefel uwch.

*Argymhellion a gaiff eu hystyried:*

- Argymhelliad y dylai Cymdeithas Ddysgedig Cymru dderbyn cyllid o £1 miliwn y flwyddyn,
- Argymhelliad y dylai CCAUC gael swm o gyllid heb ei ddynodi ar gyfer gyrru newid mewn meysydd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

*Argymhellion a wrthodwyd:*

- Pynciau Ôl-raddedig Costau Uwch a addysgir,
- Addysg alwedigaethol a thechnegol uwch.

*Argymhelliad a nodwyd:*

- Adolygiad o gefnogaeth Llywodraeth Cymru i Wasg Prifysgol Cymru – datblygu cynllun busnes cynaliadwy i'r Wasg.

## Atodiad 2 – Rhestr o Ddogfennaeth a Ffynonellau Data Posibl

**Rhestr dogfennau**

- Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru
- Ffyniant i Bawb, 2017
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015
- Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion o'r Adolygiad o Gymorth i Fyfyrwyr a Chyllid Addysg Uwch yng Nghymru ('Adolygiad Diamond')
- Gwerthusiad ffurfiannol ac effaith y Rhaglen Allgyrraedd Gydweithredol Genedlaethol (2018)
- Gwerthusiad o'r Gronfa Ariannol wrth Gefn (2013)
- Gwerthusiad o gymorth ariannol i fyfyrwyr mewn Addysg Bellach yng Nghymru (2015)
- Gwerthusiad o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (2014)
- Gwerthusiad o Grant Dysgu'r Cynulliad (2015)
- Ariannu Teg a Hyblyg: Model Cymreig ar gyfer hyrwyddo ansawdd a mynediad mewn addysg uwch (Adolygiad Rees) (2005)
- Graduate Indebtedness: Its perceived effects on behaviour and life choices - Literature Review (2018)
- Anfantais economaidd-gymdeithasol a phrofiad mewn addysg uwch (2003)

**Rhestr Ffynonellau Data Posibl**

- Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)
- Setiau Data Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (PLASC) a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED)
- Canlyniadau Hydredol Addysg (LEO)
- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
- Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) – Data derbynwyr grantiau a benthyciadau
- Arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr
- Arolwg Cenedlaethol o Arian Myfyrwyr
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Data arolygon poblogaeth blynyddol

- Arolwg Sgiliau Cyflogwyr
- Arolwg Safbwyntiau Cyflogwyr
- Arolwg o’r Llafurlu
- Arolwg Cenedlaethol Cyrchfannau Ymadawyr
- Arolwg Punt yn eich Poced Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
- Arolwg Ymgyrraedd yn Ehangach
- Arolwg Omnibws Beaufort
- Astudiaeth Addysg Cohortau Lluosog Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)
- Astudiaeth Cohort y Mileniwm
- Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)
- Arolwg Graddio CCAUC
- Data Gwasanaeth Mynediad Prifysgol a Cholegau (UCAS)
- Data Gyrfa Cymru – trwy Rwydwaith Ymchwil Data Gweinyddol (ADRC)
- Arolwg Sgiliau a Chyflogaeth
- Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr

## Atodiad 3 – Rhestr Cyfranogwyr

- Prifysgol Caerdydd
    - Chris Taylor – Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)
    - Cynrychiolydd WISERD
    - Cynrychiolwyr WISERD / Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol (x2)
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Y Fonesig Blackburn – Cyn-bennaeth Addysg Uwch Llywodraeth yr Alban
- Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr
- Prifysgol Sheffield Hallam
    - Colin McCaig
- Prifysgol Abertawe
    - Cynrychiolydd Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) / Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol (ADRC)
- Y Brifysgol Agored
- Prifysgolion Cymru
- Llywodraeth Cymru
    - Chris Williams
    - Geoff Owen
    - Cynrychiolwyr ychwanegol (x5)

## Atodiad 4 – Deunyddiau ymchwil

## Adolygiad gan gymheiriaid arbenigol o gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i gymorth myfyrwyr

## Canllawiau pwnc cyfweliad cwmpasu â rhanddeiliaid

Bwriedir y canllawiau pwnc hyn i'w defnyddio ar gyfer cyfweliadau gydag academyddion ac arweinwyr polisi sy'n arbenigo mewn addysg uwch.

Mae diben y cyfweliadau hyn yn ddeublyg:

- Rhan 1: trafod unrhyw enghreifftiau o werthuso diwygiad i gyllid myfyrwyr neu ddiwygiad polisi sy'n rhesymol gymharol, gan gynnwys:
  - Methodolegau gwerthuso
  - Ffynonellau data a graddfeydd amser
  - Anawsterau a heriau
- Rhan 2: gwirio synnwyr ac awgrymu meysydd i'w gwella ar y model rhesymeg drafft a'r dull gwerthuso.

Mae Miller Research wedi cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i arfarnu ac adolygu'n feirniadol y dull arfaethedig o werthuso prif ddiwygiadau Llywodraeth Cymru i gymorth myfyrwyr, argymell gwelliannau a chynnig ffordd ymlaen. Trwy'r cyfweliadau cwmpasu cychwynnol hyn, mae Miller Research yn ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid academaidd ac o'r sector cyhoeddus.

Bydd y model rhesymeg diagramatig diwygiedig a'r dull gwerthuso (gan gynnwys yr atodiadau canlynol: y model rhesymeg lefel uchel drafft, yr asesiad gwerthusadwyedd a'r cynllun gwerthuso drafft) yn cael eu hanfon at randdeiliaid cyn y cyfweliad, i'w hadolygu a'u harfarnu.

**Cyfrinachedd:**

Bydd rhanddeiliaid yn cael eu sicrhau y bydd unrhyw beth a ddywedir yn ystod y cyfweliad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol. Lle defnyddir dyfyniadau uniongyrchol, cymerir gofal na ellir eu priodoli i unrhyw un unigolyn, neu byddwn yn gofyn am eu caniatâd i gael eu dyfynnu.

Gofynnir i randdeiliaid hefyd gadarnhau eu bod yn hapus i'w henw a/neu eu sefydliad gael eu rhestru fel cyfranogwyr yn y broses adolygu gan gymheiriaid.

Bydd y rhai a gyfwelir yn cael eu sicrhau bod yr ymchwil hwn yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau'r Gymdeithas Ymchwil Marchnad, a luniwyd i hyrwyddo proffesiynoldeb wrth gynnal ymchwil marchnad, cymdeithasol a barn.

| | |
|---|---|
| **Y sawl a gyfwelir** | |
| **Rôl/sefydliad** | |
| **Amser/dyddiad** | |
| **Cyfwelydd** | |

**Rhan Un: enghreifftiau o werthusiadau eraill**

1. Allwch chi amlinellu'n fyr eich rhan mewn unrhyw weithgareddau blaenorol o asesu effaith neu effaith posibl diwygiadau i gyllid myfyrwyr neu ddiwygiadau polisi perthnasol eraill?

2. Pa fethodolegau a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad? *Holwch ynghylch cydbwysedd rhwng dulliau uniongyrchol ac anuniongyrchol, meintiol ac ansoddol, y defnydd o asesu gwerthusadwyedd a sut y defnyddiwyd canlyniadau'r asesiad.*

3. Pa ffynonellau data a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad? *Holwch ynghylch mesuriadau llinell sylfaen, y defnydd o grŵp rheoli / mesuriadau o'r gwrth-ffeithiol.*

4. Beth oedd graddfeydd amser cyffredinol y gwerthusiad? Sut oedd y rhain yn gysylltiedig â gweithredu'r diwygiadau/polisi newydd? O edrych yn ôl, a oedd y graddfeydd amser hyn yn addas?

5. Beth oedd y prif anawsterau a'r heriau i'r gwerthusiad? *Awgrymwch os oes angen, diffyg dangosyddion dilys a dibynadwy, diffygion yn y theori newid etc.*

**Rhan 2: Adolygu ac asesu'r model rhesymeg drafft a'r dull gwerthuso**

*Noder mai'r hyn mae'r cyfweliad hwn yn canolbwyntio arno yw ar feirniadaeth o gynlluniau Llywodraeth Cymru i werthuso <u>effaith</u> y diwygiadau. Cynigiwch y dewis i gyfranogwyr dderbyn y cwestiynau mewn neges e-bost a chyflwyno ymatebion mewn ffurf ysgrifenedig, i'w galluogi hwy i ddarllen y cwestiynau ochr yn ochr â'r deunyddiau.*

*Ni fydd pob rhanddeiliad mewn sefyllfa i ateb pob cwestiwn.*

6. I ba raddau mae'r model rhesymeg diagramatig yn nodi mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau perthnasol y diwygiadau i

gymorth myfyrwyr? Esboniwch eich ateb. *Noder: crynhoi elfen allweddol y model os bydd angen.*

7. I ba raddau mae’r model rhesymeg yn egluro’n addas y tybiaethau rhwng mewnbynnau ac effeithiau’r diwygiadau? Esboniwch eich ateb.

8. A oes unrhyw beth ar goll o’r model hwn?

9. I ba raddau mae’r ffynonellau presennol o ddata yn galllu rhoi’r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer y rhaglen werthuso arfaethedig? Pa ffynonellau eraill o ddata all fod eu hangen?

10. I ba raddau fydd y dull gwerthuso arfaethedig yn galluogi Llywodraeth Cymru i lunio casgliadau dilys ac ystyrlon ynghylch effeithiolrwydd ac effeithiau cadarnhaol a negyddol y diwygiadau i gymorth myfyrwyr?

11. Pa newidiadau, os o gwbl, fyddech chi’n eu gwneud i’r dull arfaethedig?

**Diolch am eich amser.**

## Adolygiad gan gymheiriaid arbenigol o gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau i gymorth myfyrwyr

### Agenda Gweithdy Data

**25/09/2018 12:00-13:30**

**Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Ystafell Gyfarfod 4.27**

Mae Miller Research wedi cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i arfarnu ac adolygu'n feirniadol y dull arfaethedig o werthuso prif ddiwygiadau Llywodraeth Cymru i gymorth myfyrwyr, argymell gwelliannau a chynnig ffordd ymlaen.

Fel rhan o'r adolygiad gan gymheiriaid, mae Miller Research yn ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid academaidd ac o'r sector cyhoeddus. Bydd y gweithdy hwn yn gyfle i dîm Miller Research i gyfarfod ag academyddion ac arbenigwyr data yn Llywodraeth Cymru i drafod mynediad at amrywiaeth o ffynonellau data a'r defnydd posibl ohonynt.

**Cyfrinachedd**

Bydd rhanddeiliaid yn cael eu sicrhau y bydd unrhyw beth a ddywedir yn ystod y cyfweliad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol. Lle defnyddir dyfyniadau uniongyrchol, cymerir gofal na ellir eu priodoli i unrhyw un unigolyn, neu byddwn yn gofyn am eu caniatâd i gael eu dyfynnu.

Gofynnir i randdeiliaid hefyd gadarnhau eu bod yn hapus i'w henw a/neu eu sefydliad gael eu rhestru fel cyfranogwyr yn y broses adolygu gan gymheiriaid.

Bydd y rhai a ddaw i'r gweithdy yn cael eu sicrhau bod yr ymchwil hwn yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau'r Gymdeithas Ymchwil Marchnad, a luniwyd i hyrwyddo proffesiynoldeb wrth gynnal ymchwil marchnad, cymdeithasol a barn.

**Agenda**

1. Cyflwyniadau a chroeso
2. Trosolwg o'r model rhesymeg diagramatig
3. Trosolwg o'r ffynonellau data arfaethedig
4. Adolygiad ar y cyd o berthnasedd, dilysrwydd, dibynadwyedd a chyflawnder y ffynonellau data
5. Adolygiad ar y cyd o'r canlyniadau a'r effeithiau yn y model rhesymeg diagramatig ac addasrwydd y ffynonellau data i fesur dangosyddion perthnasol
6. Ystyriaethau eraill – gwrth-ffeithiol ac achosiaeth
7. Cau

# Atodiad 5 – Fframwaith Gwerthuso Llywodraeth Cymru

| | Ffynonellau o dystiolaeth ar adegau gweithredu tymor byr, canolig a hir. | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ffactorau allbynnau, canlyniadau ac effeithiau i'w mesur | Mesuriadau llinell sylfaen (cyn diwygio) sydd ar gael | Data fydd ar gael yn y tymor byr (2 flynedd ar ôl i'r diwygiadau gychwyn, sef blwyddyn academaidd 2020/21) | Data fydd ar gael yn y tymor canolig - blynyddoedd 3,4,5 (blynyddoedd academaidd 2021/2 - 2023/24) | Data fydd ar gael yn y tymor hir - blynyddoedd 6-10 (2025/6-2029/30) |
| **Allbynnau** | | | | |
| **Myfyrwyr a darpar fyfyrwyr posibl** | | | | |
| **Gwell cymorth cynhaliaeth** | Arolwg incwm a gwariant myfyrwyr 2014/15 - data incwm | SIES 2019/20 yn cychwyn cael ei gynllunio. Dylai canlyniadau ddechrau bod ar gael yn 2021. | Arolygon SIES yn y dyfodol | Arolygon SIES yn y dyfodol |
| | Ystadegau blynyddol yn deillio o ddata Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar incwm a chyllid myfyrwyr | Bydd ystadegau Cytundebau Lefel Gwasanaeth blynyddol yn parhau i fod ar gael. | Bydd ystadegau blynyddol Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn parhau i fod ar gael. | Bydd ystadegau blynyddol Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn parhau i fod ar gael. |
| **Myfyrwyr mewn gwell sefyllfa ariannol** | SIES - lefelau o ddyledion heb eu sicrhau (gorddrafft, ôl-ddyledion, credyd) | SIES 2019/20 yn cychwyn cael ei gynllunio. Dylai canlyniadau ddechrau bod ar gael yn 2021. | Arolygon SIES yn y dyfodol | Arolygon SIES yn y dyfodol |
| | Arolwg punt yn eich poced UCM (sefydliadau addysg uwch Cymru yn unig) - myfyrwyr mewn risg o roi'r gorau iddi oherwydd pwysau ariannol | SIES 2019/20 - gobeithio cynnwys cwestiynau ar ganfyddiad myfyrwyr o'u sefyllfa ariannol a risg o roi'r gorau iddi yn sgil pwysau ariannol (ni fydd canlyniadau'n uniongyrchol gymaradwy â chanfyddiadau UCM) | | |
| **Mwy yn ymrestru, ar gyrsiau addysg uwch, yn enwedig yn rhan-amser a/neu ôl-radd ac ymysg grwpiau cyfranogi is** | Data HESA sydd ar gael yn flynyddol. Mae dadansoddiad data yn ôl grŵp cymdeithasol wedi ei gyfyngu i gwinteli cyfranogiad ardaloedd lleol. Mae astudiaeth ehangu mynediad WISERD wedi dyddio bellach - seiliedig ar fyfyrwyr yn cychwyn mewn addysg uwch yn 2010/11 neu ynghynt.<br>Mae data ar gael i sefydlu llinell sylfaen ar gyfer amrywiaeth o nodweddion | Data ar gael, ond dadansoddiad wedi'i gyfyngu i edrych ar batrymau ymrestru ymhlith cwintilau cyfranogiad ardaloedd lleol yn y tymor byr | Cyfateb a dadansoddi data gweinyddol gan<br>Dylid gwneud y gwaith uchod mewn dau gyfnod. Byddai'r cyfnod tymor canol yn canolbwyntio ar newidiadau mewn patrymau ymrestru | Byddai'r cyfnod tymor hir yn canolbwyntio ar newidiadau mewn patrymau ymrestru, cadw a chwblhau. |
| | Mae CCAUC yn defnyddio data HESA i asesu perfformiad sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wrth Ehangu Mynediad a thuag at nodau eraill, ond mae'r rhain yn canolbwyntio ar y sefydliadau ac nid ar fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. | [Angen ychwanegu rhywfaint o fanylion ynghylch pa ddata allai fod ar gael a pha bryd] | | |
| **Lleihau effaith cyllid fel rhwystr i ymrestru, parhau a chwblhau mewn addysg uwch** | Cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19 ar rwystrau a chynlluniau astudio sampl o drigolion Cymru - data i fod ar gael at ddiwedd 2019. | Bydd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019 ar gael | Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynllunio ar gyfer ailadrodd y cwestiynau NSW bob tair blynedd, felly dylai fod canlyniadau newydd yn hwyr yn 2022 | Bydd ailadrodd pellach mewn 3 blynedd wedyn yn golygu data pellach ar gael yn hwyr yn 2025 |
| | SIES 2014/15 - cwestiynau ar effaith cymorth myfyrwyr ar benderfyniadau astudio | SIES 2019/20. Dylai canlyniadau ddechrau bod ar gael yn 2021. | Arolygon SIES yn y dyfodol | Arolygon SIES yn y dyfodol |
| **Lleihau effaith pwysau ariannol ar lesiant myfyrwyr** | Dim llawer o wybodaeth ar gael. Rhai posibiliadau yw:<br>Archwilio canfyddiadau punt yn eich poced UCM ac arolygon eraill (ee Arolwg Cenedlaethol Arian Myfyrwyr) am drylwyredd a chanfyddiadau perthnasol.<br>Ymchwil ansoddol ôl-weithredol ar y cyfnod tymor byr ymysg cynghorwyr myfyrwyr | SIES 2019/20 - astudiaeth ansoddol ddilynol. Dylai canlyniadau ddechrau bod ar gael yn 2021. | Arolygon SIES yn y dyfodol | Arolygon SIES yn y dyfodol |
| **Sefydliadau Addysg Uwch** | | | | |
| **Cynyddu incwm sefydliadau addysg uwch o ffioedd** | Gwybodaeth cyllideb Llywodraeth Cymru ar incwm ffioedd myfyrwyr sefydliadau addysg uwch - blynyddol | Gwybodaeth cyllideb Llywodraeth Cymru ar incwm ffioedd myfyrwyr sefydliadau addysg uwch - blynyddol | Gwybodaeth cyllideb Llywodraeth Cymru ar incwm ffioedd myfyrwyr sefydliadau addysg uwch - blynyddol | Gwybodaeth cyllideb Llywodraeth Cymru ar incwm ffioedd myfyrwyr sefydliadau addysg uwch - blynyddol |
| **Cryfhau sefyllfa ariannol darparwyr addysg uwch Cymru** | Data HESA a ffurflenni sefydliadau addysg uwch a ddychwelir at CCAUC ar eu cyllid - blynyddol | Data HESA a ffurflenni sefydliadau addysg uwch a gaiff eu dychwelyd at CCAUC ar eu cyllid - blynyddol | Data HESA a ffurflenni sefydliadau addysg uwch a gaiff eu dychwelyd at CCAUC ar eu cyllid - blynyddol | Data HESA a ffurflenni sefydliadau addysg uwch a gaiff eu dychwelyd at CCAUC ar eu cyllid - blynyddol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau addysg uwch/Ôl-16 eraill Llywodraeth Cymru** | | | | |
| **Cynyddu dyraniad i flaenoriaethau eraill addysg uwch ac addysg bellach** | Angen mwy o wybodaeth ar beth yw'r blaenoriaethau eraill. Dylai fod yn bosibl casglu manylion ar flaenoriaethau gan uwch-reolwyr, a gwariant o ddata cyllid addysg uwch nawr ac yn y dyfodol. | Gweler nodiadau yn y golofn llinell sylfaen | Gweler nodiadau yn y golofn llinell sylfaen | Gweler nodiadau yn y golofn llinell sylfaen |
| **Effeithiau** | | | | |
| **Gwelliant yn addysg a lefelau cymwysterau'r llafurlu, a ddylai arwain at fuddion iechyd, llesiant a thwf economaidd.** | Data arolygon poblogaeth blynyddol | Data Arolygon Poblogaeth Blynyddol | Data Arolygon Poblogaeth Blynyddol | Data Arolygon Poblogaeth Blynyddol |
| **Cynyddu graddau sgiliau a chymwysterau lefel uwch ymysg llafurlu Cymru** | Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015, Arolwg safbwyntiau cyflogwyr 2016 | Arolwg safbwyntiau cyflogwyr 2019, Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2020 | Nid yw'n glir beth yw cynlluniau Arolygon Sgiliau Cyflogwyr ac Arolygon Safbwynt Cyflogwyr yn y dyfodol, ond os na fyddant yn parhau, mae'n debygol o fod rhyw fath o arolwg i gymryd eu lle. | Nid yw'n glir beth yw cynlluniau Arolygon Sgiliau Cyflogwyr ac Arolygon Safbwynt Cyflogwyr yn y dyfodol, ond os na fyddant yn parhau, mae'n debygol o fod rhyw fath o arolwg i gymryd eu lle. |
| **Y system gyllido yn fforddiadwy ac yn galluogi sefydliadau i barhau'n hyfyw yn ariannol.** | Gwariant Llywodraeth Cymru ar gymorth i fyfyrwyr - mae gennym y data hwn<br><br>Data HESA a ffurflenni sefydliadau addysg uwch a ddychwelir at CCAUC ar eu cyllid - blynyddol | Gwariant Llywodraeth Cymru ar gymorth myfyrwyr - mae gennym y data hwn<br><br>Data HESA a ffurflenni sefydliadau addysg uwch a ddychwelir at CCAUC ar eu cyllid - blynyddol<br><br>Barnau rhanddeiliaid a sefydliadau addysg uwch ynghylch cynaliadwyedd a hyfywedd ariannol - dulliau arolwg | Gwariant Llywodraeth Cymru ar gymorth myfyrwyr - mae gennym y data hwn<br>Data HESA a ffurflenni sefydliadau addysg uwch a gaiff eu dychwelyd at CCAUC ar eu cyllid - blynyddol<br>Barnau rhanddeiliaid a sefydliadau addysg uwch ynghylch cynaliadwyedd a hyfywedd ariannol - i'w geisio trwy gyfweld | Gwariant Llywodraeth Cymru ar gymorth myfyrwyr - mae gennym y data hwn<br><br>Data HESA a ffurflenni sefydliadau addysg uwch a gaiff eu dychwelyd at CCAUC ar eu cyllid - blynyddol<br><br>Barnau rhanddeiliaid a sefydliadau addysg uwch ynghylch cynaliadwyedd a hyfywedd ariannol - i'w geisio trwy gyfweld |
| | | | | |
| | | Cyfnod gwerthuso ffurfiannol | Cyfnod gwerthuso tymor canolig | Cyfnod gwerthuso tymor hir |
| **Tasgau mewnol** | Parhau i ddatblygu'r defnydd o ffynonellau data gweinyddol allweddol. Y cyfosod data ar gyfer ymadawyr CA5 a'r dadansoddi cyrchfannau, a wneir gan dîm Rachel Lloyd yw'r set ddata allweddol i adeiladu ar hyn - ddim yn sicr a yw hyn wedi cael ei gynllunio ar gyfer y dyfodol. | | | |
| | Cyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau Arolwg Cenedlaethol Cymru. Cynnal arolwg dilynol ymysg rhai sy'n gobeithio dilyn addysg uwch am y rhwystrau? | Adroddiad ar arolwg dilynol Arolwg Cenedlaethol Cymru o rai sy'n gobeithio mynd i addysg uwch. | Gan ddibynnu ar bod cwestiynau Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cael eu hailadrodd, dylai fod diweddariad ar gael yn 2022/23 | |
| | Cadw ar y blaen i ymchwil a gwerthuso addysg uwch ynghylch ehangu mynediad a'r hyn sy'n gweithio ledled y DU. | | | |
| | Datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau sy'n cynnal arolygon ymhlith myfyrwyr er mwyn dylanwadu ar y rhain a'u defnyddio fel ffynonellau data.<br>- Cadw ar y blaen i ganlyniadau o arolygon - yn enwedig arolygon HESA o rwystrau astudio i ymadawyr addysg uwch, ac arolygon boddhad cwsmeriaid y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.<br>- Ceisio caniatâd gan ymatebwyr i gysylltu â ffynonellau data gweinyddol lle bo'n bosibl.<br>- Ceisio sicrhau ansawdd gwaith arolwg lle mae cwestiynau ynghylch ansawdd | | | |
| | Datblygu'r SIES nesaf ar y cyd ag Adran Addysg Lloegr. Gallai arolwg yn 2020/21 fod yn well nag yn 2019/20, gan y byddai hyn yn dal tair blynedd o gohort myfyrwyr ar ôl i ddiwygiadau 2018/19 ddod i rym. Gallai'r datblygiadau gynnwys:<br>- caniatâd gan ymatebwyr i gysylltu â setiau data eraill<br>- cynyddu samplau myfyrwyr rhan-amser, myfyrwyr â chyfrifoldebau gofal plant,<br>- cwestiynau ychwanegol ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod<br>- potensial ar gyfer gwaith ansoddol dilynol | Byddai darn o waith sy'n ymchwilio i newidiadau mewn agweddau tuag at ddyled ymysg darpar fyfyrwyr yn ddefnyddiol yma. Byddai arolwg boddhad cwsmeriaid y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ddefnyddiol.<br>Mae angen inni ymchwilio pa arolygon eraill y gallwn eu defnyddio i'n helpu ni ddarganfod mwy am hyn. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwaith i'w gomisiynu** | | Gellid cynnal tasg gyflym i asesu tystiolaeth yn fewnol er mwyn tynnu ynghyd ganlyniadau ymarferion ymchwil ledled y DU i ymddygiad, rhwystrau ac agweddau (gellid comisiynu hyn os nad yw adnoddau mewnol yn caniatáu). | Astudiaeth werthuso interim yn 2022/3. Ar gyfer israddedigion llawn-amser, canolbwyntio ar ddadansoddiad o setiau data cyfatebol am gyfundrefn 2012-2018 (cohortau blwyddyn 11 yn 2009/10-2014/15 ) a chymharu patrymau ymrestru a chadw gyda blynyddoedd 11 yn 15/16-17/18 (israddedigion llawn-amser blwyddyn 3 yn 22/23) bydd nodweddion myfyrwyr rhan-amser ac ôl-radd yn fwy problematig. | Comisiynu astudiaeth werthuso effaith dros dymor hir yn . Penderfyniad terfynol ynghylch cwestiynau a dull i'w benderfynu'n ddiwedarach, a bydd yn dibynnu ar bryderon a blaenoriaethau ar y pryd, ond y posibiliadau yw:<br>- Cyfuno canfyddiadau o'n harolygon ein hunain.<br>- Cynnwys dadansoddiad a gomisiynwyd o setiau data gweinyddol a roddwyd at ei gilydd. (Gallwn adeiladu ar astudiaeth interim gan E,R,C ar gyfer cohortau yn y dyfodol - cwblhau addysg uwch yn<br>- adolygiad o lenyddiaeth ar ehangu mynediad a chanlyniadau arolygon ac astudiaethau perthnasol eraill.<br>- Tynnu ynghyd dystiolaeth ar lefleau cymwysterau gweithluoedd o Arolygon Sgiliau Cyflogwyr ac Arolygon Safbwynt Cyflogwyr a'r hyn fydd yn cymryd eu lle. Arolwg Poblogaeth Blynyddol. |
| | | Bydd angen i gostau sy'n gysylltiedig â SIES gael eu talu yn y flwyddyn hon. | Bydd canlyniadau SIES yn hysbys yn 2021/2. Bydd gennym y potensial i gomisiynu dadansoddiad pellach o ddata SIES ac astudiaeth ansoddol ddilynol mewn pryd i fod yn sail ar gyfer ymarfer gwerthuso yn 2022/23 | |

# Atodiad 6 – Asesiad Gwerthusadwyedd Llywodraeth Cymru

| 1. **Cynllun y Prosiect** (fel y'i disgrifir mewn Theori Newid, Fframwaith Rhesymegol neu natatif) | | **Nodiadau** |
|---|---|---|
| **Eglurder?** | A yw'r effaith hirdymor a'r canlyniadau wedi eu nodi'n glir, ac a yw'r camau arfaethedig tuag at gyflawni'r rhain wedi'u diffinio'n glir? | Mae'r prif ddiwygiadau, a'r rhai ac iddynt fwyaf o arwyddocâd ariannol, yn golygu newidiadau i gymorth i israddedigion llawn-amser a rhan-amser, a chymorth ariannol i fyfyrwyr ôl-radd a addysgir.<br><br>Mae nifer o ddiwygiadau pellach y bwriedir eu gweithredu yn y tymor byr, y tymor canolig neu'n fwy hirdymor. Maent yn ymwneud ag amrywiaeth helaeth o faterion:<br>• cymorth i fyfyrwyr tramor israddedig<br>• cymelliannau i raddedigion weithio yng Nghymru, cymorth i fyfyrwyr difreintiedig<br>• myfyrwyr ymchwil ôl-radd<br>• y cwmni benthyciadau i fyfyrwyr<br>• addysg alwedigaethol a thechnegol<br>• cyllid i gefnogi a datblygu sefydliadau a blaenoriaethau a fydd yn hyrwyddo agenda Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae manylion yr ymdriniaethau polisi ar gyfer y diwygiadau hyn wrthi'n cael eu paratoi ar hyn o bryd. Er bod dibenion y diwygiadau hyn wedi cael eu pennu, nid yw'r canlyniadau a'r effeithiau wedi cael eu diffinio'n glir eto. Yn rhai o'r diwygiadau pellach hyn, mae ymchwil a gwaith ystadegol ar y gweill ar hyn o bryd, neu'n cael ei gynllunio, i osod sail i'r ymdriniaethau polisi a ystyrir.<br><br>Nod y diwygiadau, yn gyffredinol, yw cyflawni'r canlynol:<br>• Symud cymorth myfyrwyr oddi wrth gymorth ffioedd, tuag at well cymorth cynhaliaeth<br>• Cael gwared ar rwystrau ariannol i ymrestru, cadw a chwblhau mewn addysg uwch, yn enwedig i grwpiau cynrychioliaeth is<br>• Creu system ariannol gynaliadwy a sefydlog i addysg uwch, gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol sefydliadau a gallu hirdymor cyllidebau Llywodraeth Cymru i |

| | | |
|---|---|---|
| | | gefnogi holl flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch.<br>Er mwyn ei gadw dan reolaeth, nid yw'r asesiad gwerthusadwyedd hwn ond yn ymwneud â newidiadau i gymorth cynhaliaeth a ffioedd dysgu israddedigion a graddedigion llawn-amser a rhan-amser, a'r lefel a argymehllir ar gyfer ffioedd dysgu.<br>O ran **cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr llawn-amser a rhan-amser**, mae'r allbynnau a'r canlyniadau wedi cael eu diffinio'n bur dda:<br>• Allbwn: cynyddu cymorth cynhaliaeth<br>• Allbwn: cynyddu ymwybyddiaeth ymysg darpar ymgeiswyr am eu dewisiadau ariannol ac atyniad y trefniadau ad-dalu newydd ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr.<br>• Canlyniad: Ehangu mynediad, graddau cadw a chwblhau ymysg pob grŵp a chulhau'r bylchau rhwng grwpiau cyfranogiad is<br>• Canlyniad: Cynyddu'r gyfran o bobl o bob oed a chefndir sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch ar lefelau israddedig ac ôl-radd ac israddedig mewn modd rhan-amser.<br>• Canlyniad: Lleihau effaith rhwystrau ariannol ar rhwystrau rhag cychwyn, dal ati a chwblhau mewn addysg uwch<br>• Canlyniad: Lleihau effaith pwysau ariannol ar lesiant myfyrwyr<br>• Canlyniad: Lleihau'r ddibyniaeth gan fyfyrwyr ar ffurfiau drud o gyllid – credyd, gorddrafftau ac ôl-ddyledion.<br>(Un o ganlyniadau negyddol anochel y diwygiadau yw y bydd benthyciadau myfyrwyr a dyled net yn cynyddu. Mae'n debygol hefyd y bydd gwariant myfyrwyr yn cynyddu (mae tystiolaeth hanesyddol gref bod cynnydd mewn incwm myfyrwyr yn arwain at gynnydd yn eu gwariant hefyd).<br>O ran **cael gwared ar grantiau ffioedd dysgu a benthyciadau i gymryd eu lle**, nid yw'r ffordd y caiff canlyniadau eu diffinio lawn mor eglur. Y canlyniadau yw:<br>• Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i weithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru y tu allan i gymorth i fyfyrwyr – gall y blaenoriaethau hyn newid dros amser. Bydd rhai ohonynt yn cael eu hadlewyrchu yng nghylch gwaith CCAUC, a adnewyddir bob blwyddyn, a gallant fod yn gysylltiedig â grantiau wedi'u neilltuo. Gall |

| | | |
|---|---|---|
| | | blaenoriaethau eraill fod yn cael eu gweithredu mewn gwahanol ffyrdd a gallant hyd yn oed gael eu cyfeirio tuag at flaenoriaethau addysg y tu allan i addysg uwch.<br>• Mae'r diwygiadau i gymorth i fyfyrwyr, o'u cymryd fel cyfanrwydd, wedi eu cynllunio fel eu bod yn hwyluso mynediad ac yn galluogi cynnydd mewn cyfranogiad mewn addysg uwch gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Mae'n rhesymegol felly y bydd effaith cadarnhaol diwygiadau i gymorth cynhaliaeth ar fynediad, cadw a chwblhau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn gwrthbwyso unrhyw effaith negyddol ar gyfranogi sy'n deillio o ddisodli grant ffioedd â benthyciad ffioedd.<br>• Cryfhau sefyllfa ariannol darparwyr addysg uwch – yn benodol cynyddu'r swm o incwm o ffioedd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.<br><br>Nid yw effeithiau'r **gyfres o'r prif ddiwygiadau i ffioedd a chynhaliaeth myfyrwyr** wedi eu diffinio cystal ac maent yn llai penodol:<br><br>• Cynyddu'r gyfran o'r boblgaeth sydd wedi cymhwyso i lefel 4 neu uwch – wedi'i ddiffinio'n dda<br>• Creu system gyllido sy'n parhau'n fforddiadwy o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru ac sy'n galluogi sefydliadau addysg uwch barhau'n hyfyw yn ariannol<br>• Cyfrannu at ddiwallu'r galw a ragamcenir mewn galw economaidd a galw gan gyflogwyr am sgiliau a chymwysteru lefel uwch yn y farchnad lafur<br>• Trwy gyfrannu at boblogaeth ac iddi well cymwysterau, cyfrannu at dwf economaidd, gwelliannau mewn iechyd a llesiant a chydlyniant cymdeithasol – heb ei ddiffinio cystal.<br><br>**Theorïau newid**<br><br>Y theorïau sy'n cysylltu mewnbynnau (y cynnig cyllid) ag allbynnau (darpariaeth cymorth ariannol) a chanlyniadau (parhau ymrestru, cadw a chwblhau; model cyllido mwy cynaliadwy i addysg uwch; mwy o fuddsoddiad ym mlaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch) yw:<br><br>Bydd y gwell cynnig grantiau a benthyciadau cymorth cynhaliaeth yn:<br><br>• Arwain at fyfyrwyr yn teimlo bod eu hastudiaeth addysg uwch yn fwy fforddiadwy nag ar hyn o bryd, a bod cwrs addysg uwch, ar y cyfan, yn well buddsoddiad, nag maen |

| | | |
|---|---|---|
| | | nhw'n ei deimlo ar hyn o bryd.<br>• Lleihau effaith rhwystrau ariannol a modd myfyrwyr ar ymrestru, cadw a chwblhau, a, gan reoli ar gyfer ffactorau eraill, cynyddu tueddiad darpar fyfyrwyr i ymrestru, lleihau eu tueddiad i roi'r gorau iddi a chynyddu eu tebygolrwydd o gwblhau cyrsiau. Bydd yn gwneud hyn trwy gyfrannu at fyfyrwyr yn datblygu'r farn fod astudio yn fwy fforddiadwy<br>    • Mae'r ffactorau hyn yn achosi gwell ymrestru, cadw a chwblhau, yn enwedig ymysg grwpiau rhan-amser, ôl-radd ac incwm is.<br><br>Nid yw tystiolaeth am effaith dyled bosibl ar ymddygiad darpar fyfyrwyr yn doreithiog nac yn ddiweddar. Mae hefyd weithiau'n ei wrth-ddweud eu hun. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos nad yw cynnydd mewn ffioedd yn effeithio ar gyfranogiad, lle bo grantiau neu fenthyciadau ar gael i'w talu. Mae tystiolaeth o wrthwynebu dyledion, yn fwy cyffredin ymysg grwpiau difreintiedig, yn sgil y baich seicolegol mae darpar ddyled yn ei achosi ar fyfyrwyr. Mae cysylltiad gwrthgyfartal rhwng y gwrthwynebiad mwyaf i ddyledion a chymryd rhan. Mae astudiaethau (unwaith eto, heb fod yn rhai diweddar) wedi canfod bod darpar fyfyrwyr yn llai goddefgar at ddyled na myfyrwyr a graddedigion presennol. Mae astudiaethau diweddar yn dangos bod effaith ofni dyledion wedi lleihau'n ddiweddar yn y DU, gan fod addysg uwch yn norm a ddisgwylir fwyfwy i bob grŵp cymdeithasol ac sydd bellach yn cael ei weld fel rhywbeth hanfodol wrth sicrhau cyflogaeth. Fodd bynnag, mae gwrthwynebu dyled wedi gostwng ymhlith y dosbarthiadau cymdeithasol uwch, ac wedi cynyddu ymhlith dosbarthiadau cymdeithasol is, ac mae'n llawer uwch ymhlith myfyrwyr mewn addysg bellach o gymharu â sefydliadau eraill. Mae gwrthwynebu dyledion yn dal i gyfrannu at gyfranogiad is mewn addysg uwch gan fyfyrwyr dosbarthiadau is – effaith y canfuwyd ei fod yn gryfach yn 2015 nag yn 2002.<br><br>Bydd y trefniadau uchafymiau ffioedd newydd yn:<br>• Galluogi sefydliadau addysg uwch i ragfynegi'n fwy hyderus eu lefelau o incwm, a fydd yn arwain at amgylchedd ariannol mwy sicr iddynt.<br><br>Bydd cost is cymorth myfyrwyr i Lywodraeth Cymru'n golygu:<br>• Pan fydd costau cymorth yn cychwyn lleihau (wrth i drefn 2012-2018 gael ei diddymu'n raddol, bydd Llywodraeth Cymru'n gwario adnoddau a ryddheir ar flaenoriaethau eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar gyfer addysg uwch). |
| **Perthnasol?** | A yw amcan y prosiect yn amlwg yn berthnasol i anghenion y grŵp targed, fel y nodwyd gan unrhyw fath o ddadansoddiad o'r sefyllfa, astudiaeth sylfaenol, neu unrhyw dystiolaeth a dadl arall? A yw'r grŵp buddiolwr arfaethedig wedi ei nodi'n glir? | Mae'r amcan o ddarparu swm uwch o gymorth cynhaliaeth yn y dyfodol yn amlwg berthnasol i un grŵp targed: darpar fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, ac yn y dyfodol, myfyrwyr gwirioneddol sy'n hanu o Gymru. Mae nifer o is-grwpiau o ddiddordeb penodol – myfyrwyr rhan-amser, grwpiau cyfranogiad is, rheini, rhai sy'n gadael gofal etc. Fodd bynnag, gan na ellir rhagamcanu gydag unrhyw fanylder beth fydd nifer yr ymgeiswyr yn y dyfodol, nid yw'n bosibl adnabod yn glir y prif grŵp o fuddiolwyr.<br><br>Mae rhywfaint o dystiolaeth[120] fod cyfranogiad isel, cyfraddau gwael o aros ymlaen a chwblhau yn gysylltiedig â dod o deulu incwm is ac o beidio â derbyn cymorth ariannol y wladwriaeth.<br><br>Mae nifer o grwpiau buddiolwyr uniongyrchol eraill o'r diwygiadau i gymorth a ffioedd myfyrwyr:<br>• Myfyrwyr o fannau eraill yn yr UE – mae'r grŵp hwn hefyd heb ei ddiffinio'n dda, oherwydd yr un ffactorau â'r grŵp myfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Hefyd, gall Brexit arwain at Lywodraeth Cymru yn cael ei gorfodi i amrywio'r cynnig presennol i'r grŵp hwn.<br>• Darparwyr addysg uwch, a'r staff maent yn eu cyflogi, y mae eu swyddi a'u hamodau gwaith yn ddibynnol ar sefydlogrwydd ariannol sefydliadau addysg uwch. |
| **Credadwy?** | A oes cadwyn achosol barhaus, yn cysylltu'r asiantaeth ymyrrol ag effaith terfynol y pryder?<br><br>A yw'n debygol y gellid cyflawni amcan y prosiect, o ystyried yr ymyriadau a gynlluniwyd, yn ystod cyfnod y prosiect? A oes | O ran y canlyniadau a ddymunir ar gyfer y diwygiadau:<br><br>Mae'r cysylltiadau rhwng y cynnig cymorth diwygiedig i fyfyrwyr a denu myfyrwyr yn gryf, ond effeithir arnynt gan amrywiaeth helaeth o ffactorau.<br>• Canfyddiad myfyrwyr o fanteision addysg uwch, i wella eu rhagolygon gyrfaoedd a'u profiadau<br>• Teimladau myfyrwyr ynghylch dyled a'u dealltwriaeth o gostau bywyd myfyrwyr<br>• Ffactorau macro-economaidd, gan gynnwys cyfraddau cyflogaeth a chost byw sy'n dylanwadu ar ddewisiadau astudio a gyrfaoedd |

[120] https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20180511111540/https://www.offa.org.uk/wp-content/uploads/2015/03/Literature-review-PDF.pdf; Pound in your pocket,Wales 2014

| | | |
|---|---|---|
| | tystiolaeth o fannau eraill y gellid ei gyflawni? | • Y graddau mae cyngor gyrfaoedd ar gael, a'i effaith<br>• Y math a'r nifer o leoedd cwrs ar gael ar gyrsiau.<br><br>Mae cyfraddau parhau a chwblau gan fyfyrwyr hefyd yn cael ei ddylanwadu'n uniongyrchol gan y cynnig o gymorth a chan y ffactorau macro-economaidd uchod, fodd bynnag, mae ffactorau eraill hefyd:<br><br>• Ffactorau astudio gwahanol sefydliadau, megis ansawdd yr addysg a'r cyrsiau a gynigir<br>• Teimlad myfyrwyr o ymlynu ac o berthyn yn ystod y profiad addysg uwch<br>• Cost lleol byw a chymryd rhan.<br><br>O ran y gadwyn achosol sy'n cysylltu lefelau ffioedd a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a chynaliadwyedd ariannol sefydliadau, mae'r cysylltiadau eto'n gryf, ond mae ffactorau eraill hefyd yn bwysig, gan gynnwys:<br><br>• Ffactorau macro-economaidd<br>• Ffynonellau eraill o gyllid – Cynghorau Ymchwil a chyllidwyr ymchwi erall, gan gynnwys yr UE (rhywbeth y mae Brexit yn debygol o effeithio arno)<br>• Costau gwasanaethau, cyfleustodau a deunyddiau crai.<br><br>O ran yr effeithiau a ddeisyfir ar gyfer y diwygiadau, mae cysylltiadau achosol yn llai eglur. |
| **Dilysrwydd a dibynadwyedd?** | A oes dangosyddion *dilys* ar gyfer pob digwyddiad a ddisgwylir (lefelau allbwn, canlyniad ac effaith)? h.y. a fyddant yn crynhoi'r hyn y disgwylir iddo ddigwydd? A ydynt yn ddangosyddion *dibynadwy?* h.y. a fydd arsylwadau arsylwyr gwahanol yn dod i'r un casgliadau? | Mae llawer o ddangosyddion dilys i fesur allbynnau a chanlyniadau mewn perthynas â graddau o gyfranogi, parhau a chwblhau ymhlith myfyrwyr, a gellir monitro'r rhain ar gyfer gwahanol grwpiau (grwpiau cydraddoldeb, grwpiau meini prawf cymorth cyllid (ee gwahanol is-grwpiau gwariant) i ddangos sut mae cymryd rhan a llwyddiant yn amrywio yn ôl grŵp.<br><br>HESA yw'r prif ffynhonnell o ddata ymrestru, cadw a chwblhau. Mae ar gael ar lefel myfyriwr unigol. Mae data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, yr SLC (sy'n gyfan gwbl ar wahân i ddata HESA) yn cynnwys gwybodaeth fanwl am incwm teuluoedd myfyrwyr pan ddefnyddir hyn fel maen prawf dyfarnu.<br><br>Mae gennym hefyd ffynonellau dibynadwy o dystiolaeth arolygon sampl (ee yr Arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr) sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ar lefel Cymru ynghylch sefyllfa ariannol pob myfyriwr (nid dim ond y cymorth gwladwriaethol maent yn ei dderbyn). Fodd bynnag, |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae'r arolygon hyn yn anaml ac mae amser hir i'w ddisgwyl rhwng yr arolwg a'r canlyniadau.<br><br>Mae tystiolaeth arolygon pellach o ganfyddiadau myfyrwyr o'u sefyllfa ariannol, fel arolwg Punt yn eich Poced UCM. Fodd bynnag, nid yw ansawdd y dull metholelegol wedi cael ei sicrhau i safonau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth (GSR).<br><br>Yr effeithiau a ddeisyfir gan y diwygiadau o ran sefyllfa ariannol sefydliadau yw cynyddu eu sefydlogrwydd a'u hyfywedd. (Nid ydym yn sicr sut rydym am fonitro cynnydd yn y cyswllt hwn gydag unrhyw ddibynadwyedd na dilysrwydd).<br><br>Yn ôl canlyniad a nodir, **ffyrdd posibl o'u mesur** yw fel a ganlyn:<br><br>• Allbwn: cynyddu cymorth cymhaliaeth – **data SLC.**<br>• Allbwn – mwy o ymwybyddiaeth o'r cynnig / atyniad canfyddedig trefniadau ad-dalu – **cwestiynau arolwg boddhad cwsmeriaid SLC / Arolwg Cenedlaethol Cymru ynghylch dyheadau a rhwystrau.**<br>• Canlyniad: Ehangu mynediad, graddau cadw a chwblhau ymysg pob grŵp a chulhau'r bylchau rhwng grwpiau cyfranogiad is – **data HESA. Dadansoddiad o ddata HESA ar y cyd â data cyfatebol ar nodweddion myfyrwyr o ffynonellau eraill.**<br>• Canlyniad: Cynyddu'r gyfran o bobl o bob oedran a chefndir sy'n gymryd rhan mewn addysg uwch ar lefelau israddedig ac ôl-radd ac israddedig mewn modd rhan-amser. **Fel yn y pwynt blaenorol, cynnwys amcanestyniadau poblogaeth yn ôl grŵp oedran.**<br>• Canlyniad: Lleihau effaith rhwystrau ariannol ar fynediad i addysg uwch, parhau ynddo a'i gwblhau. Nid oes gennym unrhyw systemau tystiolaeth rheolaidd ar gyfer hyn. **Arolygon o'r gorffennol a rhai yn yr arfaeth fyddai'r unig ffynhonnell.**<br>• Canlyniad: Lleihau effaith pwysau ariannol ar lesiant myfyrwyr – nid oes gennym systemau tystiolaeth rheolaidd ar gyfer hyn. **Arolygon o'r gorffennol a rhai yn yr arfaeth fyddai'r unig ffynhonnell.**<br><br>O ran cael gwared ar grantiau ffioedd dysgu a chael benthyciadau yn eu lle, mae'r diffiniadau o'r canlyniadau yn llai clir. Y canlyniadau yw:<br><br>• Cynyddu'r cyllid sydd ar gael i weithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru y tu allan i gymorth i fyfyrwyr – Gall y blaenoriaethau hyn newid dros amser. Bydd rhai ohonynt yn cael eu hadlewyrchu yng nghylch gwaith CCAUC, a gaiff ei adnewyddu |

| | | |
|---|---|---|
| | | bob blwyddyn, a gallant fod yn gysylltiedig â chyllid sydd wedi'i neilltuo. Gall rhai blaenoriaethau gael ei gweithredu mewn ffyrdd gwahanol a gallant hyd yn oed gael eu cyfeirio at flaenoriaethau addysg y tu allan i addysg uwch. **Byddai manylion o'r gwariant gan Lywodraeth Cymru/CCAUC ar wahanol flaenoriaethau addysg uwch, flwyddyn ar ôl flwyddyn yn darparu tystiolaeth ar gyfer hyn, a byddai ar gael yn fewnol.**<br>• Mae'r diwygiadau i gymorth i fyfyrwyr, o'u cymryd fel cyfanrwydd, wedi eu cynllunio fel eu bod yn hwyluso mynediad ac yn galluogi cynnydd mewn cyfranogiad mewn addysg uwch gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru. Mae'n rhesymegol felly y bydd effaith cadarnhaol diwygiadau i gymorth cynhaliaeth ar fynediad, cadw a chwblhau gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn gwrthbwyso unrhyw effaith negyddol ar gyfranogi sy'n deillio o ddisodli grant ffioedd â benthyciad ffioedd. – Mae'n debygol y bydd angen mesur effaith disodli grant ffioedd gan fenthyciad. Unwaith eto, nid oes gennym systemau o dystiolaeth reolaidd ar gyfer hyn. **Arolygon o'r gorffennol ac arolygon arfaethedig fyddai'r unig ffynhonnell, a byddai angen iddynt adnabod myfyrwyr nad oes dim ond y cynnig ffioedd wedi newid iddynt (h.y. nad yw'r cynnig cynhaliaeth wedi newid fawr ddim neu heb newid o gwbl).**<br>• Cryfhau sefyllfa ariannol darparwyr addysg uwch – nid yw'n glir beth mae hyn yn ei olygu. Cyfrifoldeb CCAUC yw goruwchwylio sefyllfa ariannol sefydliadau, fodd bynnag, a chyfyngedig yw rôl Llywodraeth Cymru wrth ei fonitro. **[Mae arnom angen cyngor ynghylch sut y dylid monitro hyn. Cyfrifoldeb CCAUC ydyw ar hyn o bryd i oruchwylio iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch].**<br><br>Mae rhai o'r effeithiau heb eu diffinio cystal ac yn benodol:<br><br>• Cynyddu'r gyfran o boblogaeth sydd wedi cymhwyso i lefel 4 neu uwch – **caiff hwn ei fonitro trwy'r Arolwg Poblogaeth Oedolion**<br>• Creu system gyllido sy'n parhau'n fforddiadwy o fewn cyllidebau Llywodraeth Cymru ac sy'n galluogi darparwyr addysg uwch i barhau'n hyfyw'n ariannol). **[Mae arnom angen cyngor ynghylch sut y dylid monitro hyn. Cyfrifoldeb CCAUC ydyw ar hyn o bryd i oruchwylio iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch]**<br>• Cyfrannu at ddiwallu'r cynnig a ragamcenir yn y galw economaidd a'r galw gan gyflogwyr am sgiliau a chymwysterau lefel uwch yn y farchnad lafur. **– Mae'r arolwg sgiliau cyflogwyr ac arolwg safbwyntiau cyflogwyr sydd bob dwy flynedd ar hyn o bryd (gallai hynny newid) roi matrics addas ar lefel ranbarthol (4 yng Nghymru).**<br><br>Mae dangosyddion sy'n seiliedig ar gyfraddau mynediad, cadw, cwblhau ac ar gyllidebau |

| | | |
|---|---|---|
| | | addysg uwch yn ddibynadwy. Mae dangosyddion seiliedig ar ganlyniadau arolygon yn llai dibynadwy, ond gellir gwella hyn trwy weithredu dulliau cadarn a thrylwyr a chysondeb o ran ymdriniaeth.<br><br>Trwy gefnogi poblogaeth sydd â gwell cymwysterau, cyfrannu at dwf economaidd, gwelliannau mewn iechyd.<br><br>Mae corff o dystiolaeth sy'n dangos:<br><br>• y berthynas uniongyrchol, ryngddibynnol rhwng cynyddu lefel cymwysterau ac adroddiadau o well iechyd a llesiant[121].,<br>• perthynas wrthgyfartal, ryngddibynnol rhwng cynyddu lefel cymwysterau a thueddiad at ymddygiadau sy'n cyfyngu ar iechyd – camddefnyddio sylweddau, ysmygu.<br>• perthynas uniongyrchol rhwng cynnydd mewn cynhyrchiant a'r gyfran o'r gweithlu sydd wedi cymhwyso i lefel gradd[122].<br><br>Fodd bynnag, byddai effaith diwygiadau Diamond ar iechyd a thwf economaidd bron yn amhosibl i'w dangos. Yn gyntaf, oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i unrhyw newid hirdymor gweladwy mewn iechyd neu dwf economaidd ymddangos, ac yn ail, y nifer a'r amrywiaeth o ffactorau cydamserol eraill a fydd hefyd yn cyfrannu. (Yn y DU, mae cynnydd yn y gyfradd o raddedigion wedi digwydd yr un pryd â'r gwelliannau sylweddol mewn cyraeddiadau ym mhob cyfnod allweddol dros y ddwy ddegawd ddiwethaf, sydd hefyd wedi effeithio ar y cynnydd hwnnw.) |
| **Profadwy?** | A yw'n bosibl nodi pa gysyllteddau yn y gadwyn achosol sydd yn fwyaf hanfodol o ran llwyddiant y prosiect, ac felly y dylai fod yr hyn mae cwestiynau gwerthuso'n | Mae'r cysylltiadau canlynol yn gwbl allweddol i lwyddiant y diwygiadau:<br><br>• rhwng y **cynnig gwell** a **chyfraddau ymrestru, cadw a chwblhau**, yn gyffredin ac ymysg grwpiau cyfranogiad is, mewn moddau llawn-amser a rhan-amser.<br>• rhwng y **gynnig gwell** a **chanfyddiadau o fyfyrwyr / darpar fyfyrwyr a rhieni** o werth y cynnig, eu graddau o bryder ynghylch caledi ariannol a'u dibyniaeth ar ffurfiau drud o gyllid. |

121 http://researchonline.lshtm.ac.uk/11846/1/RevisitingtheBenefitsofHigherEducation.pdf
122 "gellir priodoli o leiaf draean o'r cynnydd o 34% mewn cynhyrchiant llafur rhwng 1994 ac 2005 i'r croniad o sgiliau graddedion yn y llafurlu". https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/229492/bis-13-858-relationship-between-graduates-and-economic-growth-across-countries.pdf

| | | |
|---|---|---|
| | canolbwyntio arno? | • rhwng **cael gwared ar grantiau ffioedd a'u disodli gan fenthyciadau** a'r **gwariant gan Lywodraeth Cymru ar flaenoriaethau eraill addysg uwch**<br>• rhwng yr **uchafswm ffioedd dysgu o £9,000** a **sicrwydd ariannol darparwyr addysg uwch.** |
| **Cyd-destun?** | A yw rhagdybiaethau am rolau chwaraewyr eraill y tu allan i'r prosiect wedi eu nodi'n glir? (galluogwyr a chyfyngwyr) A oes cynlluniau credadwy i fonitro'r rhain mewn unrhyw ffordd ymarferol? | Mae'r ffactorau sy'n ymwneud â chyd-destun yn niferus ac yn gymhleth. Effeithir ar ymrestru, cadw a chwblhau gan y canlynol:<br>• Ymdrechion ac effaith cymorth ar lefel sefydliad ar gadaw a chwblhau. Gall y cymorth a gynigir fod yn ariannol (mae'r data hwn ar gael, ond efallai ar lefel sefydliad yn unig)<br>• Mae mwy yn hysbys am y ffactorau hyn ymysg darparwyr Cymru. Llai ymysg darparwyr Lloegr (mae chwarter yr holl fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, a dau o bob pump o israddedigion yn astudio yn sefydliadau addysg uwch Lloegr).<br>• Effeithiau macro-economaidd – mae cyfraddau cyflogaeth, incymau teuluouedd yn effeithio ar geisiadau a chadw.<br>• Gweithgareddau marchnata ac ehangu mynediad ar lefel genedlaethol (cychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru a Cyllid Myfyrwyr Cymru) ac ar lefel sefydliad<br>• Canfyddiad o effaith astudio ar gyfleoedd cyflogaeth.<br>Bydd dull dadansoddi cyfraniadau sy'n ystyried yr holl ffactorau hyn yn angenrheidiol. Mae corff o ymchwil cefndir perthnasol eisoes, ond mae angen iddo gael ei nodi a chydnabod ei gyfraniad. Mae angen buddsoddi mewn casglu tystiolaeth ac ymchwil newydd gan Lywodraeth Cymru. |
| **Cyson?** | A oes cysondeb yn y ffordd y mae'r Theori Newid yn cael ei disgrifio ar draws dogfennau lluosog prosiectau amrywiol (Dylunio, cynlluniau monitro a gwerthuso, cynlluniau gwaith, adroddiadau cynnydd, ac ati) | Ddim mewn gwirionedd. Mae Theori Newid drafft am fod yn destun adolygiad gan gymheiriaid a chyngor. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymhlethdod?** | A oes disgwyl rhyngweithio lluosog rhwng gwahanol gydrannau'r prosiect? [cymhlethu priodoli achosion a nodi effeithiau] Pa mor glir yw'r diffiniadau o'r rhyngweithiau disgwyliedig? | Mae angen mwy o waith ar y maes hwn. Cydnabyddir y gall cael gwared ar y grant ffioedd gadw rhai myfyrwyr draw rhag ymgeisio oherwydd eu hofnau o ddyled; tra bydd y cynnig gwell o ran cynhaliaeth yn cael yr effaith gwrthgyferbyniol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfraniadau cymharol hyn wedi cael eu mesur yn llawn.<br><br>Mae fforddiadwyedd costau byw yn dibynnu ar eu cost, yn ogystal ag incwm myfyrwyr i'w cyfarfod.<br><br>Yn dilyn un o argymhellion Diamond, mae cost 'basged o nwyddau' a werthir i fyfyrwyr gan eu sefydliadau (llety etc) am gael ei gasglu ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru a'i gymharu gan CCAUC, fodd bynnag dim ond yr arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr neu arolygon eraill all roi tystiolaeth o gostau byw myfyrwyr. |
| **Cytundeb?** | I ba raddau mae gan wahanol randdeiliaid safbwyntiau gwahanol am amcanion y prosiect a sut y cânt eu cyflawni? Pa mor weladwy yw barn y rhanddeiliaid y gellid disgwyl iddynt fod â safbwyntiau gwahanol? | Gan ddibynnu ar eu diddordebau, ymddengys fod rhanddeiliaid yn deall amcanion y prosiect ac yn canolbwyntio arnynt mewn amrywiol ffyrdd.<br><br>Ymddengys mai blaenoriaeth sefydliadau addysg uwch yw'r sefydlogrwydd a'r ymreolaeth ariannol y bydd system gyllido gynaliadwy yn eu cynnig. Maent yn teimlo nad yw rheolaethau ar niferoedd myfyrwyr yn ddymunol nac yn effeithiol wrth leihau gwariant.<br><br>Mae myfyrwyr a'u cynrychiolwyr yn canolbwyntio ar sut y bydd y pecyn cymorth i fyfyrwyr yn cael gwared ar y rhwystrau ariannol rhag cymryd rhan a chwblhau ac yn lleihau pryder a straeon ariannol.<br><br>Mae eiriolwyr astudiaeth rhan-amser ac ôl-radd (sy'n gorgyffwrdd â'r grwpiau eraill) yn canolbwyntio ar y gwell cyfleoedd y bydd cymorth yn eu darparu a'u heffaith posibl ar ehangu cyfranogiad.<br><br>Mae tensiynau rhwng dymuniad Llywodraeth Cymru i gyfyngu ei chefnogaeth i ddarpariaeth ran-amser y mae ei hansawdd wedi ei sicrhau'n llawn ac sydd â dwysedd uwch na 25%, a rhanddeiliaid eraill sydd eisiau gweld hynny ag sy'n bosibl o wahanol fathau o ddarpariaeth y gellir eu cefnogi. |

| 2. Gwybodaeth sydd ar gael | | Nodiadau |
|---|---|---|
| **A oes set gyflawn o ddogfennau ar gael?** | … mewn cymhariaeth â'r hyn y gellid bod wedi ei ddisgwyl? E.e. Cynnig y Prosiect, adroddiadau cynnydd, Gwerthusiadau / asesiadau effaith, astudiaethau a gomisiynwyd | Fe wnaeth adolygiad Diamond ystyried amrywiaeth helaeth o dystiolaeth yn drylwyr, gan gynnwys ymchwil. Cafodd dau arolwg diweddar – astudiaeth Punt yn eich Poced UCM a'r Arolwg Incwm a Gwariant Myfyrwyr eu cynnwys. Cafodd gwaith modelu a rhagamcanu helaeth ei wneud i archwilio effeithiau ariannol datblygu'r cynigion ar gyllidebau Llywodraeth Cymru.<br><br>Comisiynwyd swm cyfyngedig o waith, gan gynnwys archwilio tystiolaeth ynghylch astudio rhan-amser a gwaith grŵp ffocws i archwilio agweddau at y gyfundrefn gymorth bresennol ac ysgogi syniadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Yn dilyn ei argymhellion, fe wnaeth swyddogion ddatblygu cynigion ar gyfer gweithredu'r argymhellion a dderbyniwyd ac ymgynghorwyd ar y rhain yn ystod gwanwyn 2017. Mae cynllun gwireddu buddion wedi cael ei ddatblygu. |
| **A oes mesuriadau sylfaenol yn bod?** | Os nad oes data sylfaenol ar gael eto, a oes cynlluniau penodol ar gyfer pryd y byddai data sylfaenol yn cael ei gasglu a pha mor ymarferol yw'r rhain?<br><br>Os yw data sylfaenol yn bod ar ffurf data arolwg, a yw'r data crai ar gael, ynteu dim ond detholiad o eitemau perthnasol ar hyn o bryd? A yw'r broses samplu yn glir? A yw'r offerynnau arolygu ar gael?<br><br>Os yw'r data sylfaenol ar ffurf ystadegau cenedlaethol neu is-genedlaethol, pa mor ddadelfenedig yw'r data? A oes data cyfres amser ar gael, ar gyfer y blynyddoedd cyn y prosiect? | **O ran yr elfennau cyllid myfyrwyr ac ehangu mynediad:**<br><br>Mae data llinell sylfaen cyfraddau ymrestru, cadw a chwblhau ar gael ar lefel y myfyriwr: data HESA. Mae amrywiaeth gyfyngedig o nodweddion myfyrwyr yn y set ddata hon.<br><br>Mae manylion benthyciadau, grantiau ac incwm teuluoedd ar gael ar lefel y myfyriwr: data SLC. Mae rhywfaint o ddata cyfyngedig iawn am nodweddion myfyrwyr ar gael o fewn y set ddata hon.<br><br>Mae data cynhwysfawr ar gael o setiau data addysg (CYBLD, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, casgliad ôl-16, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru) ynghylch y nodweddion personol a nodweddion astudio, a chyraeddiadau myfyrwyr sy'n hanu o Gymru tra oeddent yn yr ysgol ac mewn addysg bellach. Drwy fod y setiau data hyn ar gael maent yn cynnig y potensial am gysylltu a dadansoddi manwl y cyfraddau ymgeisio, cadw a chwblhau yn ôl nodweddion myfyrwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae setiau data yn mynd yn ôl fwy na degawd. Mae'n bosibl archwilio nodweddion personol a nodweddion astudio myfyrwyr a ymrestrodd yng nghyfundrefn 2012-2018 (byddai ymrestrwyr 2012 wedi bod ym mlwyddyn 11 yn 2009/10).<br><br>Mae arolwg incwm a gwariant myfyrwyr ar gyfer 2013/14 yn rhoi llinell sylfaen addas ar sail sampl o sefyllfa ariannol pob myfyriwr cyn y diwygiadau. Bydd y data hwn ar gael ar lefel unigolion yn yr Archif Data Cenedlaethol.<br><br>**O ran rhyddhau cyllid i weithredu blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch**<br><br>Mae manylion cyllidebau a gwariant ar wahanol raglenni ar gael, a byddant yn parhau i fod ar gael.<br><br>**O ran sefyllfa ariannol sefydliadau addysg uwch**<br><br>Mae cofnod cyllid HESA yn cyflwyno incwm yn ôl math. |
| **A oes data ar grŵp rheoli?** | A yw'n glir sut mae'r grŵp rheoli yn cymharu â'r grŵp ymyrryd? A yw'r data crai ar gael ynteu dim ond ystadegau cryno? A oes modd adnabod aelodau'r grŵp rheoli, a chysylltu â hwy o bosibl? Pa mor aml y casglwyd data ar statws y grŵp rheoli? | Nid oes unrhyw grŵp rheoli, gan fod y polisi'n cael ei weithredu'n gyffredinol i bawb. Y dewsiadau gwrthffeithiol yw myfyrwyr a sefydliadau addysg uwch o dan gyfundrefn 2012-18, ac o dan gyfundrefn Lloegr.<br><br>**O ran yr elfennau cyllid myfyrwyr ac ehangu mynediad**<br><br>Mae data amrwd cynhwysfawr ar gael am gefndir, cymwysterau, cyraeddiadau a chyfraddau cadw a chwblhau myfyrwyr sy'n hanu o Gymru (setiau data HESA, SLD, Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru) er y byddai angen i rai setiau data cael eu cyfosod. Byddai angen i grŵp gwrthffeithiol sy'n hanu o Loegr seiliedig ar y data hwn gael ei drafod gydag Adran |

| | | |
|---|---|---|
| | | Addysg Lloegr, ond efallai y gellid ei brynu ar lefel ddienw.<br><br>SIES – y posibilrwydd o gymharu sgoriau tueddiadau data myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a myfyrwyr sy'n hanu o Loegr.<br><br>**O ran rhyddhau cyllid i weithredu blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch**<br><br>Nid yw cymariaethau gwrthffeithiol yn bosibl.<br><br>**O ran yr elfennau cynaliadwyedd a chyllidebau sefydliadau addysg uwch**<br><br>Byddai data hanesyddol HESA ar gael. Dylai fod yn bosibl archwilio'r posibilrwydd o ddata sefydliadau addysg uwch Lloegr ar gyfer grŵp cymharu o sefydliadau addysg uwch cyfatebol yn Lloegr – byddai angen cadarnhau hyn |
| **A yw data yn cael ei gasglu ar gyfer yr holl ddangosyddion?** | A yw'n digwydd yn ddigon aml? A oes data sylweddol ar goll? A yw'r mesurau sy'n cael eu defnyddio yn ddibynadwy – h.y. A yw gwallau wrth fesur yn debygol o fod yn broblem? | **Myfyrwyr**: Digon o ddata aml ar gyfraddau ymrestru, cadw, cwblhau. Mae'r data hwn yn gyfngedig heb ei gysylltu rhwng setiau data gweinyddol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth canfyddiadau myfyrwyr yn ddibynnol ar arolygon drud ac mae'n anaml ac yn seiliedig ar samplau, gan olygu cyfyngiadau ar y manylder sydd ar gael.<br><br>**Gwario ar flaenoriaethau eraill**: Data sylfaenol ar gael yn ddigon aml<br><br>**Cyllid sefydliadau addysg uwch:** Data sylfaenol HESA ar gael yn ddigon aml |
| **A oes data allweddol ar gael?** | A oes modd adnabod y buddiolwyr arfaethedig a gwirioneddol? A oes cofnod o bwy oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau prosiect, pa weithgareddau oedd dan sylw a phryd y digwyddodd hynny? | Oes. Mae sefydliadau addysg uwch a dyraniadau cyllidebau yn hawdd eu hadnabod.<br><br>Myfyrwyr: mae ein setiau data gweinyddol yn cynnwys manylion cynhwysfawr am ddarpar fyfyrwyr posibl a myfyrwyr gwirioneddol. |
| **A oes data lle** | Yn y llinell sylfaen? Ar gyfer pob un o'r dangosyddion yn | Oes. Mae grwpiau mathau eraill o gydraddoldeb o fwy o ddiddordeb – |

| | | |
|---|---|---|
| **mae'r rhyw wedi ei ddadgyfuno ar gael?** | ystod camau ymyriadau'r prosiect? Yn y grŵp rheoli? Mewn unrhyw adolygiad neu broses canol tymor? | ee canraddau POLAR, is-grwpiau gwariant, ysgol yr aed iddi etc. Mae'r data hwn yn dibynnu ar gysylltu setiau data gweinyddol. |
| **Os oes adolygiadau neu werthusiadau wedi cael eu cynnal …** | A yw'r adroddiadau ar gael? A oes modd cysylltu â'r awduron? A yw'r data crai ar gael? A yw'r broses samplu yn glir? A yw'r offerynnau arolygu ar gael? | Nid oes adroddiadau gwerthuso'n bod ar hyn o bryd. |
| **A oes gan systemau monitro a gwerthuso sy'n bod eisoes y gallu i gyflawni?** | Lle nad oes data ar gael eto, a oes gan y staff a'r systemau presennol y gallu i wneud hynny yn y dyfodol? A yw cyfrifoldebau, ffynonellau a materion cyfnodol wedi eu diffinio ac yn briodol? A yw'r gyllideb yn ddigonol? | Mae gennym rywfaint o adnoddau i fanteisio ar setiau data gweinyddol sy'n bod eisoes, ac ymrwymiad hirdymor i fuddsoddi mewn arolygon (SIES, Arolwg Sgiliau Cyflogwyr, Arolwg Safbwynt Cyflogwyr) a dadansoddi data arolygon, ond nid yw hyn wedi ei gynllunio'n fanwl na'i warantu. Rydym yn ceisio cyngor gan gymheiriaid ynghylch allai fod y ffordd orau o fuddsoddi mewn tystiolaeth bellach i gefnogi'r gwerthusiad. |

| | | |
|---|---|---|
| **3. Cyd-destun y sefydliad** | | **Nodiadau** |
| **Ymarferoldeb** | | |
| **Hygyrchedd o safbwynt rhanddeiliaid ac ar gael iddynt?** | A oes risgiau diogelwch corfforol? A fydd y tywydd yn gyfyngiad?<br>A yw staff a rhanddeiliaid allweddol yn debygol o fod yn bresennol, ynteu'n absennol ar wyliau neu secondiad? A ellir dibynnu ei fod ar gael fel y nodir? | Byddai rhanddeiliaid yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC), sefydliadau cynrychioli'r sector (Prifysgol Cymru, UCM) sylwebwyr arbenigol, myfyrwyr, staff sefydliadau addysg uwch. Byddai cynnllunio amserol yn caniatáu mynediad boddhaol.<br>Mae'r risgiau diogelwch yn fach iawn. |
| **Adnoddau ar gael i wneud y gwerthusiad?** | Yr amser sydd ar gael yn gyffredinol ac yn y wlad? Amseriad o fewn amserlen yr holl weithgareddau eraill? Y cyllid sydd ar gael ar gyfer y tîm perthnasol, ac am ba hyd? Y bobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol | I'w gynllunio. Byddai cynigion ar gyfer dull gwerthuso yn cael eu cyflwyno i uwch swyddogion a gweinidogion a fydd yn cymryd penderfyniad ynghylch y lefel o fuddsoddiad i'w wneud. |

| | | |
|---|---|---|
| | ar gael ar hyn o bryd? | |
| **A yw'r amseru'n iawn?** | A oes cyfle i werthusiad gael dylanwad? A yw'r prosiect wedi cronni digon o brofiad ymarferol fel bod modd dysgu gwersi defnyddiol? Os cafodd y gwerthusiad ei gynllunio ymlaen llaw, a yw'r gwerthusiad yn dal i fod yn berthnasol? | Mae angen i'r gwerthusiad edrych ar effaith y diwygiadau ariannol ar fyfyrwyr a sefydliadau addysg uwch yn y tymor canolig (2 flynedd, 5 mlynedd a 10 mlynedd), gan archwilio'n gyntaf oll yr effaith ar ymrestru a chanfyddiadau myfyrwyr, a chyllid addysg uwch, ac wedyn, rhoi sylw hefyd i gadw a chwblhau. Yn yn pen draw edrych ar effeithiau ar lefelau cymwysterau a iechyd a llesiant pobl Cymru. Bydd y cyfnod gwerthuso estynedig yn caniatáu archwilio'r effeithiau hyn a dysgu gwersi ar bob cam. |
| **Gofynion cydlynu?** | Faint o roddwyr eraill, adrannau'r llywodraeth, neu gyrff anllywodraethol sydd angen cymryd rhan neu sydd eisiau cymryd rhan? Pa fathau o gydlynu sy'n bosibl a/neu sy'n ofynnol? | Bydd ar Grŵp Rhanddeiliaid Diamond eisiau chwarae rhan yng ngrŵp ymgynghorol y gwerthusiad. |
| **Defnyddioldeb** | | |
| **Pwy sydd eisiau gwerthusiad?** | A yw'r prif ddefnyddwyr wedi eu nodi'n glir? A allant chwarae rhan wrth ddiffinio'r gwerthusiad? A fyddant yn cymryd rhan mewn proses werthuso? | Mae prosiect Diamond yn cynnwys rhaglen werthuso. Roedd yn argymhelliad a dderbyniwyd yn llawn gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae defnyddwyr sylfaenol wedi ymrwymo'n llawn i gymryd rhan. |
| **Beth mae'r rhanddeiliaid eisiau ei wybod?** | Pa gwestiynau gwerthuso sydd o ddiddordeb i bwy? A yw'r rhain yn realistig, o ystyried cynllun y prosiect a'r data sy'n debygol o fod ar gael? A ellir eu blaenoriaethu? Sut mae pobl eisiau gweld y canlyniadau'n cael eu defnyddio? A yw hyn yn realistig? | Bydd gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i ddeall yr effaith ar flaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, er mwyn gwella cyfleoedd, ehangu mynediad, cynyddu fforddiadwyedd astudio, sicrhau dyfodol sefydliadau addysg uwch a gweithredu blaenoriaethau eraill yn y dyfodol.<br>Bydd angen archwilio ymhellach flaenoriaethau rhanddeiliaid allanol o ran yr hyn fydd y gwerthusiad yn canolbwyntio arno. Cynigir bod yr ymarferiad adolygu gan gymheiriaid yn cynnwys rhai cyfweliadau gyda'r prif randdeiliaid i sefydlu beth fydd eu prif gwestiynau. |
| **Pa fath o broses** | Pa ddyluniadau sydd o ddiddordeb i randdeiliaid? A allai'r rhain | Bydd gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru yn dymuno |

| | | |
|---|---|---|
| **werthuso ma ear randdeiliaid ei heisiau?** | weithio, o ystyried y gwerthusiad o'r cwestiynau sydd o ddiddordeb a'r wybodaeth sy'n debygol o fod ar gael, a'r adnoddau sydd ar gael? | manteisio ar y ffynonellau cyfoethog o ddata gweinyddol sydd ar gael a defnyddio'r technegau trin data gorau i wneud hynny.<br>Bydd arnynt hefyd eisiau defnyddio technegau ansoddol i archwilio profiadau a phryderon myfyrwyr a'u cynrychiolwyr, i ategu, dehongli a chyfoethogi tystiolaeth o setiau data.<br>Byddant yn ceisio defnyddio'r adolygiad llenyddiaeth a'r cyfweliad â rhanddeiliaid i ddeall yn well y cyd-destun ehangach Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol, lle gall ffactorau economaidd, marchnad lafur a gwleidyddol ddylanwadu ar effaith y diwygiadau. |
| **Pa faterion moesegol sy'n bod?** | A ydynt yn hysbys neu a oes modd gwybod amdanynt? A ydynt yn debygol o fod yn hylaw? Pa gyfyngiadau a ddaw yn eu sgil? | Oherwydd problemau posibl ynghylch preifatrwydd a datgelu, bydd caffael, cyfateb a dadansoddi data myfyrwyr yn gofyn am ddull diwyd ac amserol o gael at ddata a rhannu data, ond dylai fod yn ymarferol. Mae'r caniatâd defnyddio perthnasol yn ei le.<br>Gall creu corff AHO newydd, os daw'n gyfrifol am gofnod HESA Cymru newid trefniadau mynediad, ond mae'r materion sydd ynghlwm â hynny'n debygol o fod yn rhai gweinyddol yn bennaf.<br>Gall fod materion sensitifrwydd ynghylch cael manylion o sefyllfa ariannol sefydliadau addysg uwch unigol o ran datgelu'r wybodaeth hon, a datgellu'r gwahanol gyfraddau y mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn eu cyrraedd o ran ymrestru, cadw a chwblhau. |
| **Beth yw'r risgiau?** | A fydd rhanddeiliaid yn gallu rheoli canfyddiadau negyddol? A yw profiadau gwerthuso blaenorol wedi rhagfarnu cyfranogiad tebygol rhanddeiliaid? | Mae risgiau y bydd rhanddeiliaid yn anhapus gyda chanfyddiadau negyddol. Ni fydd yn ddigon disgrifio yn unig y newidiadau mewn ffactorau a chyllidebau myfyrwyr. Dylai'r gwerthusiad fod mewn digon o ddyfnder i archwilio'n fanwl esboniadau am newidiadau, er mwyn helpu rhanddeiliaid i ddeall sut mae canfyddiadau negyddol a chadarnhaol wedi codi a sut i ymdrin â hwy.<br>Bydd angen cymryd gofal wrth ledaenu'r canfyddiadau. |